# Agenda - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 11 Mai 2022

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Robert Donovan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddEconomi@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## Cyfarfod cyhoeddus (09.30-11.45)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30)

### 2.1 Llythyr gan Weinidog yr Economi

(Tudalennau 1 - 7)

**Dogfennau atodol:**

Cyfeiriad newydd i yrwyr Cerbydau Nwyddau Trwm

### 2.2 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd

(Tudalennau 8 - 9)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022

### 2.3 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd

(Tudalennau 10 - 11)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Esemptiadau Trawsgydymffurfio a Rheoliad Trosiannol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 12 - 16)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

**2.5 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd**

(Tudalennau 17 - 26)

**Dogfennau atodol:**

Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Iechyd Planhigion ac Amrywogaethau a Hadau Planhigion

**2.6 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 27 - 34)

**Dogfennau atodol:**

Fframwaith Cyffredin Gwrteithiau

**2.7 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 35 - 39)

**Dogfennau atodol:**

Fframwaith Cyffredin Cynhyrchu Organig

**2.8 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 40 - 45)

**Dogfennau atodol:**

Fframwaith Cyffredin Cymorth Amaethyddol

**2.9 Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**

(Tudalennau 46 - 55)

**Dogfennau atodol:**

Fframwaith Cyffredin Iechyd a Lles Anifeiliaid

**2.10 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**

(Tudalennau 56 - 58)

**Dogfennau atodol:**

Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022

**2.11 Llythyr at Weinidog yr Economi**

(Tudalennau 59 - 68)

**Dogfennau atodol:**

Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia – yr effaith ar Gymru

## 3 Adolygiad o'r Rheoliadau ar Lygredd Amaethyddol

(09.30-10.30) (Tudalennau 69 - 100)

Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Victoria Jones, Pennaeth Amaethyddiaeth, Is-adran Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru

Eifiona Williams, Pennaeth Dŵr, Llywodraeth Cymru

Andrew Chambers, Arweinydd Tîm Datblygu Deddfwriaeth, Llywodraeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.30)

## 5 Preifat

(10.30-11.00)

Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod

Eitem 2.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS

Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Mai 2022

Annwyl Paul,

Gweler ynghlwm ein hymateb i'ch llythyr dyddiedig 4 Ebrill yn dilyn ymddangosiad gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon ac eglurhad ynghylch ei hymateb i ddadl y Pwyllgor ar eich adroddiad "Cyfeiriad newydd ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm".

Gallaf gadarnhau y byddwn yn defnyddio pwerau datganoledig mewn meysydd megis addysg a hyfforddiant, priffyrdd a thrafnidiaeth, a chynllunio gwlad a thref, lle bo modd, i wella'r hyfforddiant sydd ar gael i yrwyr, y cyfleusterau ar ochr y ffordd ac mewn mannau gorffwys, a'r cyfleusterau mewn safleoedd i gwsmeriaid cludiant nwyddau yng Nghymru.

Fel y nodwyd yn ystod y ddadl yn y Senedd, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant ac wedi addasu rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau presennol i ehangu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant i yrwyr lorïau. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Dysgu Personol a'r rhaglen ReAct. Mae gan ein Rhaglen Brentisiaeth nifer o opsiynau sy'n canolbwyntio ar logisteg, ac un ohonynt yw Lefel 2 a 3 mewn Gyrru Cerbydau Nwyddau.

At hynny, rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Cynllun Logisteg a Chludo Nwyddau newydd i Gymru o dan ein Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y sector a phartneriaid eraill i ddatblygu'r cynllun hwn a sicrhau ein bod yn ymgorffori argymhellion adroddiad y pwyllgorau yn y cynllun hwn.

Bydd unrhyw fuddsoddiad yn y dyfodol mewn hyfforddiant neu gyfleusterau ffyrdd yn amodol ar gyllid sydd ar gael o'n setliad cyllideb blynyddol.

Mae Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip wedi siarad â mi ynglŷn â chais y pwyllgorau i gyflwyno'r mater o archwilio cyfleusterau gyrwyr yng Nghymru.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion symud y gwaith hwn yn ei flaen fel blaenoriaeth a byddaf yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd y gwaith hwn wedi'i gwblhau gyda chopi o'n canfyddiadau cyhoeddedig.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda diwydiant fel mater o frys i ddatblygu rhaglenni prentisiaeth ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm a chefnogi'r diwydiant i gynyddu nifer y darparwyr hyfforddiant sydd ar gael i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael wrth i'r galw gynyddu.

**Ymateb: Derbyn**

Nid yw hyfforddi gyrwyr, profi a thrwyddedu galwedigaethol wedi'u datganoli i Gymru yn yr un modd ag nad yw DVLA a DVSA yn sefydliadau datganoledig, felly mae gallu Llywodraeth Cymru i ymyrryd yn y maes hwn yn gyfyngedig.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r diwydiant ac rydym wedi addasu rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau presennol i ehangu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant i yrwyr lorïau. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Dysgu Personol a'r rhaglen ReAct. Mae gan ein Rhaglen Brentisiaethau nifer o opsiynau sy'n canolbwyntio ar logisteg, ac un ohonynt yw Lefel 2 a 3 mewn Gyrru Cerbydau Nwyddau, sy'n cynnig opsiwn tymor canolig i gyflogwyr.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 2**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch cynnwys ac ansawdd hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus gyrwyr cerbydau nwyddau trwm i sicrhau bod unrhyw raglen newydd o ansawdd uchel, yn ddefnyddiol i yrwyr ac yn berthnasol i yrwyr a diwydiant yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn gwneud yr hyn a allwn i gefnogi'r diwydiant er nad yw'r rhan fwyaf o'r pwerau sy'n ymwneud â'r materion hyn wedi'u datganoli. Rydym yn parhau i weithio gyda DVLA, DVSA, DWP, darparwyr hyfforddiant a'r diwydiant i sicrhau bod y safonau uchaf posibl yn cael eu cadw o ran hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 3**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru gynnal archwiliad o gyfleusterau gorffwys ar gyfer gyrwyr a chreu rhestr genedlaethol yn debyg i’r un sydd ar gael ar gyfer Lloegr.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn ystyried hyn yn ein hymrwymiad newydd i'r Cynllun Logisteg a Chludo Nwyddau ar gyfer Cymru o dan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 4**

**Mae’r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio ar frys gyda phartneriaid i wella’r ddarpariaeth ar gyfer gyrwyr cerbydau nwyddau trwm lle ceir bod mannau gorffwys yn ddiffygiol.

**Ymateb: Derbyn**

Roeddem yn siomedig o glywed mai dim ond ar gyfer Lloegr y bydd y £32.5 miliwn o gyllid newydd ar gael i wella cyfleusterau parcio lorïau ond byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y sector yn cael y cymorth sydd ei angen arno i barhau i ddarparu ar gyfer y DU gyfan.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y sector a phartneriaid eraill i wella'r ddarpariaeth gorffwys i yrwyr cerbydau nwyddau trwm lle canfyddir bod diffyg fel rhan o'n Cynllun Logisteg a Chludo Nwyddau ar gyfer Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 5**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chludwyr, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr gyrwyr a gweithredwyr mannau gorffwys i gyflwyno system safonau gwirfoddol sy'n dangos i yrwyr pa mor gyfforddus a diogel yw mannau gorffwys ac ystyried sut i annog y defnydd ohonynt.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, y sector a phartneriaid eraill i ymchwilio i system safonau gwirfoddol sy'n dangos i yrwyr lefel cysur a diogelwch mannau gorffwys ac ystyried sut i'w hannog i fanteisio arnynt fel rhan o'r gwaith parhaus o ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'r Cynllun Logisteg a Chludo Nwyddau ar gyfer Cymru.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 6**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru ddiweddaru polisi cynllunio fel bod yn rhaid i ganiatadau cynllunio a roddir i gyfleusterau warws a datblygiadau eraill sy'n disgwyl cyflenwadau neu gasgliadau rheolaidd (e.e. ystadau diwydiannol a pharciau manwerthu) ddarparu cyfleusterau o ansawdd uchel i yrwyr. Dylai hefyd ystyried a oes modd defnyddio rheoliadau adeiladu i godi safonau mewn cyfleusterau newydd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae amseroedd cyrffyw ar gyfer danfoniadau wedi'u llacio ac rydym wedi ymestyn hynny ymhellach er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd gweithredol. Byddwn yn sicrhau bod cludo nwyddau a logisteg yn cael eu hintegreiddio i bolisi cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir ehangach ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 7**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar unrhyw adolygiad o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar amodau gwaith gyrwyr cerbydau nwyddau trwm. Fel rhan o hyn, dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r sector a gyrwyr yng Nghymru i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn yr adolygiad.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth a gedwir yn ôl sy'n effeithio ar amodau gwaith gyrwyr cerbydau nwyddau trwm i sicrhau bod y sector a'i yrwyr yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i barhau i gyflawni ar gyfer y DU gyfan.

Rydym yn cysylltu'n rheolaidd â changhennau Cymru o'r Gymdeithas Cludo ar y Ffyrdd a Logistics UK i gasglu gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'r diwydiant ac i fwydo hyn yn ôl i Lywodraeth y DU.

Yn y tymor hwy, mae cyfle i wrthdroi'r problemau sydd wedi bod yn adeiladu yn y diwydiant dros flynyddoedd lawer ac i greu sector mwy cynaliadwy a chadarn sy'n cynnig cyflogau ac amodau gwaith tecach i yrwyr. Ni ddylai mesurau dros dro Llywodraeth y DU danseilio'r dyhead tymor hwy hwn.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 8**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai cwmnïau cludo sicrhau bod eu gyrwyr yn teimlo bod yr oriau y gofynnir iddynt eu gyrru yn ddiogel.

**Ymateb: Derbyn**

Mae oriau gyrwyr cerbydau nwyddau trwm yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y sector yn cael y cymorth sydd ei angen arno i barhau i gyflawni ar gyfer y DU gyfan. Rydym yn parhau i annog Llywodraeth y DU i

ymgynghori â'r diwydiant i wneud ymdrechion tymor hwy i greu sector cludo nwyddau mwy cynaliadwy a chadarn yn y DU sy'n cynnig cyflog ac amodau gwaith teg i yrwyr.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 9**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai unrhyw un sy'n rheoli cyfleuster sy'n derbyn gyrwyr sicrhau eu bod yn ymwybodol o brofiad y gyrwyr hynny pan fyddant ar eu safleoedd.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r Cod Priffyrdd, diogelwch ar y ffyrdd a rheolau cerbydau yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Rydym wedi ymrwymo i gryfhau'r berthynas rhwng y Comisiynydd Traffig, yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau a Llywodraeth Cymru i wella diogelwch ar draws y sectorau o dan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Comisiynydd Traffig a gweithredwyr y sector Cludo Nwyddau a Logisteg i wella dealltwriaeth o faterion diogelwch a chydymffurfiaeth.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 10**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru sbarduno'r gwaith o ddatblygu cynllun cludo nwyddau sy'n ymgorffori argymhellion yr adroddiad hwn. Dylid datblygu cynlluniau cludo nwyddau rhanbarthol mewn cytgord â'r strategaeth genedlaethol.

**Ymateb: Derbyn**

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu Cynllun Logisteg a Chludo Nwyddau newydd i Gymru o dan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Byddwn yn ymgorffori'r argymhelliad hwn o'r adroddiad hwn yn y cynllun.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Argymhelliad 11**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell:**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi amserlen ar gyfer datblygu'r cynllun cludo nwyddau a pharhau i roi'r diweddaraf am hyn i'r pwyllgor hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y Cynllun Logisteg a Chludo Nwyddau ar gyfer Cymru wedi'i gwblhau erbyn 2024, gyda datgarboneiddio wrth wraidd y ddogfen. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am hynt y gwaith.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-0037-22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

27 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod yn rhoi cysyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) 2022 ar 19 Mai 2022. Disgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym y diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau technegol bach i gyfraith uniongyrchol yr UE a gedwir mewn perthynas â lles anifeiliaid wrth eu cludo a rheolaethau swyddogol. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw'r Rheoliadau'n cynnwys trosglwyddiadau o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio:

- Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo a gweithrediadau cysylltiedig; a

- Rheoliad (yr UE) 2017/625 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael ei chymhwyso, yn ogystal â rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff y diwygiadau eu crynhoi isod:

- **Rôl a diffiniad yr Awdurdod Cymwys:** Gofyniad gorfodol er mwyn i’r awdurdod cymwys adennill costau unrhyw gam(au) gorfodi y mae’n ei gymryd/eu cymryd mewn perthynas â swyddogaethau rheoli swyddogol. Mae’r pŵer i adennill costau wedi newid i gam gweithredu yn ôl disgresiwn. Felly, nid oes rhaid cymryd cam gweithredu bob amser. Mae hyn yn galluogi sefyllfaoedd ble y byddai’r broses o adennill costau yn anymarferol, aneconomaidd, neu nad yw er budd y cyhoedd fel arall. Gwnaed mân newidiadau drafftio eraill.

- **Dileu cyfeiriadau at sefydliadau'r UE a systemau cofnodi:** Mae cyfeiriadau at “aelod-wladwriaethau” yr UE wedi cael eu disodli gan “Prydain Fawr”. Mae gofyniad i awdurdod cymwys yn y DU ddarparu manylion am deithiau hir y mae’n bwriadu eu cymryd drwy system cyfnewid gwybodaeth yr UE wedi'i ddileu. Mae cyfeiriadau at system o bwyntiau cyswllt cenedlaethol a chynllun cymorth ar y cyd a ddefnyddir gan aelod-wladwriaethau'r UE wedi'u dileu. Mae gofyniad i ddarparu adroddiad blynyddol ar arolygiadau a gynhelir o dan y rheoliadau hyn, i Gomisiwn yr UE, wedi'i ddileu.

- **Cosbau:** Mae gofyniad i osod rheolau ar gosbau am dorri rheolau erbyn 5 Gorffennaf 2006, wedi'i ddileu. Nid oes angen gwneud hyn mwyach, gan fod rheolau ar gosbau ac achosion o dorri’r rheoliadau hyn wedi’u gosod erbyn y dyddiad cau hwnnw ac mewn grym ar hyn o bryd.

- **Diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth sydd wedi dyddio:** Mae cyfeiriadau at reoliadau eraill yng nghyd-destun hyfforddiant ar gyfer staff awdurdod cymwys, deddfwriaeth filfeddygol arall, ac archwiliadau lles anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a fydd yn cael eu lladd, wedi'u diweddaru i gyfeirio at y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n briodol ar gyfer y pynciau hynny.

Fel arfer, polisi Llywodraeth Cymru yw deddfu ar gyfer Cymru mewn materion sydd o gymhwysedd datganoledig. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau penodol mae manteision i gyd-weithio â Llywodraeth y DU lle mae rhesymeg glir dros wneud hynny. Rwyf yn rhoi caniatâd i'r Rheoliadau hyn, sy'n gwneud cywiriadau mewn perthynas â Chymru, ac ar ei rhan, am resymau effeithlonrwydd a hwylustod, ac i sicrhau cysondeb a chydlyniad y llyfr statud. Ystyriwyd y gwelliannau'n llawn ac nid oes unrhyw wahaniaeth mewn polisi. Mae ein safbwynt ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth y DU.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/0237/22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig

[Paul.Davies@senedd.wales](mailto:Paul.Davies@senedd.wales)

27 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod fy nghydsyniad yn cael ei roi i Offeryn Statudol gael ei wneud gan Lywodraeth y DU sy'n cynnwys elfennau o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru.

Bydd Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Esemptiadau Trawsgydymffurfio a Rheoleiddio Trosiannol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 (o hyn ymlaen 'y Rheoliadau') yn diwygio Rheoliad (EU) 1308/2013 i newid effaith y diwygiadau a wnaed gan Reoliad (EU) 2020/2220, i'r graddau y maent yn ymwneud ag Erthygl 55 ar raglenni gwenynyddiaeth ac Erthygl 167a ar reolau marchnata olew olewydd. Gan na wnaed unrhyw newidiadau ymarferol yn ystod y cyfnod pan oedd Rheoliad (EU) 2020/2220 yn gymwys yng Nghymru, ni fydd yn ofynnol monitro'r modd y caiff yr OS hwn ei gyflawni.

Rwyf yn cytuno, yn yr achos hwn, i roi cydsyniad i Victoria Prentis, y Gweinidog dros Ffermio, Pysgodfeydd a Bwyd, wneud darpariaeth i unioni methiant cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol yng Nghymru. Mae hyn drwy'r pwerau a roddir yn adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer REUL 1308/2013 mewn perthynas â Chymru, ond gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddeddfu mewn perthynas â Chymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

Mae'r cyfnod yr wyf yn rhoi cydsyniad ar ei gyfer wedi'i gyfyngu i hynt y Rheoliadau. Nid yw'r rheoliadau hyn yn cael effaith ymarferol dros gyfnod o amser, dim ond sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gallu gweithredu yng Nghymru y maent yn ei wneud. Felly, nid oes angen mecanwaith adolygu ac ni fydd hyn yn effeithio ar drefniadau cyfansoddiadol tymor hwy.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn rhag-weld mai'r Rheoliadau yw'r olaf o'r Offerynnau Statudol cywirol sy'n ymwneud â Chyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol. Eu rhesymeg polisi, felly, yw cynnal y gallu i weithredu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir yng Nghymru. Mae'r OS hwn yn gymwys i Gymru o ran rhaglenni gwenynyddiaeth a rheolau marchnata olew olewydd oherwydd effaith fach y ddwy agwedd hyn ar y ddeddfwriaeth, a hwylustod gweithio ar sail y DU gyfan i gywiro deddfwriaeth yr UE a ddargedwir na ellir ei gweithredu.

Mae buddiannau Cymru yn parhau i gael eu diogelu yn ystod hynt y Rheoliadau, gan fod Gweinidogion Cymru yn cadw'r opsiwn o'u diwygio yn y dyfodol ar sail Cymru'n unig.

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod ac yn mireinio'r Rheoliadau dros gyfnod o wythnosau gyda swyddogion cyfatebol yn DEFRA, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon (DAERA). Mae Llywodraeth y DU yn parhau i gydnabod y meysydd lle mae'r Rheoliadau'n gymwys i Gymru fel rhai sydd o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru. Mae swyddogion DEFRA wedi bod yn ymwybodol o'r angen i ofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer y Rheoliadau hyn, i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru, drwy gydol eu datblygiad.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**–**
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
**–**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

30 Mawrth 2022

Annwyl Weinidog,

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil uchod yn ei gyfarfod diwethaf ar 3 Chwefror. Cafodd adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Atodol hwn ei osod cyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 31 Mawrth. Ysgrifennaf i dynnu eich sylw at farn y Pwyllgor fel y'i nodir ym mharagraff 76 ymlaen, ac yn benodol at y wybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Pwyllgor amdani cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn, fel y'i nodir ym mharagraff 80:

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi nodi manteision deddfu ar sail y DU gyfan er mwyn sicrhau dull cyson o ymdrin â lles anifeiliaid, ac ni welodd unrhyw reswm dros wrthwynebu cydsyniad y Senedd i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil hwn a ystyriwyd ar 30 Medi 2021. Byddai'n croesawu diweddariadau pellach i'r Aelodau gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r sefyllfa o ran Rhan 2 o'r Bil - cŵn sy'n poeni da byw - a pha un a ddisgwylir i'r darpariaethau ar ddwyn anifeiliaid anwes gael eu hestyn i Gymru ai peidio.

Cofion cynnes,



**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-1410-22

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.davies@senedd.wales

28 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) ("y Bil").

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar Femorandwm Rhif 2 ac rwyf wedi nodi ei gasgliad a'i argymhellion. Yn eich llythyr, rydych wedi tynnu fy sylw at farn y Pwyllgor o Baragraff 76 ymlaen, a'r cais am ragor o wybodaeth ym Mharagraff 80.
Hoffwn ymddiheuro'n ddiffuant i'r Pwyllgor yn gyntaf am ein methiant i ddarparu fersiwn derfynol o Femorandwm Rhif 2 cyn 3 Mawrth pan gyflwynwyd y gwelliannau perthnasol ar 10 Tachwedd 2021. Mae'n ofid i bwyllgorau craffu'r Senedd na roddwyd digon o amser i Bwyllgorau craffu'r Senedd ystyried fersiwn derfynol o Femorandwm Rhif 2. Roedd maint a chymhlethdod y gwelliannau a gyflwynwyd i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin yn llesteirio ein hymdrechion.

Yr wyf yn llwyr gydnabod pwysigrwydd craffu llawn ac effeithiol gan y Senedd ar ddeddfwriaeth lle gofynnir i'r Senedd gytuno i Senedd y DU ddeddfu ar ei rhan mewn meysydd lle mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli. Byddaf yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol pellach ar y Bil yn gywir ac yn cael eu gosod gerbron y Senedd o fewn cyfnod rhesymol.

Mae'r Bil yn gymhleth ond mae iddo werth gwirioneddol i Gymru ac rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU ar ddiwygiadau lles anifeiliaid y mae mawr eu hangen sy'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gyffredinol, yr wyf yn croesawu sylwadau'r Pwyllgor ynglŷn â manteision deddfu ar sail y DU gyfan ar gyfer dull cyson o ymdrin â lles anifeiliaid. Mae egwyddorion y Prif Weinidog ar gyfer deddfu ym Mesurau'r DU yn ei gwneud yn glir ein bod yn dilyn yr egwyddor y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael eu deddfu gan y Senedd. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion hefyd yn cydnabod bod amgylchiadau lle mae'n synhwyrol ac yn fanteisiol, a byddant yn parhau i fod, os ceisir darpariaeth, a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ar gyfer Cymru ym Mesurau Senedd y DU, gyda chydsyniad y Senedd, ac ni fydd darpariaeth o'r fath yn aml yn cynnwys rhoi pwerau dirprwyedig newydd i Weinidogion Cymru.

Mae fy nghefnogaeth i gynnwys darpariaeth ddatganoledig yn y Bil hwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion hynny gan y bydd cymryd darpariaeth mewn Bil y DU yn ei gwneud yn bosibl cyrraedd atebion pragmatig mewn modd amserol, gan barchu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol ar yr un pryd.

Mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil ar Primatiaid, cytunais y dylai'r defnydd o'r darpariaethau hyn ymestyn i Gymru gan fod y cynnig deddfwriaethol yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru ac na ellid bod wedi cyflawni darpariaethau tebyg yn y Senedd mewn modd amserol. Bydd yn galluogi aliniad agosach ar orfodi, yn enwedig ar y ffiniau.

Rydym wedi ymrwymo i beidio â chreu bylchau yn y math hwn o ddeddfwriaeth lle gall perchnogion primatiaid groesi ffiniau er mwyn osgoi'r gofynion trwyddedu. Mae cynnwys Cymru yn y Bil yn sicrhau y byddai hyn yn cael ei osgoi. Er bod y Bil ei hun yn nodi gofynion clir mewn perthynas â'r safonau trwyddedu; y broses ymgeisio; rolau a chyfrifoldebau, Cymru sy'n gyfrifol am y pwerau i gyflwyno is-ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer cynllun trwyddedu ar gyfer primatiaid (a gedwir mewn lleoliad domestig).

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'u cymheiriaid yn Defra mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i gychwyn darpariaethau yn Rhan 1 gyda'r bwriad o sefydlu dyddiad priodol ar gyfer cyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer primatiaid (a gedwir mewn lleoliad domestig). O ran yr union ddyddiad cychwyn mewn perthynas â Rhan 1 ac a fydd y darpariaethau'n cael eu cychwyn yng Nghymru a Lloegr ar yr un dyddiad, mae hwn yn fater a gaiff ei adolygu'n barhaus

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am ein dull o ymgynghori ar amodau'r drwydded a chefnogi Awdurdodau Lleol i weithredu'r drefn drwyddedu newydd ar gyfer primatiaid. Gofynnwyd hefyd a oes gennym gynlluniau i gymhwyso Rhan 1 o'r Ddeddf i anifeiliaid gwyllt eraill ai peidio, yn unol â'r pwerau yng nghymal 22. Yn gyntaf, nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gymhwyso cymal 22 i anifeiliaid gwyllt eraill. Fodd bynnag, bydd y cymal hwn yn diogelu'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol ac yn ei galluogi i gael ei defnyddio pe bai rhesymau gwyddonol neu foesol a moesegol dros ymestyn cynllun trwyddedu i anifeiliaid gwyllt eraill a gedwir mewn lleoliad domestig.

O ran ein dull o ymgynghori a chefnogi Awdurdodau Lleol, cynhelir ymgynghoriad fel arfer ar unrhyw reoliadau newydd yn unol â'n polisi ymgynghori a bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni'n llawn. Mae gan fy swyddogion drefniadau gweithio cryf gyda sefydliadau allweddol y trydydd sector lles anifeiliaid drwy Rwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru a Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda Phrosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol dan arweiniad Safonau Masnach Cymru a byddant yn ymgysylltu â hwy drwy gydol y broses o ddiffinio, mireinio a gorfodi cynllun trwyddedu i Gymru.

Ariennir Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol ei hun gan Lywodraeth Cymru ac fe'i sefydlwyd, yn wreiddiol, i gefnogi'r gwaith o orfodi'r rheoliadau sy'n ymwneud â chŵn ledled Cymru. Mae ei rôl bellach wedi'i hehangu i gefnogi'r weledigaeth yn ein Rhaglen Lywodraethu a Chynllun Lles Anifeiliaid Cymru i gyflwyno model cenedlaethol o drwyddedu a gorfodi ar gyfer lles anifeiliaid.

Yn olaf, ar Ran 1, bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r dyddiad cychwyn ar gyfer Rhan 1 o'r Bil mewn perthynas â Chymru.

Ysgrifennodd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Goldsmith o Richmond Park ataf, ar 25 Ebrill, i gynnig yn ffurfiol ymestyn y drosedd cipio anifeiliaid anwes i Gymru a hefyd i ymateb i'm llythyr dyddiedig Hydref y llynedd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch Rhan 2 o'r Bil (cŵn sy'n ymosod ar dda byw neu'n eu poeni) ac asesiad Llywodraeth y DU o gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r darpariaethau hynny. Safbwynt Llywodraeth y DU o hyd yw bod Rhan 2 o'r Bil yn ymwneud â chadw cŵn sydd allan o reolaeth, ac mae'r Arglwydd Goldsmith wedi cadarnhau nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu trosglwyddo'r pwerau yn Rhan 2 i Weinidogion Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru. Bydd angen peth amser arnaf i ystyried y camau nesaf ynglŷn â'r mater hwn a'r cynnig i ymestyn y drosedd cipio anifeiliaid anwes i Gymru. Ysgrifennaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad y ddau fater.

Yn ogystal â barn y Pwyllgor, rydych hefyd wedi tynnu fy sylw at baragraffau 51 a 52 o Adroddiad y Pwyllgor sy'n cyfeirio at y datganiad ym Memorandwm Rhif 2 nad oes angen cydsyniad mewn perthynas â chymal 51 o'r Bil, sef y darpariaethau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 mewn perthynas â swyddogaethau cydamserol. Rwy'n cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.1 (ii), bod angen cydsyniad ar gyfer unrhyw ddarpariaeth sydd, mewn perthynas â Chymru, yn addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Gyda diolch i'r Pwyllgor, ac ar y sail hon, bydd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n cynnwys y mater hwn felly yn cael ei osod maes o law.

Daeth y cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 1 Tachwedd 2021, ond nid oedd unrhyw gamau pellach ar gyfer ystyried y Bil wedi'u trefnu. Ar 25 Ebrill, cytunodd Tŷ'r Cyffredin ar gynnig cario drosodd ar y Bil. Felly, bydd y Bil yn symud ymlaen i'r sesiwn Seneddol nesaf.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru

28 Ebrill 2022

Annwyl Paul

**Fframweithiau Cyffredin Dros Dro ar gyfer Iechyd Planhigion ac Amrywogaethau a Hadau Planhigion**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth yn gofyn am ragor o wybodaeth a/neu eglurhad ar amryw o faterion sy'n ymwneud â Fframweithiau Cyffredin dros dro ar gyfer Iechyd Planhigion ac Amrywogaethau a Hadau Planhigion. Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan y Pwyllgor wedi'u nodi isod.

Pwyntiau Cyffredinol

***Pam mae angen Fframweithiau Cyffredin ar gyfer iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion?***

Cytunodd y pedair Llywodraeth fod angen Fframweithiau Cyffredin ar wahân ar gyfer y ddau faes hyn i sicrhau cysondeb a dulliau cydlynol rhwng gweinyddiaethau ac i helpu i reoli ymwahanu ar draws cyfundrefnau.

***Mae'r ddau fframwaith mewn meysydd polisi â chysylltiadau agos â meysydd fframweithiau cyffredin eraill, fel iechyd a lles anifeiliaid, diogelu iechyd y cyhoedd a sicrwydd iechyd a diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid. Sut fydd y cysylltiadau rhwng y fframweithiau yma'n cael eu rheoli?***

Gall cysylltiadau gael eu nodi a’u rheoli drwy gynrychiolaeth yn y gwahanol strwythurau llywodraethu sy’n cefnogi Fframweithiau eraill. O fewn y portffolio EFRA ehangach, mae strwythurau ar waith i ganiatáu i faterion sy’n berthnasol i nifer o Fframweithiau, neu sy’n effeithio ar amryw o Fframweithiau, gael eu trafod yn ôl yr angen. Gellir gwneud hyn drwy’r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (IMG-EFRA) neu’r Bwrdd Rhaglen Uwch Swyddogion sy’n ei gefnogi.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwneud penderfyniadau a rheoli ymwahanu

***Wnewch chi ddisgrifio sut mae prosesau penderfynu yn y maes yma wedi newid ers i'r DU adael yr UE?***

Amrywogaethau a Hadau Planhigion:

Mae prosesau gwneud penderfyniadau wedi gorfod ystyried offerynnau statudol (SIs) a rheolau statudol (SRs) sy’n berthnasol i’r DU gyfan, Prydain i gyd a rhai sy’n berthnasol i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn unig sydd wedi'u diwygio neu eu datblygu fel bod y llyfr statud presennol ar Amrywogaethau a Hadau Planhigion yn parhau i fod yn weithredol. Mewn ymateb i Brotocol Gogledd Iwerddon, cyflwynwyd deddfwriaeth i wahanu'r rhestr o amrywogaethau ar gyfer y DU fel bod dwy restr bellach yn berthnasol, sef un ar sail Prydain Fawr ac un ar sail Gogledd Iwerddon. Felly, gwneir penderfyniadau i ychwanegu amrywogaethau at restr Prydain Fawr a/neu Ogledd Iwerddon gan weinyddiaethau Prydain Fawr ar y cyd a chan Ogledd Iwerddon, yn hytrach nag ar sail y DU ar y cyd. Mae deddfwriaeth wedi’i gwneud ar gyfer Prydain sy'n dod â phwerau i roi cydnabyddiaeth gyfatebol i brosesau ardystio gwlad arall ar sail weinyddol, gan Weinidogion, ar gyfer y prif gnydau bwyd a bwyd anifeiliaid drwy awdurdodiad. Roedd hefyd yn cynnwys amryw o swyddogaethau deddfwriaethol penodol a oedd yn cael eu harfer yn flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor Ewropeaidd mewn perthynas â deddfwriaeth farchnata'r UE ar gyfer ffrwythau, llysiau a phlanhigion addurniadol. Roedd y swyddogaethau hyn ar goll o gyfraith ddomestig ac yn galluogi pob Llywodraeth ym Mhrydain i wneud newidiadau deddfwriaethol i ddeddfwriaeth ddomestig ar gyfer ffrwythau, llysiau a phlanhigion addurniadol.

Mae'r prif benderfyniadau'n parhau i gael eu gwneud gan y Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion (PVSC) i gydgysylltu dull y DU o ymdrin â Hawliau Bridwyr Planhigion, cofrestru amrywogaethau, a marchnata ac ardystio hadau a deunyddiau lluosogi planhigion eraill. Mae'n gyfrifol am y Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol (NLSC). Mae'r NLSC bellach yn rheoli'r broses o gofrestru amrywogaethau a esbonnir uchod ar sail Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ac yn cynghori ar agweddau technegol ar restru y cyfeirir ato gan y PVSC.

Iechyd Planhigion:

Mae prosesau gwneud penderfyniadau wedi gorfod ystyried offerynnau statudol DU gyfan, Prydain i gyd a rhai Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn unig sydd wedi'u diwygio fel bod y llyfr statud presennol ar ddeddfwriaeth iechyd planhigion yn parhau i fod yn weithredol. Mae'r pedair Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu polisi ar faterion sydd o fudd i bawb, drwy wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar gonsensws.

I'r perwyl hwnnw, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn mynychu amryw o weithgorau i drafod rheoleiddio a pholisi iechyd planhigion ac i gydgysylltu ymatebion i fygythiadau i iechyd planhigion. Grŵp Risg Iechyd Planhigion (PHRG) y DU a grŵp Sefydliad Diogelu Planhigion Cenedlaethol (NPPO) y DU yw'r ddau brif gorff sy'n gwneud penderfyniadau o fewn y Fframwaith Iechyd Planhigion. Roedd y ddau yn bodoli ar ryw ffurf cyn i'r DU ymadael â'r UE. Fodd bynnag, roedd angen adnoddau ychwanegol ac ad-drefnu'r strwythurau presennol i reoli'r swyddogaethau a ddychwelodd i'r DU o'r UE. Dirprwywyd gweithgareddau a chyfrifoldebau'r PHRG i is-grwpiau er mwyn caniatáu i'r PHRG ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau, gyda thrafodaethau manwl a thechnegol yn cael eu cynnal yn yr is-grwpiau hyn. Byddai'r trafodaethau technegol hyn wedi'u cynnal yng ngweithgorau iechyd planhigion yr UE cynt.

Mae grwpiau newydd wedi'u creu i gasglu'r holl swyddogaethau a ddychwelodd i'r DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae'r rhain yn cynnwys y Bwrdd Parodrwydd ar gyfer Achosion Iechyd Planhigion a'i is-grwpiau, y Gweithgor Mynediad i'r Farchnad Iechyd Planhigion, y Cytundeb Masnach Rydd a Grŵp Cydgysylltu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, y Gweithgor Cydgysylltu Gwyddoniaeth a'r Gweithgor Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig.

***Mae'r ddau Fframwaith yn darparu i lywodraethau wneud penderfyniadau ar y cyd ar gyfraith a pholisi. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod hyn ddim yn cyfyngu ar rôl y Senedd na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth wneud cyfraith a llywio polisi i Gymru?***

Mae rhywfaint o'r ddeddfwriaeth ddomestig bresennol sy'n rheoleiddio agweddau ar amrywogaethau a hadau planhigion yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'Awdurdodau Cenedlaethol' (Gweinidogion Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon) weithredu ar y cyd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion yn cael ei gwneud ar sail Cymru yn unig, neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'r Senedd yn cymryd rhan yn y prosesau deddfwriaethol hyn yn ôl yr arfer.

Bydd rhanddeiliaid o Gymru yn parhau i gyfrannu at ddatblygu polisi a thrafodaethau, er enghraifft, drwy'r Fforwm Cynghori ar Iechyd Planhigion neu Grŵp Tystiolaeth a Chynghori ar Iechyd Planhigion Cymru. Yn gyffredinol, ymgynghorir â rhanddeiliaid yn gynnar yn y broses o ddatblygu polisi. Mae'r is-grwpiau i'r UK PHRG yn ymgysylltu'n aml â grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft, i lywio opsiynau ar gyfer mesurau newydd/diwygiedig yn erbyn plâu neu i lywio blaenoriaethau ar gyfer mynediad i'r farchnad.

***Os yw llywodraeth eisiau ymwahanu, mae'r fframweithiau'n darparu ar gyfer asesiadau effaith gwahanol ar gyfer iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion. Ar ba sail gafodd y meini prawf asesu yma eu dewis?***

Mae'r Partïon i'r Fframwaith Amrywogaethau a Hadau Planhigion wedi dod i'r casgliad ar y cyd y dylai unrhyw ymchwiliad i effeithiau ymwahanu posibl, yn y man lleiaf, ystyried yr effaith ar weithrediad y farchnad fewnol, masnach ryngwladol a rhwymedigaethau rhyngwladol. Bydd y dull hwn yn caniatáu i'r Partïon ystyried sut y byddai ymwahanu yn effeithio ar farchnata hadau a deunydd planhigion yn ddomestig ac i sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiadau rhyngwladol drwy UPOV (Yr Undeb Rhyngwladol dros Ddiogelu Amrywogaethau Newydd o Blanhigion) ac OECD. Bydd hefyd yn ein galluogi i asesu beth fyddai'r goblygiadau ar gyfer masnach a rhwymedigaethau rhyngwladol. Os bydd un Parti yn nodi y bydd polisi neu fesur newydd yn cael effaith annerbyniol ar unrhyw un o'r meysydd hyn, ac na all y PVSC ddatrys y mater, gallai hyn sbarduno'r mecanwaith datrys anghydfodau.

O ran Iechyd Planhigion, mae angen cyfiawnhad technegol ar gyfer ymwahanu, er enghraifft, o ganlyniad i'r bygythiad a achosir gan risgiau plâu penodol. Gallai asesiad risg plâu ddangos y byddai pla penodol yn cael mwy o effaith ar un Parti na'r lleill, er enghraifft, oherwydd y planhigion neu'r coed sydd mewn perygl, daearyddiaeth neu hinsawdd. Bydd Gwasanaeth Iechyd Planhigion y DU yn ystyried y gwahaniaethau yn nifer yr achosion o blâu a chlefydau ledled y DU sy'n cyfiawnhau gwahanol fesurau diogelu, a gallai hyn olygu mai ymwahanu yw'r peth gorau. Byddai angen i unrhyw ymwahanu gyd-fynd ag egwyddorion Fframweithiau Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ac ystyried yr effeithiau ar ddefnyddwyr, masnach y DU a rhwymedigaethau rhyngwladol, a diogelu iechyd planhigion ym Mhrydain/y DU, gan gynnwys ystyriaethau bioddiogelwch.

***Pwy fydd yn cynnal yr asesiadau?***

Ar gyfer amrywogaethau a hadau planhigion, y PVSC fydd yn ystyried effeithiau ymwahanu a chytuno ar ddull gweithredu. Gallai hyn hefyd gynnwys comisiynu asesiadau gan yr NLSC neu ei is-grwpiau.

O ran Iechyd Planhigion, Grŵp Risg Iechyd Planhigion y DU yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch asesiadau risg plâu.

***Fyddai rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys wrth lunio'r asesiad?***

Byddai rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys fesul achos yn ôl yr angen.

***Mae'r fframweithiau'n darparu i gyrff hyd braich perthnasol gymryd rhan mewn grwpiau penderfynu. Mae rhai o'r cyrff yma (fel APHA a'r Comisiwn Coedwigaeth) yn gweithredu yng Nghymru, ond dydyn nhw ddim yn atebol yn ffurfiol i'r Senedd. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd cyrff gwahanol yn glir?***

Mae cytundeb ar waith rhwng APHA a Gweinidogion Cymru, o dan Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n cwmpasu Amrywogaethau a Hadau Planhigion ac Iechyd Planhigion. Mae'r cytundeb hwn yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd. Mae cwmpas y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar gyfer darparu Swyddogaethau Coedwigaeth a Chyflenwi Ymchwil ar draws ffiniau yn sefydlu Fframwaith cytûn ar gyfer rolau, cyfrifoldebau, cysylltiadau a chydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr Coedwigaeth mewn perthynas â rheoleiddio Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) a Deunyddiau Atgenhedlol y Goedwig yng Nghymru.

<u>Iechyd Planhigion</u>

***Mae'r fframwaith yn nodi ei fod e'n ceisio cynnal rheolau cyffredin ar iechyd planhigion. Pa gwmpas ar gyfer ymwahanu mae hyn yn cynnig o'i gymharu â'r sefyllfa dan aelodaeth yr UE?***

Mae'r Partïon i'r Fframwaith wedi ymrwymo i reolau iechyd planhigion cyffredin ledled Prydain/y DU, gan barhau i ganiatáu ymwahanu yn unol ag egwyddorion Fframweithiau Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r EU) ar yr un pryd.

***Yn wahanol i'r fframwaith amrywogaethau a hadau planhigion, dyw'r fframwaith yma ddim yn gosod uchelgais ar gyfer safonau gofynnol. Pam felly?***

Yn hytrach na phennu safonau gofynnol, mae'r Fframwaith Iechyd Planhigion yn amlinellu amcanion a rennir ar gyfer pob Parti. Mae'r rhain yn ymwneud â diogelu iechyd planhigion a hwyluso masnach mewn deunyddiau planhigion. Drwy'r fframwaith, mae'r partïon wedi ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r amcanion hyn ac yn cael eu llywio ganddynt.

Mae deddfwriaeth iechyd planhigion yn cael ei diwygio mewn ymateb i'r bygythiad a achosir gan blâu penodol, lle y gellir cyfiawnhau hynny'n dechnegol. Pan ystyrir bod lefel risg pla penodol yn uchel, neu os oes ansicrwydd, cynhelir Dadansoddiad Risg Plâu manwl, gan ddilyn safonau a ragnodir yn rhyngwladol. Drwy'r broses hon, bydd nifer o feini prawf yn cael eu hystyried cyn datblygu'r asesiad o'r risg a gwneud penderfyniadau am newid deddfwriaethol.

***Pa ran ydych chi wedi'i chael wrth ddatblygu'r Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion ar gyfer Prydain Fawr drwy'r fframwaith?***

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion yn Defra, Llywodraeth yr Alban a DAERA drwy'r Gweithgor Strategaeth Bioddiogelwch a'r Grŵp Llywio i ddatblygu'r strategaeth bioamrywiaeth. Mae swyddogion wedi cyfrannu at ddrafftio'r ymgynghoriad ar y strategaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid o Gymru a llunio ymateb cyfunol y Llywodraethau i'r ymgynghoriad. Bydd swyddogion yn parhau i weithio gyda'i gilydd drwy'r Fframwaith i gwblhau'r strategaeth yn derfynol yn ystod y misoedd nesaf.

***Wnewch chi ddisgrifio rôl Cyfoeth Naturiol Cymru mewn polisi iechyd planhigion?***

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cyflawni swyddogaethau iechyd planhigion (coedwigaeth) Gweinidogion Cymru drwy gytundeb o dan Adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae CNC yn rheoli clefydau daearol mewn perthynas â choetiroedd a choed ar yr ystad goedwig genedlaethol.

***Pam dyw Cyfoeth Naturiol Cymru ddim yn cael ei gynrychioli yng ngrwpiau llywodraethu'r fframwaith?***

Gan fod CNC yn gweithredu fel corff cyflawni ar gyfer Gweinidogion Cymru, mae'n mynychu cyfarfodydd lefel cyflawni priodol, er enghraifft, cyfarfodydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau mewn perthynas ag achosion o glefydau coed.

<u>Amrywogaethau a Hadau Planhigion</u>

***Mae'r fframwaith yn nodi ei fod e'n ceisio cynnal safonau gofynnol ar gyfer marchnata hadau, a galluogi marchnad fewnol weithredol yn y DU ar gyfer hadau a deunydd lluosogi planhigion. Pa gwmpas ar gyfer ymwahanu mae hyn yn cynnig o'i gymharu â'r sefyllfa dan aelodaeth yr UE?***

Ni fydd y Fframwaith yn gwneud unrhyw newidiadau i gwmpas yr ymwahanu presennol. Mae'r Partïon i'r Fframwaith yn ymrwymo i gynnal safonau gofynnol ar gyfer marchnata hadau, fel y nodir mewn deddfwriaeth, gan roi sicrwydd i'n partneriaid masnachu, gan barhau i ganiatáu rhyddid i Bartïon ragori ar y safonau gofynnol hyn yn unol ag egwyddorion Fframweithiau Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar yr un pryd.

***Mae'r fframwaith yn darparu bod yn rhaid i lywodraethau hysbysu ei gilydd cyn gynted â phosibl am gynigion ar gyfer newidiadau i gyfraith a pholisi, cyn ymgynghoriad cyhoeddus. Sut fyddwch chi'n sicrhau bod hyn ddim yn cyfyngu ar rôl y Senedd na rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau ar gyfraith a pholisi i Gymru?***

Byddai newidiadau i'r gyfraith neu newidiadau sylweddol i bolisi bob amser yn destun ymgynghoriad a bydd barn rhanddeiliaid o Gymru yn cael ei hystyried. Wrth wneud deddfwriaeth gan ddefnyddio pwerau o fewn Deddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, mae dyletswydd ar Weinidogion i ymgynghori â chynrychiolwyr buddiannau o'r fath sy'n ymddangos eu bod yn berthnasol cyn gwneud rheoliadau.

***Dyw pedwar protocol ar benderfyniadau drwy'r fframwaith ddim wedi'u cyhoeddi. Pam felly, a phryd mae disgwyl cyhoeddi'r rhain?***

Mae'r protocolau'n dal i gael eu datblygu. Y bwriad yw eu cyhoeddi ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol yn ddiweddarach yn 2022, a byddant ar gael maes o law.

***Beth yw cynnwys yr adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol a'r Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion, a phryd fydd y cylch gorchwyl diwygiedig yn cael ei gyhoeddi?***

Nod yr adolygiad o'r Cylch Gorchwyl yw sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau'r ddau Bwyllgor yn cyd-fynd â'r Fframwaith. Nid oes bwriad i gyhoeddi'r Cylch Gorchwyl ond gellir ei ddarparu ar gais.

Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

***Pa effaith allai Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ei chael ar gyfraith Cymru ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion?***

Bydd newidiadau polisi yn y dyfodol yn cael eu hystyried fesul achos i benderfynu ble y bydd Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 (UKIMA) yn croestorri.

***Ydych chi'n bwriadu gofyn am eithriadau o'r Ddeddf ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion?***

Nid oes unrhyw fwriad i ofyn am eithriad.

Cyrff a safonau rhyngwladol

***O ran elfennau rhyngwladol y fframweithiau, wnewch chi ddisgrifio cyfleoedd newydd mae'r fframweithiau'n eu darparu i Lywodraeth Cymru?***

Mae datblygu Fframweithiau wedi cynyddu'r cwmpas ar gyfer rhyngweithio o'r fath rhwng timau polisi perthnasol y pedair Llywodraeth.

Rhaid i benderfyniadau a wneir o dan y Fframwaith Amrywogaethau a Hadau Planhigion fod yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU. Mae'r rhain yn cynnwys bod yn llofnodwr y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu Amrywogaethau Newydd o Blanhigion (UPOV) a'i aelodaeth o gynlluniau'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) ar gyfer Ardystio Hadau Amrywogaethol. Nod y Fframwaith yw sefydlu amcanion polisi cyffredin a safbwyntiau ar gyfer ymgysylltu mewn sefydliadau rhyngwladol. Bydd un o'r pedair dogfen protocol (y ddogfen protocol rhyngwladol (sy'n cael ei datblygu)) yn disgrifio'n fanylach sut y bydd safbwyntiau'r DU mewn fforymau rhyngwladol yn cael eu cydgysylltu drwy rag-gyfarfodydd, er mwyn cytuno ar safbwyntiau ar gynigion drwy gynrychiolwyr dynodedig mewn cyfarfodydd rhyngwladol.

Mae dylanwad yn UPOV yn enghraifft allweddol ar gyfer Amrywogaethau a Hadau Planhigion. O dan gyfundrefn yr UE, roedd y DU yn rhan o gynrychiolaeth y Swyddfa Amrywogaethau Planhigion Cymunedol (CPVO) i UPOV. Mae'r DU bellach yn aelod annibynnol, felly os yw'r DU yn dylanwadu ar bolisi UPOV, bydd partïon contractio eraill megis y CPVO, ac felly aelod-wladwriaethau eraill yr UE, yn dilyn y penderfyniadau y cytunwyd arnynt ar lefel ryngwladol.

Yr UE a Gogledd Iwerddon

***Wnewch chi ddisgrifio sut byddwch chi'n ceisio dylanwadu ar safbwyntiau'r DU mewn cyrff rhyngwladol drwy bob un o'r fframweithiau yma?***

Mae pob Fframwaith yn ceisio pennu amcanion polisi cyffredin a safbwyntiau ar gyfer ymgysylltu mewn sefydliadau rhyngwladol.

Ar gyfer Amrywogaethau a Hadau Planhigion, bydd un o'r pedair dogfen protocol sy'n cael eu datblygu (y ddogfen protocol rhyngwladol) yn amlinellu sut mae safbwyntiau'r DU mewn

fforymau rhyngwladol yn cael eu cydgysylltu drwy rag-gyfarfodydd, er mwyn cytuno ar safbwyntiau ar gynigion drwy gynrychiolwyr dynodedig mewn cyfarfodydd rhyngwladol.

***Wnewch chi roi trosolwg o sut mae cyfraith yr UE a ddargedwir ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion yng Nghymru wedi newid ers diwedd y cyfnod pontio?***

- Ar gyfer Amrywogaethau a Hadau Planhigion ac Iechyd Planhigion, gwnaed amryw o Offerynnau Statudol yn 2021 i wneud mân gywiriadau ac i gael gwared ar gyfeiriadau at Ogledd Iwerddon yn Offerynnau Statudol Ymadael â'r UE blaenorol. Er enghraifft: Mae Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid, Iechyd Planhigion, Hadau a Thatws Hadyd (Diwygiadau Amrywiol) 2021 yn gwneud diwygiadau ymarferol i sicrhau y gall rheolaethau iechyd planhigion ac anifeiliaid weithredu'n effeithiol i ddiogelu bioddiogelwch a chefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a'r trydydd gwledydd perthnasol. Ar gyfer amrywogaethau a hadau planhigion, roedd hyn yn cynnwys mân gywiriadau i ddeddfwriaeth ddomestig ar restru cenedlaethol a thatws hadyd.

- Mae Rheoliadau Deunyddiau Lluosogi Planhigion Llysieuol ac Addurniadol a Hadau Planhigion Porthiant (Diwygio) 2021 yn diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlanhigion a deunydd lluosogi planhigion llysieuol ac addurniadol a hadau planhigion porthiant i ddileu darpariaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon nad ydynt bellach yn angenrheidiol o ganlyniad i ddeddfwriaeth yr UE a ychwanegwyd at baragraff 42 o Atodiad 2 i'r Protocol.

- Mae Rheoliadau Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Hadau (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021 yn mewnosod darpariaethau trosiannol mewn is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru ym maes safonau a labelu bwyd a bwyd anifeiliaid ac yn ymwneud â diwygiadau i ddeddfwriaeth a wneir gan offerynnau statudol Ymadael â'r UE eraill. Ar gyfer hadau, mae'r rheoliadau'n gwneud mân gywiriad i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012.

***Sut fyddwch chi'n parhau i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion ac asesu goblygiadau ymwahanu â'r UE a Gogledd Iwerddon?***

Gan fod cyfraith yr UE ar ardystio a marchnata Amrywogaethau a Hadau Planhigion yn parhau i fod yn gymwys yng Ngogledd Iwerddon, mae swyddogion yn monitro'r wybodaeth ddiweddaraf sy'n dod allan o'r UE yn rheolaidd er mwyn gallu ystyried deddfwriaeth i’r dyfodol. Gallai hyn gynnwys cywiriadau pellach i ddeddfwriaeth ymadael â’r UE, trosglwyddo pwerau coll o ddeddfwriaeth yr UE i gyfraith ddomestig a gwneud newidiadau lle mae penderfyniadau’r UE wedi’u gwneud ers diwedd y cyfnod pontio. Drwy'r PVSC, bydd y pedair Llywodraeth yn ystyried goblygiadau deddfwriaeth newydd yr UE ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Gall ymwahanu fod yn angenrheidiol ym maes iechyd planhigion gan fod bygythiadau plâu yn aml yn wahanol ar gyfer gwahanol ardaloedd daearyddol. Er mai dim ond mewn ymateb i fygythiadau plâu i Brydain Fawr y caiff deddfwriaeth Prydain Fawr ei newid, mae deddfwriaeth newydd yr UE yn cael ei hadolygu i ddeall pa effeithiau y gallai ei chael ar Brydain Fawr a Phrotocol Gogledd Iwerddon. Lle mae rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â rhai'r UE, mae'r Fframwaith yn galluogi'r pedair Llywodraeth i ystyried y newidiadau ac i bennu unrhyw effeithiau a chamau gweithredu dilynol sy'n deillio ohonynt.

***Sut fyddwch chi'n asesu risgiau a manteision parhau i ddatblygu'n gyfochrog â chyfraith yr UE mewn cymhariaeth â chynnal y sefyllfa bresennol?***

Bydd y risg a'r manteision sy'n deillio o unrhyw newidiadau posibl yng nghyfraith yr UE yn cael eu hasesu drwy'r grwpiau llywodraethu ym mhob fframwaith. Ar gyfer Amrywogaethau a Hadau Planhigion, bydd hyn drwy'r PVSC gyda chyngor gan ei is-grŵp. Bydd y Grŵp Risg Iechyd Planhigion a'i is-grwpiau yn ystyried ac yn asesu newidiadau i gyfraith yr UE ynghylch plâu a chlefydau, ochr yn ochr â'r dystiolaeth sy'n ymwneud â'r mesurau plâu hynny.

***Ydych chi'n fodlon bydd y fframweithiau'n darparu ar gyfer ymgysylltiad digonol gan Lywodraeth Cymru mewn trafodaethau drwy'r fframwaith sefydliadol rhwng y DU a'r UE ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion?***

Mae datblygu Fframweithiau wedi cynyddu'r cwmpas ar gyfer rhyngweithio rhwng timau polisi perthnasol y pedair Llywodraeth. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo buddiannau Cymru yn y meysydd hyn drwy'r grwpiau Fframweithiau.

<u>Masnach Ryngwladol</u>

***Mae'r ddau fframwaith yn darparu y byddan nhw'n galluogi'r llywodraethau i "ystyried goblygiadau sy'n deillio o fasnach ryngwladol sy'n cael effaith uniongyrchol ar weithrediad Fframwaith Cyffredin". Ydych chi o'r farn bod hyn yn rhoi digon o gyfle i Lywodraeth Cymru gyfrannu i safbwyntiau'r DU ar iechyd planhigion ac amrywogaethau a hadau planhigion yn ystod negodiadau masnach ryngwladol?***

Ni fwriedir i'r Fframweithiau fod yn arfau i ddylanwadu ar bolisi rhyngwladol. Fodd bynnag, bydd timau polisi'r Fframwaith Cyffredin yn mynnu buddiannau Cymru yn y meysydd hyn drwy'r grwpiau Fframweithiau.

Mewn perthynas â Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE, rydym ar ddeall os yw agenda cyfarfod rhwng y DU a'r UE yn cynnwys eitem sy'n ymwneud â gweithredu mewn maes o gymhwysedd datganoledig, dylai Llywodraeth y DU hwyluso presenoldeb Llywodraethau Datganoledig ar lefel debyg i gynrychiolwyr Llywodraeth y DU, a chyd-gadeirydd y DU fydd â'r gair olaf am gynrychiolwyr y DU. Deallwn hefyd y dylai Llywodraeth y DU gynnwys y Llywodraethau Datganoledig gymaint â phosibl wrth baratoi ar gyfer y cyfarfodydd hyn (megis cyfarfodydd y Pwyllgorau Arbenigol) waeth a fyddant yn mynychu'r cyfarfodydd ai peidio, ac ar yr holl faterion gweithredu perthnasol.

***Bydd y gweithgor mynediad i'r farchnad ar Iechyd Planhigion y DU yn cydgysylltu hyrwyddo masnach a chydweithredu. Wnewch chi roi mwy o wybodaeth am gylch gorchwyl, aelodaeth a gweithgarwch grwp yma?***

Mae'r grŵp hwn yn datblygu ac yn olrhain y camau blaenoriaeth ar gyfer codi ymwybyddiaeth a nodwyd drwy'r Gofrestr Risg a'r broses Dadansoddi Risg Plâu. Mae'n cydgysylltu strategaeth ymgyrchu ar y cyd a gwybodaeth rhwng y pedair Llywodraeth, APHA a'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae'r grŵp hefyd yn cynghori ac yn gwneud cynigion ar godi ymwybyddiaeth yn ôl cais y PHRG ac i fynd ati'n rhagweithiol i godi cyfleoedd.

***Allai anghytundebau ar safbwyntiau'r DU mewn negodiadau masnach gael eu huwchgyfeirio drwy'r fframwaith yma?***

Mae'r ddau Fframwaith yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar safbwynt y DU ar fasnach a chyfrannu at y safbwynt hwnnw. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i uwchgyfeirio'r trafodaethau hyn i'r strwythurau llywodraethu portffolio EFRA cyffredinol, gan gynnwys IMG-EFRA, er mwyn i Weinidogion eu hystyried.

Ar gyfer Amrywogaethau a Hadau Planhigion, mae deunydd planhigion a hadau yn cael eu masnachu drwy gynlluniau hadau OECD lle mae'r rhain yn berthnasol ac mae cyfranogwyr wedi'u rhwymo gan reolau'r cynlluniau hyn.

***Mae'r fframwaith iechyd planhigion yn cyfeirio at fodel gweithredu ar ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig ar Gytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd, a chanllawiau'r Adran Masnach Ryngwladol ar ymgysylltiad datganoledig â Phwyllgorau Sefydliad Masnach y Byd. Wnewch chi roi manylion am y trefniadau yma?***

Ceir ymgysylltiad cadarnhaol ar lefel swyddogion ac mae'r trefniadau'n cynnwys cyfarfodydd rheolaidd ac ymrwymiadau i rannu gwybodaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig mewn perthynas â phwyllgorau Sefydliad Masnach y Byd.

***Ydych chi'n fodlon bod y model a'r canllawiau yma'n ymgysylltu ddigon â Chytundeb SPS Sefydliad Masnach y Byd a Phwyllgorau Sefydliad Masnach y Byd?***

Y DU yw'r aelod-wladwriaeth yn Sefydliad Iechyd y Byd, felly nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw bwyllgorau Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r trefniadau a nodir yn cynnig ymgysylltiad digonol ar faterion Sefydliad Iechyd y Byd ac SPS.

<u>Llywodraethu a Datrys Anghydfodau</u>

***Ydych chi o'r farn bod y dulliau datrys anghydfod yn y fframweithiau'n ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig?***

Ystyrir bod y dulliau datrys anghydfodau yn gadarn ac yn gymesur. Mae'r rhain wedi'u datblygu a'u cytuno ar y cyd gan y pedair gwlad. Mae'r dull datrys anghydfodau yn caniatáu i achosion o anghytuno gael eu huwchgyfeirio fel anghydfodau i Weinidogion, lle y bo'n briodol ac yn angenrheidiol, i'w datrys yn amserol.

***Mae'r fframwaith iechyd planhigion yn nodi mai dim ond pan does dim modd dod i gytundeb gwirioneddol dylai'r broses datrys anghydfod gael ei defnyddio, fel pan fyddai ymwahanu'n cael effaith negyddol ar y gallu i fodloni egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau'r UE). Fodd bynnag, mae e hefyd yn dweud y gallai anghydfodau gael eu codi os yw cynnig polisi yn gwrthdaro â pholisi unrhyw barti. Beth yw risgiau a manteision pennu meini prawf llym ar gyfer uwchgyfeirio anghydfodau, ac ydych chi o'r farn bod y fframwaith yn taro'r cydbwysedd iawn?***

Mae'r Partïon i'r Fframwaith Iechyd Planhigion i gyd wedi'u rhwymo gan yr un rhwymedigaethau rhyngwladol ac mae ganddynt amcanion cyffredin. Am y rhesymau hyn, rydym yn disgwyl i anghydfodau fod yn brin. Fodd bynnag, os bydd angen, mae'r broses datrys anghydfodau yn amlinellu pryd y gellir ei defnyddio gyda'r bwriad bod anghydfodau'n cael eu datrys cyn gynted â phosibl.

***Dyw'r fframwaith ddim yn pennu terfynau amser ar gyfer datrys anghydfod. Oes risg gallai hyn arwain at oedi i ddeddfwriaeth neu bolisi Cymru?***

Ystyrir bod y dulliau datrys anghydfodau yn gadarn ac yn gymesur. Mae'r rhain wedi'u datblygu a'u cytuno ar y cyd gan y pedair Llywodraeth. Mae'r dull yn caniatáu uwchgyfeirio i Weinidogion, lle bo hynny'n briodol ac yn angenrheidiol, i ddatrys anghydfod yn amserol.

***Beth fydd rôl mewnbwn allanol i ddatrys anghydfod?***

Bydd hyn yn cael ei ystyried fesul achos.

Datblygu

***Sut wnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygu'r fframweithiau?***

Ar gyfer pob Fframwaith, ymgysylltwyd â rhanddeiliaid o grwpiau/cyrff diwydiant yn ystod y broses ddrafftio, a darparwyd ffeithlun gyda gwybodaeth am y fframwaith iddynt. Ymgysylltwyd â’r rhanddeiliaid hyn eto yn dilyn cyhoeddi’r fframweithiau yn gynharach eleni.

***Sut mae'r fframweithiau'n adlewyrchu ymatebion rhanddeiliaid yng Nghymru?***

Ar gyfer Amrywogaethau a Hadau Planhigion, gofynnodd rhanddeiliaid am y gallu i gyfrannu at ddatblygu’r pedwar protocol gan mai nhw fydd yn cael yr effaith fwyaf ar eu gweithgareddau. O ran Iechyd Planhigion, y prif adborth oedd bod angen mwy o eglurder ynghylch sut yr oedd y grwpiau rhanddeiliaid yn rhyngweithio â strwythur ehangach Gwasanaeth Iechyd Planhigion y DU. Mae hyn wedi’i adlewyrchu yn y diagram strwythur llywodraethu sydd wedi’i gynnwys yn y Concordat a Chytundeb Amlinellol y Fframwaith.

Adolygu a diwygio

***Sut fydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu i broses adolygu a diwygio'r fframweithiau?***

Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd i gytuno ar y broses ar gyfer monitro a llywodraethu Fframweithiau Cyffredin ar ôl iddynt gael eu cwblhau’n derfynol. Mae hyn yn cynnwys datblygu templed safonol ar gyfer adrodd i'w ddefnyddio ar draws pob Fframwaith. Bydd hyn yn rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac yn cynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (IMSC) newydd gyda Gweinidogion o'r pedair gwlad.

Byddwn yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid ar ddatblygiadau mewn polisi yn y ffordd arferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi gwybod i randdeiliaid am bwyntiau adolygu'r Fframweithiau Cyffredin sydd ar y gorwel ac am unrhyw argymhellion gan y Senedd.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

28 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar Wrteithiau ('y Fframwaith').

Rwy'n falch o ddarparu ymatebion i'r cwestiynau a godwyd. Mae'r cwestiynau wedi'u grwpio lle maent wedi'u trafod mewn un ymateb.

<u>Cwmpas y Fframwaith</u>

***A allwch egluro cwmpas y fframwaith ac a yw'n ymwneud yn unig â rheoli rheoleiddio a oedd gynt yn cael ei lywodraethu gan yr UE neu'r holl reoliadau a pholisi gwrteithiau?***

Mae'r Fframwaith wedi'i ddrafftio i gefnogi rheoleiddio gwrteithiau'n effeithiol ledled y DU, nawr bod y Cyfnod Pontio wedi dod i ben, gan gynnwys mewn perthynas â:

- deddfwriaeth yr UE a ddargedwir;
- deddfwriaeth ddomestig;
- prosesau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau rhwng y Partïon (pedair Llywodraeth y DU) mewn perthynas â gwrteithiau; a
- gweithrediad deddfwriaeth yr UE fel y bo'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

Mae polisi a deddfwriaeth gwrteithiau yn ymdrin â'r rheolau ar fewnforio, allforio, gwerthu neu ddefnyddio gwrteithiau yn y DU, gan gynnwys:

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- diffiniadau;
- terfynau cyfansoddiadol;
- ymwrthedd i danio;
- gofynion labelu;
- gweithdrefnau samplu a dadansoddi;
- prosesau ar gyfer cydymffurfio a gorfodi sy'n ymwneud â gwrteithiau; a
- gofynion sy'n berthnasol i fewnforwyr ac allforwyr.

Mae'r Fframwaith hefyd yn ymdrin â chasglu tystiolaeth dechnegol a gwyddonol ynghylch gwrteithiau, ymgysylltu â rhanddeiliaid, prosesau llunio polisi a dyluniad polisi, yn ogystal â chydgysylltu goruchwylio'r farchnad a gorfodi.

Mae gan unrhyw ddeunyddiau a daenir ar dir i wella twf cnydau y potensial i ddod o dan gwmpas y Fframwaith. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu a marchnata gwrteithiau. Byddai angen i wrteithiau organig gael eu hystyried fesul achos gan Bwyllgor Rheoleiddio Gwrteithiau'r DU (UKFRC).

***A allwch gadarnhau a fyddai rheoliadau sy'n ymwneud â rheoli llygredd amaethyddol yn dod o fewn cwmpas y fframwaith cyffredin?***

O ran datblygu polisïau a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r math o reolaethau ar ddefnyddio gwrteithiau a ragnodir gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, disgwylir y byddai'r rhain yn cael eu rhannu ag Aelodau UKFRC, yn unol â'r ffyrdd o weithio a gweithdrefnau a sefydlwyd gan y Fframwaith. Fodd bynnag, at ddibenion gwybodaeth yn unig y byddai hyn ar y cyfan. Mae aelodau UKFRC yn ymwybodol o'r Rheoliadau hyn, ac o gyfundrefnau rheoleiddio tebyg yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ac nid oes unrhyw faterion wedi codi mewn perthynas â'r rhain wrth weithredu'r Fframwaith dros dro hyd yma.

***Os oedd yn ymwneud â'r holl reoliadau a pholisi, a allwch egluro sut mae hyn yn wahanol i'r ffordd yr oedd cyfraith a pholisi gwrteithiau yn cael eu llywodraethu cyn i'r DU ymadael â'r UE?***

Mae'r Fframwaith yn ffurfioli'r trefniadau llywodraethu presennol. Roedd swyddogion o bob gwlad yn y DU eisoes wedi bod yn cynnal cyfarfodydd ac yn trafod datblygiadau polisi gwrteithiau cyn creu'r Fframwaith, ond heb unrhyw fecanwaith llywodraethu ysgrifenedig.

***A allwch gadarnhau a oes gan Lywodraeth Cymru yr un hyblygrwydd i ddatblygu cyfraith a pholisi gwrteithiau a oedd ganddi cyn diwedd y cyfnod pontio?***

Nid yw gallu Llywodraeth Cymru i ddeddfu a datblygu polisi mewn perthynas â gwrteithiau wedi lleihau ers diwedd y cyfnod pontio.

***A allwch nodi pa fframweithiau eraill y mae'r fframwaith hwn yn rhyngweithio â hwy a sut y caiff y rhyngweithio hynny ei reoli?***

Gall y Fframwaith hwn ryngweithio â Fframweithiau Cyffredin eraill, gan gynnwys y rhai ar ansawdd aer, cemegion a phlaladdwyr, cynhyrchu organig ac atal a rheoli llygredd integredig. Bydd aelodau UKFRC yn gyfrifol am nodi a rheoli unrhyw ryngweithio, yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn y Fframwaith.

Proses gwneud penderfyniadau yn y Fframwaith

***A allwch ddarparu enghreifftiau o'r mathau o benderfyniadau a wneir drwy'r fframwaith ar bolisïau a chyfreithiau?***

Bydd Rheoliad 2019/1009 yr UE, ar ddarparu cynhyrchion gwrteithiau'r UE (yr FPR) i'r farchnad, sy'n cael ei gymhwyso fesul cam, yn disodli Rheoliad (EC) Rhif 2003/2003 yn yr UE unwaith y bydd yn gwbl gymwys ym mis Gorffennaf 2022. Bydd hyn yn cyflwyno cyfundrefn reoleiddio asesu cydymffurfiaeth newydd ar gyfer cynhyrchion gwrteithiau'r UE, a fydd yn rheoleiddio ystod ehangach o ddeunyddiau nag a reoleiddir ar hyn o bryd fel gwrteithiau'r CE. Bydd yr FPR yn pennu terfynau halogyddion ar wrteithiau penodol o fewn yr UE. Mae hyn yn cynrychioli newid mawr mewn rheoliadau gwrteithiau yn yr UE, y bu'r DU yn ymwneud â'u datblygu cyn ymadael â'r UE.

Derbynnir yn gyffredinol bod angen diweddaru deddfwriaeth ddomestig ar gyfer gweithgynhyrchu a marchnata gwrteithiau, gan gynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir, gan gwmpasu ystod ehangach o gynhyrchion ac ymgorffori safonau cyson mewn rheolau cynhyrchu a marchnata. Roedd rhai o erthyglau'r FPR yn berthnasol cyn diwedd y Cyfnod Pontio a chymerwyd camau i weithredu'r erthyglau hynny ym Mhrydain Fawr lle bo hynny'n ofynnol drwy Reoliadau Cynhyrchion Gwrteithiau 2020.

Rhagwelir mai diweddaru deddfwriaeth ddomestig ar gynhyrchion gwrteithiau, ar gyfer gweithgynhyrchu a marchnata ystod ehangach o wrteithiau a chynnal mynediad at gyflenwadau gwrteithiau o'r UE, fydd ffocws y gwaith a wneir o dan y Fframwaith dros y blynyddoedd nesaf. Bydd angen datblygu polisi a deddfwriaeth mewn perthynas â rheolaethau dros fewnforio, allforio, gwerthu neu ddefnyddio gwrteithiau yn y DU, gan gynnwys cyfyngiadau ar halogyddion, gweithdrefnau samplu a dadansoddi a gorfodi.

***A allwch roi enghraifft o sut y bydd y chwe amcan a amlinellir yn y fframwaith yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau o dan y fframwaith?***

Bydd angen i'r gwaith o ddatblygu unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig ystyried yr amcanion cyffredinol. Bydd angen ystyried gofynion cyfansoddiad gwrteithiau er mwyn sicrhau bod lefelau'r halogyddion a allai fod yn niweidiol a ganiateir yn briodol wrth ddatblygu unrhyw gyfundrefn ddeddfwriaethol ddiwygiedig. Gellir ystyried cynnwys deunyddiau gwrteithiau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth gwrteithiau ar hyn o bryd, er mwyn sicrhau diogelwch y deunyddiau hynny.

Gallai hyn gynnwys y posibilrwydd o gynnwys safonau ar gyfer cynhyrchion gwrteithiau organig er mwyn darparu fframwaith rheoleiddio gwell, er mwyn hwyluso arloesedd a dull economi gylchol. Dylai'r gofynion cyfansoddiad a ddarperir gan unrhyw ddeddfwriaeth newydd ystyried goblygiadau halogyddion a allai fod yn niweidiol i iechyd pobl a'r amgylchedd.

Byddai angen i unrhyw gyfundrefn gwrteithiau ddiwygiedig sicrhau bod cynhyrchwyr, defnyddwyr a chyrff gorfodi yn deall ac yn cydymffurfio â'r gofynion. Mae dull gweithredu o'r fath yn golygu bod angen creu a chynnal amgylchedd rheoleiddio addas. Byddai'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth newydd yn cael ei lywio drwy ymgynghori â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn addas i'r diben, yn ymarferol ac yn orfodadwy.

Mae'r tri chwestiwn canlynol wedi'u grwpio:

***A allwch egluro pa rai fydd y prif grwpiau a fydd yn ymwneud â gwneud penderfyniadau a pham mae'r fframwaith yn anghyson wrth gyfeirio atynt?***

***Mae'r disgrifiadau o bwy fydd yn ymwneud â datrys anghydfodau yn aneglur. A allwch nodi pa strwythurau a grwpiau a fydd yn ymwneud â datrys anghydfodau?***

***A allwch egluro rôl Pwyllgor Rheoleiddio Gwrteithiau'r DU (UKFRC) o'i chymharu â rôl y Grŵp Cyswllt Gwrteithiau? Pwy fydd yn cadeirio UKFRC?***

Mae amryw o brosesau gwneud penderfyniadau, gyda phob un yn gofyn am gyfraniad gwahanol grwpiau. UKFRC yw'r unig grŵp sy'n ymwneud â phenderfyniadau polisi neu ddeddfwriaethol, lle mae aelodau UKFRC yn cytuno a lle nad oes unrhyw ymwahanu. Os oes anghytuno neu ymwahanu, caiff mater ei uwchgyfeirio i'r Grŵp Cyswllt Gwrteithiau.

Mae swyddogion yn cynnwys eu huwch swyddogion eu hunain ar faterion o bwys posibl fel mater o drefn a byddent yn parhau â'r drefn weithio arferol hon mewn perthynas â materion fframwaith, gan gynnwys materion yn ymwneud ag ymwahanu, hyd yn oed lle'r oedd pob swyddog yn cytuno ar lefel UKFRC. O ran datrys anghydfodau, ni fyddai unrhyw anghydfod rhwng partïon yn mynd yn uniongyrchol o swyddogion polisi (UKFRC) i Fwrdd Rhaglen yr Uwch Swyddogion (SOPB), a dyna pam y sefydlwyd y Grŵp Cyswllt Gwrteithiau. Byddai'r Grŵp Cyswllt Gwrteithiau, sy'n cynnwys uwch swyddogion (lefel Gradd 5), yn ceisio cyfryngu unrhyw anghydfodau cyn unrhyw uwchgyfeirio pellach. Mae aelodaeth y Grŵp Cyswllt Gwrteithiau yn dibynnu ar p'un a yw'r anghytundeb yn ymwneud â pholisi neu weithrediad y Fframwaith. Bydd swyddogion polisi Defra yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gadeirio cyfarfodydd UKFRC.

Rôl uwch swyddogion, a lle bo'n berthnasol, y Grŵp Cyswllt Gwrteithiau yw darparu haen ychwanegol o gymorth rhwng swyddogion sy'n rhan o UKFRC a'r llwybr uwchgyfeirio penderfyniadau neu anghydfodau i'r SOPB neu Weinidogion, ac mae'n rhan o drefniadau gwaith arferol pob llywodraeth.

Ni fydd unrhyw grŵp newydd yn cael ei ffurfio i ymdrin â phenderfyniadau neu anghydfodau sy'n gysylltiedig â gwrteithiau yn unig gan fod grŵp presennol, y SOPB, eisoes yn darparu'r swyddogaeth hon ar draws sawl maes polisi. Bydd uwch swyddogion yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar bolisi a phenderfyniadau deddfwriaethol. Ni fydd yn ofynnol iddynt gyfathrebu na chyfarfod yn ystod y broses o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol iddynt gyfarfod fel grŵp i ddatrys unrhyw anghydfodau. Dim ond er mwyn datrys anghydfodau y bydd y Grŵp Cyswllt Gwrteithiau uwch swyddogion ffurfiol yn cyfarfod.

Mae pob llywodraeth wedi ymrwymo i hyrwyddo cydweithio ac osgoi anghytundebau, a hwylusir gan beiriannau rhynglywodraethol newydd, gan gynnwys amgylchiadau lle mae llywodraethau'n anghytuno ynghylch sut mae dehongli materion sy'n cael eu llywodraethu gan gytundebau, rheolau neu weithdrefnau rhynglywodraethol, sy'n cynnwys Cytundebau Fframwaith Cyffredin, neu gamau a gymerir mewn perthynas â'r materion hyn.

<u>Rheoli ymwahanu drwy'r fframwaith</u>

***Defnyddir termau gwahanol i ddisgrifio ymwahanu yn y fframwaith. Ar ba sail y bydd partïon i'r fframwaith yn penderfynu a yw unrhyw ymwahanu arfaethedig yn 'dderbyniol' neu'n 'niweidiol'?***

Pan fydd gan benderfyniad a wneir gan un parti y potensial i danseilio amcanion polisi parti arall, byddai'r ymwahanu'n cael ei ystyried yn niweidiol. Un enghraifft fyddai lle y gallai safonau cyfansoddiadol llai caeth yn un o'r gwledydd arwain at lygredd amgylcheddol mewn cyrff dŵr trawsffiniol. Gallai ymwahanu derbyniol ddigwydd, er enghraifft, lle na fyddai gan safonau cyfansoddiadol gwahanol unrhyw oblygiadau sylweddol.

***A allwch chi esbonio sut y caiff yr ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon ei reoli drwy'r fframwaith, o gofio y bydd yn ofynnol i Ogledd Iwerddon ddilyn strwythurau rheoleiddio newydd yr UE ar wrteithiau?***

Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu'r amgylchiadau penodol yng Ngogledd Iwerddon sy'n codi o ganlyniad i'r Protocol ac yn parhau i gwmpasu’r DU gyfan. O'r herwydd, bydd gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth bob amser yn parchu cymhwysedd pob Parti i'r Fframwaith ac yn arbennig y darpariaethau yn Erthygl 18 o'r Protocol ar gydsyniad democrataidd yng Ngogledd Iwerddon.

Pan fo un neu fwy o Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu Lywodraeth yr Alban yn cynnig newid rheolau mewn ffordd sydd â goblygiadau polisi neu reoleiddio i weddill y DU, neu lle mae rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r UE, mae'r Fframwaith yn darparu strwythurau llywodraethu a phrosesau sy'n seiliedig ar gonsensws ar gyfer ystyried a rheoli effaith y newidiadau hyn.

Wrth i reolau esblygu i ddiwallu anghenion rheoleiddio Llywodraethau Cymru, y DU a'r Alban sy'n dod i'r amlwg, bydd y Fframwaith yn sicrhau cyfranogiad llawn Gogledd Iwerddon mewn trafodaethau fel bod barn Gweinidog(ion) perthnasol Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cael eu hystyried wrth i Lywodraethau Cymru, y DU neu'r Alban wneud unrhyw benderfyniadau polisi neu reoleiddio.

Pan fydd rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r UE, bydd y Fframwaith yn sail i fecanwaith i sicrhau bod y pedair llywodraeth yn ystyried unrhyw newidiadau, a bydd yn eu galluogi i benderfynu ar unrhyw effeithiau a chamau gweithredu dilynol sy'n deillio o'r newidiadau hyn.

Gellir cychwyn y broses datrys anghydfodau a nodir yn y Fframwaith, os ystyrir bod angen gwneud hynny.

***A allwch esbonio pam nad yw'r fframwaith yn darparu amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau ac a oes perygl gallai hyn arwain at oedi i brosesau gwneud penderfyniadau?***

Mae'r Fframwaith yn sail i waith datblygu polisi parhaus ym maes gwrteithiau, a allai gynnwys newidiadau sy’n amrywio o fân ddiwygiadau i ganllawiau i ddulliau arloesol eang eu cwmpas. Bydd yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ymyriadau rheoleiddio yn dibynnu ar y pwnc ac ni fyddai'n briodol pennu'r rhain o fewn y Fframwaith. Byddai'r broses o bennu amserlenni ar gyfer meysydd gwaith penodol fel arfer yn cael ei rhannu ag UKFRC, neu'n cael ei phenderfynu a'i chytuno ganddo.

***Mae fframweithiau eraill yn nodi y dylai'r partïon ymgynghori â'i gilydd ynglŷn â newidiadau polisi arfaethedig hyd yn oed cyn iddynt ymgysylltu â rhanddeiliaid ynglŷn â newidiadau arfaethedig. A allech gadarnhau a yw hyn yn wir am y fframwaith hwn?***

Mae'r 'Ffyrdd o Weithio' a sefydlwyd gan y Fframwaith yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu rhwng y pedair llywodraeth, gan gynnwys gweithredu polisi 'dim syndod'. Fel y cyfryw, mae disgwyliad i ymgynghori ag UKFRC cyn ymgysylltu â rhanddeiliaid lle bo hynny'n bosibl.

***Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod yn disgwyl i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli fynd yn 'segur' wrth i strwythurau cysylltiadau rhynglywodraethol newydd gael eu rhoi ar waith. A allwch esbonio goblygiadau hyn i'r fframwaith hwn?***

Ym mis Ionawr 2022, cytunodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau a ddeilliodd o'r Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol (IGRR) fel sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol. Er nad yw'r pecyn o ddiwygiadau yn disodli'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol ar Ddatganoli yn llwyr, rhagwelir y bydd hon yn dod yn ddogfen segur i raddau helaeth. Yn y dyfodol, gobeithiwn y bydd yr Adolygiad a'r pecyn o ddiwygiadau yn cael eu codeiddio mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd ac, os bydd pob llywodraeth yn cytuno, yn cael eu rhoi mewn statud. Am y tro, bydd y gwaith o lunio polisïau yn cael ei ddatblygu yn unol â'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth presennol ar Ddatganoli. Ochr yn ochr â hyn, efallai y gwneir mân ddiwygiadau i'r Fframwaith wrth ei gwblhau neu ar ôl ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r diffiniadau a'r prosesau a amlinellir yng nghanlyniad yr IGRR.

<u>Datrys anghydfodau</u>

***Ni phennwyd terfynau amser ar gyfer datrys anghydfodau. A oes perygl y gallai hyn effeithio ar gyflawni polisi a chyfraith yng Nghymru?***

Bydd terfynau amser ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau yn amodol ar natur a chymhlethdod yr anghydfod. Gallai'r broses datrys anghydfodau wneud cyfraniad pwysig o ran herio a phrofi cynigion polisi a deddfwriaethol, a dylid ystyried hyn yn beth da o bosibl ar gyfer cyflawni canlyniadau yng Nghymru. Mae amaethyddiaeth Cymru yn dibynnu'n helaeth ar gadwyni cyflenwi trawsffiniol, felly pe na bai Llywodraeth Cymru yn trafod cynigion polisi yn ddigonol gyda gwledydd eraill y DU, gallai niweidio busnesau neu ddefnyddwyr Cymru ac yna efallai y bydd angen diwygio'r polisi, gan ymestyn y broses. Fodd bynnag, pan gaiff anghydfodau eu hatgyfeirio i'r Ysgrifenyddiaeth Cysylltiadau Rhynglywodraethol, mae terfynau amser wedi'u sefydlu ar gyfer ystyried yr atgyfeiriadau.

***O dan ba amgylchiadau y bydd partïon yn gallu 'cytuno i anghytuno'? Pa risgiau ydych chi wedi'u nodi o ran y dull hwn?***

Gall Gweinidogion weithredu yn unol â'r pwerau sydd ar gael. Nid yw'r Fframwaith yn atal Gweinidogion Cymru rhag gallu gwneud penderfyniadau mewn modd amserol.

<u>Deddf Marchnad Fewnol 2020 y DU</u>

***Sut mae'r fframwaith yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU?***

Bydd polisi yn y dyfodol yn ystyried fesul achos a fydd croestoriad â Deddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA) a beth fydd yr effaith. Mae'n dal yn rhy gynnar i ddeall yn llawn effaith UKIMA ar y Fframwaith.

***A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio eithriad ar gyfer y fframwaith hwn o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU?***

Nid oes unrhyw fwriad i ofyn am eithriad.

Effaith ar Gyfraith a Pholisi

Mae'r ddau gwestiwn canlynol wedi'u grwpio:

***A fydd y Bil Amaethyddiaeth yn cynnwys darpariaethau ar wrteithiau? Os bydd, a yw'r cynigion hyn wedi bod drwy broses y fframwaith? Os na fydd, a yw hyn oherwydd penderfyniadau a wnaed drwy'r fframwaith?***

***Os yw darpariaethau'n cael eu gwneud yn y Bil, sut y bydd y rhain yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn y fframwaith i ddefnyddio pwerau rheoleiddio ar wrteithiau yn unol ag egwyddorion y fframwaith?***

Mae Deddf Amaethyddiaeth 1970, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, yn darparu darpariaeth ddigonol ar gyfer gwneud newidiadau i reoliadau gwrteithiau, gan gynnwys gan Weinidogion Cymru.

Tryloywder ac atebolrwydd

***A wnaethoch chi ymgynghori â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r fframwaith?***

Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ym mis Chwefror 2021 ar grynodeb o'r Fframwaith. Ni chodwyd unrhyw bryderon. Bwriedir ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid yn dilyn yr etholiadau yng Ngogledd Iwerddon ar 5 Mai 2022.

***Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gynnwys fel amcan allweddol ar gyfer y fframwaith, ond nid oes unrhyw brosesau wedi'u cynnwys ynddo i randdeiliaid fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, yn y casglu tystiolaeth nac yn y gwaith adolygu a diwygio. A allwch egluro pam; a sut yr ymdrinnir â hyn?***

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu prosesau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, sy'n wahanol i brosesau gwledydd eraill. Ni fyddai'n briodol sefydlu proses wahanol at ddibenion y Fframwaith. Mae amcan y Fframwaith i ddatblygu cysylltiadau cryf a ffrwythlon â rhanddeiliaid yn ategu ac yn adeiladu ar ymrwymiad y pedair llywodraeth i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth.

***Mae'r fframwaith yn nodi bod diwygio ar raddfa eang o reoleiddio gwrteithiau ar y gweill a bydd y fframwaith yn cael ei adolygu yng ngoleuni hyn. Sut y byddwch yn cynnwys y Senedd mewn unrhyw broses adolygu a diwygio?***

Mae ymrwymiad i adrodd yn gyson ar Fframweithiau Cyffredin ar ôl eu cwblhau'n derfynol. Mae'r manylion yn cael eu trafod ar hyn o bryd ar lefel swyddogion. Mae pwyntiau adolygu wedi'u cynnwys ym mhob Fframwaith Cyffredin. Disgwylir y bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r Senedd gyfrannu at ddatblygu ac esblygu Fframweithiau Cyffredin. Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn monitro cynnydd y rhaglen Fframweithiau Cyffredin i gyflawni'r rôl a roddwyd iddo gan y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol i 'Oruchwylio'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin a'i threfniadau llywodraethu'.

Disgwylir y bydd adroddiadau ar Fframweithiau Cyffredin yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion portffolio ac y byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad, yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol.

Yn ogystal, mae ymrwymiad i hysbysu'r Senedd:

- am anghydfodau a godwyd drwy'r Fframweithiau Cyffredin

- pan gaiff anghydfodau eu huwchgyfeirio i Weinidogion
- a rhanddeiliaid am bwyntiau adolygu ar y gorwel ac ystyried argymhellion gan y Senedd a rhanddeiliaid fel rhan o'r un broses adolygu
- am unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y Fframweithiau Cyffredin; ac
- am unrhyw geisiadau am eithriad o dan UKIMA.

<u>Cwestiynau eraill</u>

***Mae'r fframwaith yn cynnwys nifer o wallau, a thermau heb esboniad ac anghyson. A allwch chi egluro pam na roddwyd sylw i'r rhain drwy brosesau cymeradwyo mewnol cyn cyhoeddi?***

Efallai fod cyfyngiadau amser wedi bod yn ffactor o ran gwallau yn y testun ac anghysondebau. Bydd unrhyw wallau o'r fath yn cael eu cywiro yn fersiwn derfynol y Fframwaith.

Hyderaf fod yr ymatebion yn rhoi digon o fanylion ac eglurder ynghylch cwmpas a gweithrediad y Fframwaith ac edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach gyda chi ar Fframweithiau Cyffredin yn y dyfodol.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies MS,
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.davies@senedd.wales

29 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth yn codi nifer o gwestiynau ynghylch y Fframwaith Cyffredin Cynhyrchu Organig dros dro. Rwyf wedi nodi fy ymatebion isod.

<u>Pwyntiau cyffredinol</u>

***Mae'r fframwaith yn cynnwys nifer o wallau a therminoleg a diagramau anghyson. A allwch egluro pam na gywirwyd y rhain drwy brosesau cymeradwyo mewnol cyn ei gyhoeddi?***

Wrth gyhoeddi'r fframwaith fel fersiwn drafft cydnabyddir bod rhai mân wallau ac anghysonderau drafftio yn dal i fod yn bresennol. Bydd unrhyw broblemau o'r fath yn cael eu cywiro'n llawn yn ystod y broses o gytuno ar fersiwn derfynol y fframwaith.

***Mae'r fframwaith yn nodi bod anghytundeb parhaus rhwng y llywodraethau ynglŷn â'r hyn sydd wedi'i gadw yn ôl a'r hyn sydd wedi'i ddatganoli. A allwch egluro beth yw'r anghytundeb hwn, ac egluro pam nad yw'n effeithio ar weithrediad y fframwaith?***

Mae'r anghytundeb ynghylch pwy sydd â'r pŵer i gydnabod systemau ardystio organig trydydd gwledydd fel rhai cyfwerth â safonau a bennwyd yn y DU. Mae Llywodraeth y DU yn dadlau bod y pŵer hwn wedi'i gadw, tra bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei fod wedi'i ddatganoli. Nid yw'n effeithio ar weithrediad y fframwaith, gan nad oes gan y rhan fwyaf o benderfyniadau polisi organig gysylltiad uniongyrchol â'r pwnc hwn, a phe bai'r mater hwn yn ganolog i drafodaethau, gellir defnyddio'r mecanweithiau datrys anghydfod yn y fframwaith.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cwmpas

***Egluro cwmpas y fframwaith ac a yw'n ymwneud â rheoli rheoliadau a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr UE yn unig, neu bolisi cynhyrchion organig yn ei gyfanrwydd?***

Mae'r fframwaith yn ymwneud â pholisi cynhyrchion organig yn ei gyfanrwydd.

***Os yw'r fframwaith yn ymwneud â pholisi cynhyrchion organig yn ei gyfanrwydd, esbonio sut mae hyn yn wahanol i'r ffordd y cafodd polisïau cynhyrchion organig eu llywodraethu cyn i'r DU ymadael â'r UE?***

Mae Fframwaith Cyffredin Cynhyrchion Organig yn ffurfioli trefniadau llywodraethu presennol. Roedd swyddogion o bob gwlad yn y DU eisoes wedi bod yn cynnal cyfarfodydd a thrafod datblygiadau polisi organig cyn i'r fframwaith gael ei greu, ond heb unrhyw fecanwaith llywodraethu ysgrifenedig.

***Cadarnhau a oes gan Lywodraeth Cymru yr un hyblygrwydd i ddatblygu'r cyfreithiau a pholisïau cynhyrchion organig yr oedd ganddi cyn diwedd y cyfnod pontio?***

Mae gan Lywodraeth Cymru fwy o hyblygrwydd yn dechnegol erbyn hyn i ddatblygu cyfreithiau a pholisïau cynhyrchion organig nad oedd ganddi cyn diwedd y cyfnod pontio. Y rheswm am hyn yw bod y safonau organig blaenorol wedi'u pennu ar lefel yr UE. Mae rhanddeiliaid cynhyrchion organig, fodd bynnag, wedi pwysleisio'r angen am gysondeb mewn safonau ymysg y pedair gwlad a rhwng Prydain Fawr a'r UE ac y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu dilyn wrth ystyried cyfreithiau a pholisïau cynhyrchion organig.

***Mae'r fframwaith yn nodi ei fod yn rhyngweithio â nifer o fframweithiau eraill. Sut caiff y rhyngweithio hwn ei reoli***

Mae fframweithiau wedi'u datblygu mewn ffordd i gynnal cysondeb mewn meysydd fel datrys anghydfod. O bryd i'w gilydd, bydd polisi organig yn effeithio ar feysydd polisi eraill, fel cymorth amaethyddol. Er enghraifft, gall cwestiynau am gynhyrchion organig gael eu codi yng Ngrŵp Monitro Marchnad Amaethyddol y DU. Yn yr achosion hyn, bydd swyddogion yn trafod unrhyw faterion gyda chydweithwyr sy'n gweithio yn y meysydd polisi hynny.

Gwneud penderfyniadau: Gweithgor y Pedair Gwlad

***A yw'r grŵp yn strwythur llywodraethu newydd ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd ar yr holl bolisïau cynhyrchion organig, neu ai dim ond mecanwaith ar gyfer rheoli ymwahanu ydyw?***

Mae'r Pedair Gwlad yn cytuno ar lawer o agweddau ar y polisi cynhyrchion organig, felly mae Gweithgor y Pedair Gwlad yn hwyluso trafodaethau ynghylch llunio polisïau ar y cyd neu'n gyfunol yn aml. Er enghraifft, gall Llywodraethau Cymru, yr Alban a'r DU gytuno ar fân ddiweddariadau ar y cyd ar agweddau technegol o ddeddfwriaeth i gynnal cysondeb ar gyfer cynhyrchwyr organig, neu ddeddfwriaeth sy'n cael ei hadlewyrchu ym mhob gwlad i gyflawni'r un dibenion. Mewn materion eraill lle mae'r rhaglenni llywodraethu'n wahanol ym mhob gwlad a bod gwahaniaethu o'r fath yn ymwneud â chynhyrchion organig, mae'r grŵp yn lle ar gyfer cyhoeddi ac esbonio penderfyniadau polisi o'r fath. Mae hyn yn golygu bod modd rheoli gwahaniaethau'n effeithiol.

***A fydd unrhyw asesiad o newid polisi arfaethedig yn y DU a ddatblygwyd gan un o'r partïon yn cael ei rannu â rhanddeiliaid?***

Os oes yna gynnig gan weinyddiaeth arall yn y DU a fyddai'n cael effaith sylweddol ar Gymru, gallai Llywodraeth Cymru gynnal asesiad ohono. Byddai'n rhaid penderfynu fesul achos ar rannu asesiad o'r fath â rhanddeiliaid.

***A fydd y broses benderfynu sy'n gofyn am hysbysu ac asesu cydweithredol yn arwain at oedi yn y broses o lunio polisïau?***

Ni ddylai'r broses benderfynu, yn cynnwys hysbysu ac asesu cydweithredol, oedi'r broses o lunio polisïau. Os nad yw'r Pedair Gwlad wedi trafod cynigion polisi'n ddigonol mae yna debygolrwydd uchel o ganlyniadau negyddol anfwriadol a mwy o oedi a tharfu o ganlyniad. Mae amaethyddiaeth Cymru'n dibynnu llawer ar gadwyni cyflenwi trawsffiniol, felly pe na bai Llywodraeth Cymru'n trafod cynigion polisi'n ddigonol â gwledydd eraill y DU, gallai niweidio busnesau neu ddefnyddwyr Cymru gan arwain at angen i ddiwygio polisi o bosibl, a fyddai'n ymestyn y broses.

***Os caiff cynigion eu newid o ganlyniad i'r broses benderfynu yn y fframwaith, a fyddwch chi'n hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid?***

Os yw cynigion yn cael eu newid o ganlyniad i'r broses benderfynu yn y fframwaith bydd y rhesymau am hyn yn cael eu hesbonio i'r Senedd a rhanddeiliaid.

<u>Gwneud penderfyniadau: Grŵp Arbenigol y DU ar Gynhyrchu Organig</u>

***A allwch egluro pam nad yw'r Grŵp Arbenigol wedi'i sefydlu eto a beth yw'r amserlen ar gyfer ei sefydlu?***

Mae gwaith brys arall ar gynhyrchion organig wedi golygu bod sefydlu'r Grŵp Arbenigol wedi dilyn amserlen arafach nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae cylch gorchwyl a phecynnau ymgeisio ar gyfer y grŵp wedi'u drafftio erbyn hyn, a disgwylir i'r ymgyrch recriwtio gael ei lansio o fewn y misoedd nesaf.

***A allwch egluro pa sylfaen dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio wrth wneud penderfyniadau yn absenoldeb y Grŵp hwn?***

Mae gan y Cyrff Rheoli Organig weithgor technegol sy'n darparu gwybodaeth, ar gais, am faterion fel argaeledd cynhyrchion organig a gweithrediad ymarferol rheoliadau cynhyrchion organig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n mynychu cyfarfodydd Grŵp Ardystwyr Organig y DU a Fforwm Organig Cymru'n rheolaidd, lle gallai materion eraill sy'n effeithio ar y sector organig gael eu codi a'u gweithredu. Gall swyddogion gasglu gwybodaeth am y sector organig wrth fynychu Grŵp Monitro Marchnad Amaethyddol y DU, Grŵp Cynghori'r Gadwyn Da Byw a Grŵp Rhanddeiliaid Cadwyn Gyflenwi Amaeth-bwyd Pontio'r UE. Grŵp i Gymru'n unig yw'r olaf.

<u>Gwneud penderfyniadau: Awdurdod Cymwys</u>

***Yn ei rôl fel Awdurdod Cymwys a fydd Defra'n gweithredu fel llywodraeth ar gyfer pob rhan o'r DU neu fel llywodraeth Lloegr?***

Yn ei rôl fel Awdurdod Cymwys mae Defra'n anelu at weithredu penderfyniadau gweinidogion y Llywodraethau Datganoledig yn hytrach na gweithredu fel llywodraeth ynddi'i hun o ran materion lle ceir cymhwysedd datganoledig. O'r herwydd, yn yr achos hwn mae Defra yn cyflawni ei waith ar ran pob rhan o'r DU yn hytrach nag ar ran Lloegr yn unig, fel y nodir yn y Fframwaith.

***Mae'r fframwaith yn nodi y bydd yr Awdurdod Cymwys yn chwarae rhan ym musnes y llywodraeth. A allwch egluro beth y mae hyn yn ei olygu ac ar ran pwy y byddent yn gweithredu yn y rôl hon?***

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ymdrin â busnes y llywodraeth ar gynhyrchion organig, fel gohebiaeth gan gynrychiolwyr etholedig ac aelodau'r cyhoedd, yn y ffordd arferol. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â'r Awdurdod Cymwys, DEFRA, pan fydd gohebiaeth o'r fath yn ymwneud â chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan yr Awdurdod Cymwys ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd atebion i ohebiaeth o'r fath yn dal i gael eu hanfon gan Lywodraeth Cymru.

***Mae'r fframwaith yn awgrymu y bydd yr Awdurdod Cymwys yn gyfrifol am benderfyniadau labelu a logos ond hefyd y bydd y Partïon yn cymryd rhan. A allwch egluro sut y bydd penderfyniadau ar logos a labelu yn cael eu gwneud?***

Mae'r Awdurdod Cymwys yn cydlynu'r trafodaethau yng Ngweithgor y Pedair Gwlad ar bolisi cynhyrchion organig mewn perthynas â materion logos a labelu, a byddai consensws yn ddisgwyliedig yn y trafodaethau hyn.

Ymwahanu

***Defnyddir termau gwahanol i ddisgrifio ymwahanu yn y fframwaith. A allwch egluro ar ba sail y bydd y Partïon yn penderfynu a yw ymwahanu yn niweidiol neu'n dderbyniol?***

Pan mae gan benderfyniad a wneir gan un parti y potensial i danseilio amcanion polisi parti arall byddai'r ymwahanu'n cael ei ystyried yn niweidiol. Enghraifft fyddai safonau cynhyrchu llai caeth yn un o'r gwledydd yn arwain at gynhyrchwyr gwlad arall yn methu â chael mynediad i'r farchnad ar yr un telerau.

Deddf Marchnad Fewnol y DU

***Sut mae'r fframwaith yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU?***

Bydd polisi'r dyfodol a drafodir yn y Fframwaith hwn a sut y bydd hyn yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cael ei ystyried fesul achos i benderfynu ar yr effeithiau. Mae'r Fframwaith yn darparu hyblygrwydd i ystyried ymwahanu.

***A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio eithriad ar gyfer y fframwaith hwn o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU?***

Nid oes unrhyw fwriad i ofyn am eithriad o'r Ddeddf yn ardal y fframwaith cyffredin.

Protocol Gogledd Iwerddon

***Egluro'r risgiau, os oes rhai, sy'n gysylltiedig ag ymwahanu â Gogledd Iwerddon ar reoleiddio cynhyrchion organig a sut y caiff hyn ei reoli drwy'r fframwaith?***

Mae yna ymwahanu eisoes rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ran rheoleiddio cynhyrchion organig, gan fod Gogledd Iwerddon wedi gorfod gweithredu Rheoliad 848/2018 yr UE, sy’n sefydlu egwyddorion, ac yn pennu rheolau ar gyfer, cynhyrchu organig. Mae Prydain Fawr wedi cadw Rheoliad 834/2007 yr UE, rhagflaenydd 848/2018. Mae yna risgiau eisoes, er enghraifft cynhyrchwyr yng Ngogledd Iwerddon ddim yn cael tegwch yn y farchnad i gystadlu â chynhyrchwyr yng ngweddill y DU. Mae hyn yn cael ei reoli drwy’r fframwaith mewn trafodaethau yng Ngweithgor y Pedair Gwlad ar sut y gall polisi cynhyrchion organig ym Mhrydain Fawr gael ei lunio mewn ffordd sy’n lleihau unrhyw effaith andwyol ar Ogledd Iwerddon.

<u>Tryloywder ac Atebolrwydd</u>

***Mae'r fframwaith yn nodi y bydd ymgynghori â rhanddeiliaid yn parhau ar gyfer newidiadau rheoleiddiol mawr. A allwch egluro beth fyddai'n cael ei ystyried yn newid mawr ac egluro pa fath o newidiadau na fyddai gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid yn cael ei wneud yn eu cylch?***

Newid rheoleiddiol mawr fyddai unrhyw beth lle byddai’n rhaid i gynhyrchwyr newid eu ffyrdd o reoli a gweithredu eu busnes yn sylweddol, neu lle mae cynhyrchion organig yn cael eu newid mewn ffordd a fyddai’n cael effaith debygol ar ddealltwriaeth neu hyder defnyddwyr. Byddai unrhyw newid yn cynnwys rhywfaint o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Pan mae newidiadau o’r fath yn fach, fel caniatáu rhanddirymiad ar gyfer defnyddio cynnyrch anorganig fel elfen fach o gynnyrch organig cyfansawdd pan nad oes dewisiadau organig eraill ar gael, byddai’r ymgysylltu’n debygol o fod yn gyfyngedig i drafodaethau â’r Cyrff Rheoli a’r Grŵp Arbenigol ar Gynhyrchu Organig. Mae hyn yn cyferbynnu ag ymgynghoriad rhanddeiliaid llawn, a fyddai’n cael ei gynnal ar gyfer newidiadau rheoleiddiol mawr.

***Mae'r fframwaith yn nodi y bydd y llywodraethau'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i seneddau yn eu priod wledydd lle bo'n briodol'. A allwch egluro beth mae'r term hwn yn ei olygu'n ymarferol?***

Bydd seneddau pob gwlad yn cael gwybod am unrhyw benderfyniadau gan Weinidogion ar unrhyw offerynnau statudol sy’n cynnwys darpariaethau datganoledig a gyflwynir yn Senedd y DU. Bydd Datganiadau Ysgrifenedig neu Lafar yn cael eu gwneud pe bai Llywodraeth Cymru’n gwneud penderfyniadau polisi mawr sy’n effeithio ar y sector.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

29 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth ynghylch y Fframwaith Cyffredin ar Gymorth Amaethyddol. Mae fy ymatebion i'ch cwestiynau penodol wedi'u nodi isod.

Cwmpas y Fframwaith

***A wnewch chi gadarnhau beth yw cwmpas y fframwaith ac a fyddai'n gymwys i gynlluniau rheoli tir cynaliadwy?***

Mae'r Fframwaith yn gytundeb anneddfwriaethol sy'n cwmpasu trefniadau gweithio ar gyfer cymorth amaethyddol yn y dyfodol, nawr bod y DU wedi ymadael â'r UE a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Dyma elfennau penodol y cymorth amaethyddol a gwmpesir yn y Fframwaith:

- Gwariant amaethyddol a rheoleiddio a gorfodi cysylltiedig
- Safonau marchnata
- Mesurau argyfwng, Ymyrraeth Gyhoeddus (PI) a Chymorth Storio Preifat (PSA)
- Daliadau trawsffiniol
- Casglu a rhannu data.

Mae amaethyddiaeth yn faes polisi datganoledig, felly gall pob llywodraeth ddylunio a gweithredu polisïau amaethyddol ar gyfer eu tiriogaethau eu hunain. Byddai cynlluniau rheoli tir cynaliadwy yn dod o fewn cwmpas y Fframwaith.

Gwneud penderfyniadau yn y fframwaith

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Mae gan y Grŵp Cydgysylltu Polisi Amaethyddiaeth (PCG) nifer fawr o gyfrifoldebau mewn perthynas â'r fframwaith. A allwch chi egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau i'r grŵp a sut y bydd yn ei gefnogi, a pha mor aml y bydd y grŵp yn cyfarfod?***

Mae'r Grŵp Cydweithio ar Bolisi (PCG) yn cael adnoddau a chefnogaeth gan swyddogion o fewn fy mhortffolio. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol gyda phob Llywodraeth yn cymryd tro i gadeirio, ac ysgrifenyddiaeth Defra barhaol.

***A fydd y Senedd yn cael ei hysbysu pan fydd grwpiau rheoli argyfwng yn cael eu sefydlu ac yn cael gwybod beth yw eu cylch gorchwyl?***

Bydd is-grwpiau ar gyfer argyfyngau penodol yn cael eu sefydlu yn ôl yr angen, o fewn y strwythurau llywodraethu presennol o dan y fframwaith. Byddwn yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am hyn ar yr adeg briodol.

***A fydd unrhyw ddata a gwybodaeth y mae Grŵp Monitro'r Farchnad yn eu casglu yn cael eu cyhoeddi neu eu rhannu â'r diwydiant?***

Cyhoeddir nodyn cyfarfod ar y dudalen we ganlynol bob mis, ynghyd ag adroddiad o'r data a ystyriwyd - UK Agriculture Market Monitoring Group (UKAMMG) - GOV.UK (www.gov.uk).

***A allwch chi egluro sut y bydd y Grŵp Monitro'r Farchnad yn penderfynu nad yw Marchnad o Brif Bwysigrwydd yn cael ei chyfrif felly bellach, neu ar ba sail y gallai benderfynu y dylai meysydd newydd ddod yn Farchnadoedd o Brif Bwysigrwydd, a sut y byddwch yn hysbysu'r diwydiant am unrhyw benderfyniadau o'r fath?***

Mae'r holl safonau marchnata o fewn cwmpas yr MMG a'r PCG, ond byddai unrhyw ddiwygiadau i'r rhestr o farchnadoedd o brif bwysigrwydd yn cael eu gwneud drwy gonsensws rhwng y Partïon i'r Fframwaith. Byddai hyn yn cael ei gyfleu i randdeiliaid drwy'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir gyda swyddogion.

***A allwch chi egluro pwy yw Grwp Polisi Marchnad Amaethyddiaeth y DU (UKMAPG) a sut mae'n berthnasol i'r fframwaith?***

UKAMPG oedd yr enw blaenorol ar y Grŵp Cydweithio ar Bolisi (PCG). Bydd dogfennau terfynol y Fframwaith yn cael eu diweddaru i gywiro hyn.

Rheoli ymwahanu drwy'r Fframwaith

***Defnyddir termau gwahanol i ddisgrifio ymwahanu yn y fframwaith. A allwch chi egluro ar ba sail y bydd partïon i'r fframwaith yn penderfynu a yw ymwahanu yn 'niweidiol' neu'n 'ddieisiau', neu'n 'angenrheidiol' neu'n 'dderbyniol'?***

Rôl y PCG yw galluogi rhannu gwybodaeth ac arfer da yn rhagweithiol rhwng y Partïon. Bydd ei aelodau'n ystyried ar y cyd a fyddai polisi newydd neu newid polisi sy'n arwain at ymwahanu yn cael effaith niweidiol neu ddigroeso ar barti arall. Gallai enghraifft gynnwys un wlad yn cyflwyno safonau marchnata is. Asesir effaith ymwahanu yn seiliedig ar sail dystiolaeth briodol – gall hyn gynnwys tystiolaeth bellach gan ddadansoddwyr gan gynnwys yr MMG, tystiolaeth gan dimau cyfreithiol, neu yn allanol gan gyrff allanol neu ymgysylltu â'r diwydiant.

***A allwch chi egluro sut y bydd ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn cael ei reoli drwy'r fframwaith, o ystyried y bydd yn ofynnol i Ogledd Iwerddon ddilyn safonau marchnata'r UE? Pa risgiau, os o gwbl, sy'n gysylltiedig ag ymwahanu oddi wrth Ogledd Iwerddon o ran safonau marchnata?***

Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu'r amgylchiadau penodol yng Ngogledd Iwerddon sy'n deillio o Brotocol Gogledd Iwerddon ac mae'n parhau i gwmpasu’r DU gyfan. Bydd gwneud penderfyniadau a rhannu gwybodaeth yn parchu cymhwysedd pob Parti.

Pan fo un neu fwy o Lywodraethau Cymru, y DU neu’r Alban yn cynnig newid rheolau mewn ffordd sydd â goblygiadau polisi neu reoleiddio i weddill y DU, neu lle mae rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r UE, bwriedir i'r Fframwaith ddarparu strwythurau llywodraethu a phrosesau sy'n seiliedig ar gonsensws ar gyfer ystyried a rheoli effaith y newidiadau hyn.

Wrth i reolau esblygu i ddiwallu anghenion rheoleiddio Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban sy'n dod i'r amlwg, bydd y Fframwaith yn sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn cymryd rhan lawn mewn trafodaethau fel bod barn Gweinidog(ion) perthnasol Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cael ei hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniadau polisi neu reoleiddio.

Pan fydd rheolau yng Ngogledd Iwerddon yn newid yn unol â'r UE, bydd y Fframwaith yn sail i fecanwaith i sicrhau bod y pedair llywodraeth yn ystyried unrhyw newidiadau ac yn eu galluogi i benderfynu ar unrhyw effeithiau a chamau gweithredu dilynol sy'n deillio o'r newidiadau hyn.

***A allwch chi egluro sut mae'r fframwaith yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU?***

Bydd polisi yn y dyfodol a drafodir yn y Fframwaith hwn a sut y bydd yn rhyngweithio â Deddf Marchnad Fewnol y DU yn cael ei ystyried fesul achos i bennu'r effeithiau. Mae'r Fframwaith yn rhoi'r hyblygrwydd i ystyried ymwahanu.

***A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio eithriad ar gyfer y fframwaith hwn o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU?***

Nid oes unrhyw fwriad i ofyn am eithriad.

<u>Datrys anghydfodau</u>

***A fyddai modd i chi egluro a allai'r prosesau datrys anghydfodau arwain at oedi wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau?***

Ystyrir bod y dulliau datrys anghydfodau yn gadarn ac yn gymesur. Mae'r rhain wedi'u datblygu a'u cytuno ar y cyd gan y pedair gwlad. Mae'r mecanwaith datrys anghydfodau yn caniatáu i anghytundebau gael eu huwchgyfeirio fel anghydfodau i Weinidogion, lle y bo'n briodol ac yn angenrheidiol, i'w datrys yn amserol.

Mae prosesau'n bodoli i reoli anghydfodau ar lefel swyddogion a Gweinidogion. Os bydd anghydfod yn codi, mae'r Fframwaith yn cynnwys egwyddorion a phrosesau ar gyfer osgoi anghydfod. Disgwylir mai dim ond nifer fach iawn o achosion fydd angen dulliau datrys anghydfodau.

***A allwch chi egluro'r amserlenni ar gyfer datrys anghydfodau?***

Cydnabyddir y gall anghydfodau amrywio o ran natur, cymhlethdod a chyd-destun gweithredol, felly ni fyddai terfyn amser penodol yn ffafriol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob gweinyddiaeth.

Yr effaith ymarferol ar gyfraith a pholisi

***A yw Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru wedi mynd drwy unrhyw un o'r prosesau fframwaith cyffredin, neu a fydd hyn yn digwydd? Os felly, beth oedd ymateb y Llywodraethau eraill, ac a wnaed unrhyw newidiadau o ganlyniad?***

Mae swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w cymheiriaid yn y llywodraethau eraill am gynnydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) drwy'r Grŵp Cydweithio ar Bolisi. Ni chodwyd unrhyw bryderon ac nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud ar sail trafodaeth gyda'r llywodraethau eraill.

Tryloywder ac atebolrwydd

***Sut y caiff rhanddeiliaid eu cynnwys yn y strwythurau gwneud penderfyniadau ac adolygu yn y fframwaith?***

Bydd rhanddeiliaid yn dal i ymgynghori ar ddatblygiadau mewn polisi yn y ffordd arferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi gwybod i randdeiliaid am y pwyntiau adolygu sydd ar y gorwel ar gyfer Fframweithiau Cyffredin.

Mae pwyntiau adolygu wedi'u trefnu ym mhob Fframwaith sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i randdeiliaid gyfrannu at ddatblygu ac esblygu Fframweithiau. Ar ôl ei gwblhau, bydd y Fframwaith Cymorth Amaethyddol yn cael ei adolygu bob 12 mis. Gall unrhyw Barti i'r Fframwaith ddefnyddio trydydd partïon i roi cyngor ar unrhyw adeg yn y broses. Gall hyn gynnwys ceisio barn rhanddeiliaid perthnasol fel y bo'n briodol.

***A allwch chi egluro beth yw Cynhadledd Ffermio y DU a sut y mae'n berthnasol i'r fframwaith?***

Ers hynny, mae cynhadledd ffermio y DU wedi ei hail-enwi'n Bartneriaeth Amaethyddiaeth y DU (menter Defra). Yn dilyn ymholiadau tebyg yn ystod gwaith craffu Tŷ'r Arglwyddi, cytunwyd y bydd y cyfeiriad at Gynhadledd Ffermio y DU yn cael ei ddileu o ddogfennau'r Fframwaith.

Monitro, adolygu a diwygio

***A allwch chi egluro'r amserlenni ar gyfer adolygu'r fframwaith? Pryd fydd hyn yn digwydd yn flynyddol, a phryd y bydd hyn yn trosglwyddo i fod pob tair blynedd?***

Cynhelir adolygiadau'n flynyddol, hyd nes y bydd yr adolygwyr yn cytuno bod cyfnod o dair blynedd rhwng adolygiadau yn foddhaol. Bydd y fframwaith yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu hyn.

***A allwch chi nodi pa brosesau fydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran gwneud penderfyniadau, a diwygio ac adolygu'r fframwaith?***

Mae ymrwymiad i adrodd yn gyson ar Fframweithiau ar ôl eu cwblhau'n derfynol. Mae'r manylion yn cael eu trafod ar hyn o bryd ar lefel swyddogion. Mae pwyntiau adolygu wedi'u trefnu ym mhob Fframwaith. Disgwylir y bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r Senedd gyfrannu at ddatblygu ac esblygu Fframweithiau. Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn monitro cynnydd y rhaglen Fframweithiau i gyflawni'r rôl a roddir iddo gan y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol i 'Oruchwylio'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin a'i threfniadau llywodraethu'.

Disgwylir y bydd adroddiadau ar Fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion portffolio ac y byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad, yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol.

Yn ogystal, mae ymrwymiad i hysbysu'r Senedd:

- am anghydfodau a godwyd drwy'r Fframweithiau
- am bwyntiau adolygu sydd ar y gorwel ac ystyried argymhellion gan y Senedd a rhanddeiliaid fel rhan o'r un broses adolygu
- am unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y Fframweithiau
- am unrhyw geisiadau am eithriad o dan UKIMA.

<u>Cwestiynau eraill</u>

***Mae'r fframwaith yn cynnwys nifer o wallau, termau heb esboniad a thermau anghyson. A allwch chi egluro pam na aethpwyd i'r afael â'r rhain drwy brosesau cymeradwyo mewnol cyn cyhoeddi?***

Efallai fod cyfyngiadau amser wedi bod yn ffactor o ran gwallau yn y testun ac anghysondebau. Bydd unrhyw wallau o'r fath yn cael eu cywiro yn fersiwn derfynol y Fframwaith.

***A allwch chi egluro pryd y bydd y Concordat sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau ar y cytundeb ar amaethyddiaeth yn cael ei gyhoeddi?***

Defra sy'n arwain y broses gyhoeddi ar gyfer y Concordat sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Weinidogion portffolio ym mhob un o'r pedair llywodraeth. Bydd yr amserlen ar gyfer cyhoeddi yn cael ei phennu unwaith y bydd pob un o'r pedair llywodraeth wedi cymeradwyo'r Concordat.

***A allwch chi egluro sut, os o gwbl, y mae'r fframwaith yn rhyngweithio â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, a pham ei bod yn ymddangos nad yw rhannau o'r fframwaith wedi'u diweddaru ers cadarnhau'r Cytundeb?***

Caiff cymorthdaliadau amaethyddol eu heithrio o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Felly, ychydig o ryngweithio sydd rhwng y Cytundeb a'r Fframwaith.

***A allwch chi egluro'r berthynas rhwng y fframwaith a Chorff Cydgysylltu'r DU a grwp yr Asiantaeth Taliadau Gwledig?***

Mae Corff Cydgysylltu'r DU (UKCB), a sefydlwyd ar gyfer cynlluniau Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, wedi'i nodi fel darparwr swyddogaethau ledled y DU/Prydain, lle mae cydweithio, cydgysylltu neu gydweithredu o fudd i bawb.

Mae'r Partïon i'r Fframwaith yn cytuno i barhau i gyflwyno i Defra, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) a'r UKCB ddata a arferai gael ei gasglu a'i anfon i'r UE. Mae'r Partïon hefyd yn gyfrifol am nodi hysbysiadau nad ydynt yn cael eu hanfon ar y cyd drwy un corff DU gyfan.

Bydd cysylltiadau'n cael eu cynnal rhwng timau polisi a gweithredol drwy ddiweddariadau anffurfiol ond rheolaidd y naill ffordd a'r llall rhwng Grŵp Cydweithio ar Bolisi'r Fframwaith Cymorth Amaethyddol a'r grŵp Asiantaethau Taliadau o dan adain UKCB.

Mae UKCB yn cyflawni rôl ddeddfwriaethol o dan gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ofynnol ar gyfer taliadau parhaus a wneir o dan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD). Bydd y rôl ddeddfwriaethol hon yn ofynnol tan flwyddyn ariannol 2024/2025 ar y cynharaf.

Hyderaf fod yr ymatebion yn rhoi digon o fanylion ac eglurder ynghylch cwmpas a gweithrediad y Fframwaith ac edrychaf ymlaen at drafodaethau pellach gyda chi ar Fframweithiau Cyffredin yn y dyfodol.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.davies@senedd.wales

29 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Mawrth yn cynnwys amryw o ymholiadau ynghylch y Fframwaith Cyffredin dros dro ar Iechyd a Lles Anifeiliaid. Nodir fy ymatebion isod.

Cwmpas y Fframwaith

***Mae'r fframwaith yn nodi y bydd holl gyfraith a pholisi iechyd a lles anifeiliaid o fewn cwmpas. Pam mae'n briodol i'r holl newidiadau arfaethedig i gyfraith a pholisi iechyd a lles anifeiliaid fod o fewn cwmpas y fframwaith hwn, hyd yn oed pan fyddai Llywodraeth Cymru wedi cael hyblygrwydd rheoleiddiol yng nghyd-destun yr UE?***

Mae'r rhan fwyaf o reoliadau domestig ar iechyd a lles anifeiliaid yn cynnwys cyfraith yr UE a ddargedwir. Gan fod yr holl reoliadau iechyd a lles anifeiliaid wedi'u cydgysylltu o ran natur, ni fyddai'n gwneud synnwyr ymarferol cael strwythurau ar wahân o dan y Fframwaith ar gyfer trafodaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith iechyd a lles anifeiliaid nas dargedwir.

Roedd gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd rheoleiddiol tra'r oeddem yn yr UE a bydd hynny'n parhau o dan drefniadau'r Fframwaith.

***A allwch nodi pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar y ffordd y gall y Senedd a Llywodraeth Cymru arfer eu cymhwysedd?***

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi cyn ymateb.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid yw'r Fframwaith yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wneud polisi neu ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer Cymru. Bydd ymwahanu mewn polisi neu ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig yn parhau i fod yn bosibl, â'r Fframwaith yn darparu llwybr mwy ffurfiol ar gyfer trafodaethau cynnar ynghylch naill ai llunio polisi ar y cyd neu ar wahân.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgynghori â'r Senedd a'i hysbysu yn y ffordd arferol pan fydd yn datblygu polisi ac yn gwneud newidiadau rheoleiddiol.

***A allwch nodi sut y mae'r broses ar gyfer gwneud newidiadau i gyfraith a pholisi Cymru ar iechyd a lles anifeiliaid yn wahanol o dan y fframwaith o'i chymharu ag yn ystod aelodaeth o'r UE?***

Mae'n bwysig pwysleisio bod cydweithio a chydweithredu sylweddol ym maes iechyd a lles anifeiliaid rhwng y pedair llywodraeth yn bodoli cyn ymadael â'r UE, o ystyried cymhlethdod a chyd-ddibyniaethau'r maes a gwmpesir gan y Fframwaith hwn. Felly, nid yw'r prosesau ar gyfer newidiadau polisi a deddfwriaethol yn wahanol iawn.

Y prif wahaniaeth yw bod Gweinidogion ym mhob llywodraeth wedi caffael swyddogaethau newydd a oedd gynt yn nwylo'r Comisiwn Ewropeaidd, felly creodd y Fframwaith y mecanwaith i lywodraethu'r gwaith o ddatblygu polisi a gwneud penderfyniadau yn y meysydd newydd hynny.

Er enghraifft, i gefnogi'r swyddogaethau newydd hynny sy'n ymwneud â sicrhau safonau nwyddau sy'n cael eu mewnforio, mae creu Swyddfa'r DU ar gyfer Sicrwydd Masnach Iechydol a Ffytoiechydol (UKOSPSTA) yn darparu rôl dechnegol ar ran pob llywodraeth, gan ddefnyddio adnoddau cyffredin a gwella'r broses o wneud penderfyniadau drwy sicrhau bod yr un data a chyngor technegol a gwyddonol ar gael yn ddiofyn i benderfynwyr polisi.

<u>Proses gwneud penderfyniadau yn y Fframwaith</u>

***Esbonio sut rydych wedi bod yn gweithio drwy'r fframwaith cyffredin i ystyried newidiadau i gyfraith iechyd a lles anifeiliaid a chytuno arnynt, a sut y mae hyn yn wahanol i'r broses datblygu polisi pan oedd Cymru yn yr UE?***

Mae'n bwysig pwysleisio bod cydweithio a chydweithredu sylweddol eisoes yn bodoli rhwng y pedair llywodraeth cyn ymadael â'r UE. Mae'r Fframwaith wedi cryfhau ein perthynas waith â llywodraethau eraill y DU.

Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi defnyddio mecanweithiau'r Fframwaith (fel y'u nodir yn y Fframwaith ei hun) i wella ymgysylltiad â Llywodraeth y DU a chodi ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig i bolisi ffiniau'r DU.

- Bu amryw o newidiadau i Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (AHR) yr UE, gydag effaith ar allu'r DU i allforio i'r UE. Creodd y Fframwaith fwrdd rhaglen trawslywodraethol i gynnal prosiectau llwyddiannus amrywiol i fynd i'r afael â'r newidiadau hynny yng nghyfraith yr UE a diwygio ein rheoliadau a'n polisïau ein hunain er mwyn parhau i allu masnachu gyda'r UE.

***Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau hysbysu ei gilydd am unrhyw faterion (gan gynnwys llunio polisïau, cynnig ar gyfer deddfwriaeth, cyhoeddiadau cyhoeddus ac ymatebion brys) cyn gynted ag y cânt eu hystyried, fel y gellir cynnal trafodaethau ar y cyd cyn i'r penderfyniadau terfynol gael eu gwneud. Esbonio pa effaith (os o gwbl) rydych yn rhagweld y bydd hyn yn ei chael ar rôl y Senedd a rhanddeiliaid wrth ddatblygu cyfraith a pholisi Cymru?***

Nid yw'r Fframwaith yn atal nac yn llesteirio cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru i weithredu polisïau newydd na chymhwysedd y Senedd i basio deddfwriaeth. Ar adegau, o ystyried natur clefydau anifeiliaid ac argyfyngau eraill, mae angen i Lywodraeth Cymru weithredu'n gyflym iawn, ac mae darpariaeth ar gyfer hyn yn ein deddfwriaeth.

Nid yw'r Fframwaith yn effeithio ar rôl y Senedd a rhanddeiliaid gan y byddwn yn ymgynghori â nhw ac yn eu hysbysu yn y modd arferol.

<u>Rheoli ymwahanu</u>

***Os yw llywodraeth yn cynnig ymwahanu, mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad o'r goblygiadau i farchnad fewnol y DU, negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol, a bioddiogelwch. Sut bydd hynny'n gweithio yn ymarferol?***

Rhaid i bartïon weld yn gyntaf a allant gytuno ar ddull cyffredin sy'n darparu ar gyfer canlyniadau dymunol Partïon unigol er mwyn lleihau ymwahanu.

Mae'r Partïon wedi cytuno i beidio ag ymwahanu oddi wrth safonau sylfaenol mewn modd sy'n niweidiol i fioddiogelwch, lles neu Farchnad Fewnol y DU ar draws meysydd polisi perthnasol. Bydd effaith unrhyw newid ac a yw'n niweidiol yn cael ei phennu gan y Prif Swyddogion Milfeddygol a'r Uwch Swyddogion Polisi. Lle mae potensial ar gyfer ymwahanu, bydd hyn yn cael ei drafod yn dryloyw gyda'r holl bartïon sydd wedi'u cynnwys yn y Fframwaith, bydd tystiolaeth yn cael ei rhannu ac, os yw'n briodol, gellir ceisio consensws ar gyfeiriad polisi.

***Esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid ac asesu risgiau a manteision cadw i fyny â chyfraith yr UE?***

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gadw golwg ar unrhyw newidiadau i gyfraith yr UE drwy ein hymchwiliadau ein hunain a thrwy gydweithio â'r Partïon eraill. Crëwyd mecanweithiau i wasanaethu pob llywodraeth (a rhannu adnoddau cyffredin) a chadw golwg ar newidiadau ar lefel yr UE. Mae'r newidiadau i Reoliadau Iechyd Anifeiliaid (AHR) yr UE a grybwyllir uchod yn enghraifft o hyn.

***Esbonio sut y caiff effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ei rheoli yn y fframwaith?***

Bydd goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA) yn cael eu hystyried wrth ddatblygu deddfwriaeth mewn sawl maes ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro ei heffaith yng Nghymru ac ar draws y DU. Mae timau polisi Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu deddfwriaeth Cymru yn unol â'n cymhwysedd datganoledig, gan ddilyn ein gweithdrefnau arferol.

***Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau hysbysu ei gilydd am unrhyw faterion (gan gynnwys llunio polisïau, cynnig ar gyfer deddfwriaeth, cyhoeddiadau cyhoeddus ac ymatebion brys) cyn gynted ag y cânt eu hystyried, fel y gellir cynnal trafodaethau ar y cyd cyn i'r penderfyniadau terfynol gael eu gwneud. Sut y bydd hyn yn effeithio ar rôl rhanddeiliaid wrth ddatblygu cyfraith a pholisi Cymru?***

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y ffordd arferol wrth ddatblygu cyfraith a pholisi Cymru.

***Mae'r fframwaith yn darparu i gyrff hyd braich perthnasol gymryd rhan mewn grwpiau penderfynu. Mae rhai o'r cyrff hyn (megis APHA a'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod) yn gweithredu yng Nghymru, ond nid ydynt yn atebol yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd. Sut y byddwch yn sicrhau bod cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd cyrff gwahanol yn glir?***

Mae cyrff hyd braich yn cymryd rhan mewn grwpiau penderfynu mewn capasiti cynghori, ac yn ysbryd tryloywder. Er enghraifft, mae gan yr Awdurdod Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) lawer o arbenigwyr ac unedau milfeddygol, gwyddonol a maes sy'n rhoi cyngor arbenigol i lunwyr polisi. Er ei bod yn wir fod APHA yn un o asiantaethau gweithredol Defra, mae gan Lywodraeth Cymru Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) gydag APHA i Gymru, felly mae APHA yng Nghymru yn atebol i Lywodraeth Cymru.

Mae Swyddfa'r DU ar gyfer Sicrwydd Masnach Iechydol a Ffytoiechydol (UKOSPSTA) yn enghraifft allweddol o fecanwaith llywodraethu Fframwaith newydd i sicrhau ymgysylltiad cyrff perthnasol fel yr Asiantaeth Safonau Bwyd a Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (Cefas). Mae'n darparu gwasanaeth technegol i bob llywodraeth ac yn cael ei lletya gan Defra gyda bwrdd cyd-lywodraethu ac amryw o haenau llywodraethu eraill. Mae'n chwarae rôl allweddol o fewn trefniadau llywodraethu'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid a'i phrif dasg yw gweinyddu ceisiadau newydd am fynediad i'r farchnad i'r DU ar ran y pedair llywodraeth.

Yn ogystal, mae gwahaniad clir rhwng strwythurau'r Fframwaith sy'n rhai cynghori a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (megis y Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid [ADPG] a'r Grŵp Polisi Lles Anifeiliaid [AWPG]).

***Os yw llywodraeth yn cynnig ymwahanu, mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiad o'r goblygiadau i farchnad fewnol y DU, negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol, a bioddiogelwch. Pam y mae'r meini prawf hyn wedi'u dewis, a beth fyddai'n digwydd pe bai unrhyw wrthdaro canfyddedig rhyngddynt?***

Nid yw'r meini prawf hyn yn hollgynhwysol; dyma'r ystyriaethau craidd sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau polisi yn y maes hwn ac yn adlewyrchu egwyddorion y Fframwaith Cyffredin a sefydlwyd gan y JMC ym mis Hydref 2017 fel y nodir yn nhestun y Fframwaith hwn.

Bwriedir cytuno ar y materion hyn drwy drafodaeth a lefelau priodol o uwchgyfeirio, fel y nodir yn nogfennau'r Fframwaith. Asesir drwy'r strwythurau llywodraethu e.e. y Grŵp Polisi Clefydau Anifeiliaid (ADPG) fesul achos a byddai unrhyw anghydfodau'n dilyn y mecanweithiau Datrys Anghydfodau.

Dylid nodi hefyd y bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a sefydlwyd o dan yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, yn monitro'r rhaglen Fframweithiau, gan gynnwys unrhyw rwystrau i gynnydd.

***Pwy fyddai'n cynnal yr asesiad?***

Caiff unrhyw asesiadau y bernir eu bod yn angenrheidiol eu gwneud neu eu comisiynu ar y cyd drwy'r strwythurau gwneud penderfyniadau e.e. ADPG.

***A fyddai rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys wrth lunio'r asesiad?***

Byddai unrhyw randdeiliaid perthnasol yn cael eu nodi a'u gwahodd i gymryd rhan yn yr asesiad.

***A fyddai canlyniadau'r asesiad yn cael eu cyhoeddi?***
Ni fyddem yn gwneud asesiadau'n gyhoeddus yn ddiofyn (oni bai bod hynny'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth).

<u>Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020</u>

***Pa effaith allai Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ei chael ar gyfraith Cymru ar iechyd a lles anifeiliaid?***

Bydd polisi yn y dyfodol yn cael ei ystyried fesul achos o ran a oes croestoriad â Deddf Marchnad Fewnol y DU (UKIMA) a'r effaith bosibl.

***A ydych yn bwriadu gofyn am eithriadau o'r Ddeddf ar iechyd a lles anifeiliaid?***

Nid oes unrhyw fwriad i ofyn am eithriad.

<u>Yr UE a Gogledd Iwerddon</u>

***A wnewch roi trosolwg o sut y mae cyfraith yr UE a ddargedwir ar iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru wedi newid ers diwedd y cyfnod pontio?***

Ers diwedd y cyfnod pontio, mae amryw o newidiadau wedi'u gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir. Maent yn cynnwys:

- Diwygiad i'r dull o brofi brechiadau'r gynddaredd a ddefnyddir. Mae hyn yn benodol i ymdrin â'r argyfwng yn Wcráin, a'r angen i brofi'n gyflym anifeiliaid anwes sy'n dod gyda ffoaduriaid.

- Diwygio darnau o ddeddfwriaeth i sicrhau dull effeithiol o ymdrin ag achosion o Ffliw Adar (AI) yn awr ac yn y dyfodol, sef:
    - Daeth **Gorchymyn Ffliw Adar (H5N1 mewn Adar Gwyllt) (Cymru) (Diwygio) 2021** i rym ar 19 Tachwedd 2022. Yn bennaf, mae'r gorchymyn hwn yn disodli'r ddyletswydd i Weinidogion Cymru ddatgan parthau clefydau adar gwyllt os bydd achosion o is-deip H5N1 mewn adar gwyllt, gyda phwerau i wneud hynny ar sail risg.

    - Daeth **Gorchymyn Ffliw Adar (Cymru) (Diwygio a Dirymu) 2022** i rym ar 10 Mawrth 2022. Mae'n diwygio Gorchymyn Ffliw Adar a Ffliw Sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006 sy'n berthnasol i achosion o Ffliw Adar (AI) yng Nghymru. Mae'n cynnwys:

- Diwygiadau sy'n cryfhau'r mesurau rheoli clefydau a ddarperir mewn deddfwriaeth ddomestig ers i'r DU ymadael â'r UE, gan egluro prosesau diagnostig a gwyliadwriaeth lle mae'r clefyd yn cael ei amau neu ei gadarnhau.

- Diwygiadau sy'n cynyddu hyblygrwydd mewn perthynas â mathau penodol o symudiadau adar ac wyau o fewn parthau rheoli clefydau mewn ymateb i brofiad y diwydiant yn ystod yr achosion blaenorol a'r achosion presennol o ffliw adar.

- Dirymu deddfwriaeth benodol ynghylch AI o'r is-deip H5N1 er mwyn symleiddio deddfwriaeth AI ar gyfer dofednod er mwyn galluogi dull sy'n seiliedig ar risg o ymdrin ag achosion o unrhyw straen.

Mae nifer o ddiwygiadau pellach yn cael eu hystyried mewn perthynas â pholisi a deddfwriaeth Mewnforion a Ffiniau mewn perthynas â nwyddau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS).

***A wnewch roi trosolwg o'r prif wahaniaethau rhwng cyfraith bresennol yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid a'r gyfraith yng Nghymru?***

Gweler yr ateb i'r cwestiwn blaenorol.

***Sut y byddwch yn parhau i fonitro newidiadau i gyfraith yr UE ar iechyd a lles anifeiliaid ac asesu goblygiadau ymwahanu â'r UE a Gogledd Iwerddon?***

Mae prosesau sganio'r gorwel ac olrhain deddfwriaeth ar waith i fonitro newidiadau sydd ar y gweill i gyfraith yr UE y bydd angen eu gweithredu yng Ngogledd Iwerddon a'u hasesu i ganfod eu heffaith ar Brydain Fawr. Mae'r Fframwaith yn sicrhau bod unrhyw gynigion ar gyfer ymwahanu ymhlith gwledydd Prydain yn cael eu hystyried gan y pedair gwlad a bod Gweinidogion ym mhob un o'r pedair gwlad yn cael cyfle i godi anghydfod gyda'u cymheiriaid.

Mae'r Fframwaith wedi'i ddrafftio a'i gytuno gan y pedair gwlad, gyda sensitifrwydd i'r materion sy'n effeithio ar Ogledd Iwerddon a'r sefyllfa unigryw sy'n deillio o'r Ddeddf Ymadael â'r UE. Mae gwledydd Prydain yn gweithio'n rheolaidd gyda Gogledd Iwerddon i roi newidiadau ar waith e.e. yn fwyaf diweddar mewn perthynas â thrwyddedau ar gyfer anifeiliaid sy'n symud rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr.

***Sut y byddwch yn asesu risgiau a manteision parhau i ddatblygu'n gyfochrog â chyfraith yr UE mewn cymhariaeth â chynnal y sefyllfa bresennol?***

Caiff hyn ei ystyried fesul achos, gan ystyried gallu Llywodraeth Cymru i gadw hyblygrwydd rheoleiddiol yng Nghymru, ochr yn ochr â'r pwyslais yn y Fframwaith ar hyrwyddo dulliau polisi cyson ledled y DU drwy gydweithio.

Y tu allan i'r UE, gallwn ymwahanu i'r naill gyfeiriad neu'r llall; fodd bynnag, mae'r Fframwaith hwn yn nodi ymrwymiadau gan bob llywodraeth i beidio ag erydu safonau, sef un o amcanion pwysicaf Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid.

***A ydych yn fodlon y bydd y fframwaith yn darparu ar gyfer ymgysylltiad digonol gan Lywodraeth Cymru mewn trafodaethau drwy'r fframwaith sefydliadol rhwng y DU a'r UE ar iechyd a lles anifeiliaid?***

Byddwn yn disgwyl i dimau polisi Fframweithiau yn Llywodraeth Cymru hyrwyddo buddiannau Cymru yn y meysydd hyn drwy'r grwpiau Fframweithiau. Mae datblygu'r Fframwaith hwn wedi cynyddu'r cyfle i ryngweithio rhwng timau polisi perthnasol y pedair llywodraeth. Mae wedi ffurfioli llawer o strwythurau llywodraethu, wedi creu mecanweithiau rhannu gwybodaeth newydd a phroses datblygu polisi fwy cydweithredol, gan gynnwys lle y gallant fod yn berthnasol i negodi neu weithredu cytundeb masnach.

Rhwymedigaethau Rhyngwladol

***Mae'r fframwaith yn darparu y bydd yn galluogi'r llywodraethau i "ystyried goblygiadau sy'n deillio o fasnach ryngwladol sy'n cael effaith uniongyrchol ar weithrediad Fframwaith Cyffredin." A ydych o'r farn bod hyn yn rhoi digon o gyfle i Lywodraeth Cymru gyfrannu i safbwyntiau'r DU ar iechyd a lles anifeiliaid yn ystod negodiadau masnach ryngwladol?***

Ni fwriedir i'r Fframweithiau fod yn arfau i ddylanwadu ar bolisi rhyngwladol. Fodd bynnag, rwy'n disgwyl y bydd timau polisi'r Fframwaith Cyffredin yn mynnu buddiannau Cymru yn y meysydd hyn drwy'r grwpiau Fframwaith.

Mae'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid yn creu'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu mewn modd amserol fel y gellir mynegi safbwyntiau Cymru a gwneud sylwadau mewn materion datganoledig sy'n ymwneud â'r gofod masnach ryngwladol, gan gynnwys safonau Iechydol a Ffytoiechydol (SPS), ymwrthedd gwrthficrobaidd ac iechyd a lles anifeiliaid.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cael eu cynrychioli mewn fforymau amrywiol sy'n canolbwyntio ar fasnach, ac yn ymgysylltu â nhw yn rheolaidd, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y Grŵp Ymgysylltu Masnach (TEG), Mesurau Masnach a Bwrdd Gweithrediadau Sefydliad Masnach y Byd (WTO) a phwyllgor SPS Gweddill y Byd DA Defra.

***A allai anghytundebau ar safbwyntiau'r DU mewn negodiadau masnach gael eu huwchgyfeirio drwy'r fframwaith hwn?***

Mae'r Fframwaith yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar safbwynt y DU gyfan ar fasnach mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid a chyfrannu ato. Mae hyn yn cynnwys y cyfle i uwchgyfeirio'r trafodaethau hyn i strwythurau llywodraethu portffolio cyffredinol EFRA, gan gynnwys IMG-EFRA i'w hystyried gan Weinidogion.

Cyfeiriwch hefyd at yr ateb a roddwyd i'r cwestiwn blaenorol.

Llywodraethu a datrys anghydfodau

***A ydych o'r farn bod y dull datrys anghydfod yn ddigon cadarn i ateb y diben arfaethedig?***

Credaf fod y mecanweithiau'n gadarn ac yn gymesur. Mae'r rhain wedi'u datblygu a'u cytuno ar y cyd gan bedair gwlad y DU.

***Mae'r fframwaith yn darparu y dylid gohirio camau gweithredu sy'n destun anghytuno neu anghydfod fel arfer nes y ceir datrysiad. A oes risg y gallai hyn arwain at oedi i ddeddfwriaeth Cymru?***

Mae gohirio unrhyw gamau gweithredu sy'n destun anghydfod yn rhan gytûn o'r mecanwaith datrys anghydfodau yn y fframweithiau, ond byddai'n dibynnu ar yr achos gan y gallai natur clefydau olygu bod gohirio camau gweithredu nes y ceir datrysiad yn gadael risgiau heb eu lliniaru.

***Pam nad oes terfynau amser wedi'u pennu ar gyfer datrys anghydfodau?***

Cydnabyddir y gall anghydfodau amrywio o ran natur, cymhlethdod a chyd-destun gweithredol, felly ni fyddai terfyn amser penodol yn ffafriol i sicrhau'r canlyniadau gorau i bob llywodraeth.

Sut y datblygwyd y fframwaith

***Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ddatblygu'r fframwaith?***

Cafodd ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Fframwaith ei gydgysylltu rhwng pob llywodraeth.

Cyn gweithredu'r Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, rhoddwyd crynodeb i randdeiliaid o'r Fframwaith arfaethedig, ynghyd â llythyr a lofnodwyd gan bob un o'r pedwar Prif Swyddog Milfeddygol a rhoddwyd cyfle iddynt wneud unrhyw sylwadau neu gyflwyno cwestiynau i'w trafod ym mis Tachwedd 2020.

Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol yn targedu cyrff diwydiant a chyrff anllywodraethol a nodwyd gan y pedair Llywodraeth fel y rhai sydd â'r diddordeb mwyaf yn y Fframweithiau/y byddai'r Fframweithiau'n effeithio arnynt fwyaf.

Roedd rhanddeiliaid penodol o Gymru yr ymgynghorwyd â nhw yn cynnwys, ymhlith eraill:

- Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth
- Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru
- Ffermwyr Dyfodol Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Hybu Cig Cymru
- Iechyd da
- NFU Cymru
- Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru
- RSPCA Cymru
- Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru (grŵp a benodir yn gyhoeddus sy'n rhoi cymorth a chyngor ar gyfer polisi a darpariaeth iechyd a lles anifeiliaid Llywodraeth Cymru).
- Cig Oen a Chig Eidion Cymru

***Sut y mae'r fframwaith yn adlewyrchu ymatebion rhanddeiliaid yng Nghymru?***

Mae'n bwysig nodi bod y Fframwaith yn ymwneud yn bennaf â ffyrdd o weithio o fewn y Llywodraeth a rhwng y pedair llywodraeth, yn hytrach na chynigion polisi fel y cyfryw. Am y rheswm hwnnw, efallai, mae adborth rhanddeiliaid wedi bod yn gyfyngedig iawn. Mae hyn wedi bod yn wir hefyd mewn amryw o Fframweithiau eraill.

Byddwn yn parhau i ymgynghori â rhanddeiliaid ar ddatblygiadau mewn polisi a deddfwriaeth yn y ffordd arferol.

Adolygu a diwygio

***Nid yw'r fframwaith hwn yn cynnwys testun safonol a geir mewn fframweithiau eraill ar sut y dylai'r broses adolygu a diwygio weithio. Pam y mae'r testun hwn wedi'i hepgor?***

Mae Adran 3.4 o'r Fframwaith, 'adolygu a diwygio', yn nodi'r broses y cytunwyd arni gan y Partïon ar gyfer y Fframwaith penodol hwn. Fel y nodwyd mewn atebion blaenorol, mae'r Fframwaith hwn wedi ffurfioli strwythurau cydweithio a llywodraethu sylweddol a oedd yn bodoli eisoes yn y maes polisi hwn, ac mae prosesau adolygu a diwygio'r Fframwaith y cytunwyd arnynt yn adlewyrchu hyn. Gellid ystyried unrhyw newidiadau i alinio testun â Fframweithiau eraill wrth lunio'r Fframwaith terfynol.

***Sut y bydd y Senedd yn gallu cyfrannu i broses adolygu a diwygio'r fframwaith?***

Mae ymrwymiad i adrodd yn gyson ar Fframweithiau ar ôl eu cwblhau'n derfynol. Mae'r manylion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd ar lefel swyddogion. Mae pwyntiau adolygu wedi'u trefnu ym mhob Fframwaith. Disgwylir y bydd y rhain yn rhoi cyfleoedd ychwanegol i'r Senedd gyfrannu at ddatblygu ac esblygu Fframweithiau. Bydd y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol yn monitro cynnydd y rhaglen Fframweithiau i gyflawni'r rôl a roddwyd iddo gan y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol i 'Oruchwylio'r rhaglen Fframweithiau Cyffredin a'i threfniadau llywodraethu'.

Disgwylir y bydd adroddiadau ar Fframweithiau yn ddogfennau cyhoeddus unwaith y byddant wedi'u cymeradwyo gan Weinidogion portffolio ac y byddant ar gael i'r pwyllgorau perthnasol yn y pedair gwlad, yn ogystal â rhanddeiliaid perthnasol.

Yn ogystal, mae ymrwymiad i hysbysu'r Senedd:

- am anghydfodau a godwyd drwy'r Fframweithiau
- pan gaiff anghydfodau eu huwchgyfeirio i Weinidogion
- a rhanddeiliaid am bwyntiau adolygu ar y gorwel ac ystyried argymhellion gan y Senedd a rhanddeiliaid fel rhan o'r un broses adolygu
- am unrhyw ddeddfwriaeth newydd sy'n effeithio ar y Fframweithiau
- am unrhyw geisiadau am eithriad o dan UKIMA.

<u>Materion Rhyngwladol</u>

***Cadarnhau a fydd trafodaethau ar safbwyntiau Llywodraeth y DU mewn trafodaethau masnach sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid yn cael eu trafod drwy'r fframwaith.***

Mae'r Fframwaith yn ffurfioli amryw o fecanweithiau a fforymau llywodraethu newydd sy'n galluogi pob un o'r pedair llywodraeth i ymgysylltu â masnach a thrafod masnach fel y mae'n effeithio ar iechyd a lles anifeiliaid.

<u>Cwestiynau eraill</u>

***Mae cysylltiad agos rhwng y fframwaith hwn a fframweithiau cyffredin eraill, yn enwedig diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid a diogelu iechyd y cyhoedd a sicrwydd iechyd. Sut y caiff y cysylltiadau rhwng y fframweithiau hyn eu rheoli?***

Pan fydd materion neu benderfyniadau'n rhychwantu neu'n effeithio ar feysydd polisi eraill, p'un a oes ganddynt eu Fframweithiau Cyffredin eu hunain ai peidio, bydd swyddogion o fewn y pedair llywodraeth yn ymgysylltu â'u cymheiriaid i ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r materion ehangach a chydbwyso gwahanol ystyriaethau, neu'r gwahanol strwythurau gwneud penderfyniadau o fewn y gwahanol feysydd polisi.

O fewn y Fframwaith, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd a Food Standards Scotland yn aelodau arsylwi o ADPG, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'i gymheiriaid yn gwneud yr un peth lle bo angen.

Yn ogystal, mae cyfarfodydd UKOSPSTA a'i is-bwyllgorau cysylltiedig yn cynnwys cynrychiolwyr o'r FSA, ASB Cymru, Cefas ac Iechyd Planhigion sydd â rolau mewn Fframweithiau eraill, sy'n adlewyrchu natur gymhleth a chydgysylltiedig y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid.

Mae'r strwythurau llywodraethu cyffredinol a sefydlwyd ar draws y portffolio EFRA ehangach, megis Bwrdd Rhaglen yr Uwch Swyddogion (SOPB) a'r IMG-EFRA hefyd yn gyfle i faterion sy'n effeithio ar amryw o Fframweithiau gael eu codi a'u trafod.

***Mae Pwyllgor Craffu Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi tynnu sylw at amryw o wallau ac anghysondebau yn y fframwaith hwn. A allwch chi esbonio sut rydych yn sicrhau ansawdd dogfennau fframwaith cyn i'r Gweinidog eu cymeradwyo a'r Senedd graffu arnynt?***

Efallai fod cyfyngiadau amser wedi bod yn ffactor o ran gwallau yn y testun ac anghysondebau. Bydd unrhyw wallau o'r fath yn cael eu cywiro yn fersiwn derfynol y Fframwaith.

Cofion,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/0044/22

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Drwy e-bost: SeneddEconomy@senedd.wales

03 Mai 2022

Annwyl Paul,

**Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Cytundebau Masnach Ryngwladol) (Diwygio) 2022.**

**Trosolwg Polisi o'r OS**

Mae angen yr OS uchod er mwyn diwygio deddfwriaeth gaffael (a nodir isod) i weithredu, mewn deddfwriaeth ddomestig, rwymedigaethau caffael y Deyrnas Unedig (DU) a gwmpesir gan y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy (Cytundeb EFTA).

**Y Gyfraith a gaiff ei diwygio:**

- Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015
- Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016
- Rheoliadau Contractau Cyfleustodau 2016

y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'y Rheoliadau Caffael Domestig'

**Diben y diwygiadau**
Roedd Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 (OS Ymadael â'r UE) a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn cadw rhwymedigaethau caffael y DU a gynhwysir mewn cytundebau rhyngwladol presennol, am 12 mis o ddiwedd y Cyfnod Gweithredu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gosodwyd Cytundeb EFTA gerbron Senedd y DU ar 16 Gorffennaf 2021, a daeth y cyfnod craffu i ben ar 26 Hydref 2021. O'r herwydd, mae angen gweithredu'r rhwymedigaethau caffael a gwmpesir gan Gytundeb EFTA yn y Rheoliadau Caffael Domestig.
O ran Cymru, bydd y ddeddfwriaeth ddiwygiedig yn sicrhau bod y rhwymedigaethau caffael rhyngwladol o dan Gytundeb EFTA yn cael eu gweithredu'n briodol o fewn y Rheoliadau Caffael Domestig gan ganiatáu yn sgil hynny i awdurdodau ledled Cymru gydymffurfio â nhw hefyd.

**Pam rhoddwyd cydsyniad**
Mae adran 2 o Ddeddf Masnach 2021, y dibynnir arni ar gyfer yr OS presennol, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a geir yn y Ddeddf. Fodd bynnag, ni argymhellir arfer y pwerau hyn yn yr achos hwn am y rhesymau a nodir isod.

Ein polisi fel arfer yw, lle mae pwerau'n gorwedd gyda Gweinidogion Cymru, mai cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw deddfu ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, diben yr OS yw gwneud diwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth gaffael bresennol er mwyn sicrhau bod rhwymedigaethau caffael rhyngwladol yn cael eu gweithredu'n llawn ledled y DU. Felly, y tro hwn, credaf ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu yn y maes datganoledig hwn. Mae deddfu'n gyflym hefyd yn bwysig er mwyn lliniaru'r risg y bydd bwlch yn y Rheoliadau Caffael Domestig o ran cydymffurfio â'n rhwymedigaethau rhyngwladol; os bydd Rheoliadau Caffael Domestig yn parhau heb eu halinio â rhwymedigaethau rhyngwladol, yna bydd perygl y gallai trydedd wlad herio'r DU trwy gyfraith.

Nid oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ac nid yw sylwedd y diwygiadau, yn fy marn i, yn ddadleuol. At hynny, er bod y Rheoliadau Caffael Domestig sy'n cael eu diwygio yn ymestyn i Gymru, nid oes deddfwriaeth gyfatebol wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn. Mae diweddaru'r Rheoliadau Caffael Domestig yn unol â Lloegr ac mewn un darn o ddeddfwriaeth yn rhesymegol er mwyn sicrhau bod y sefyllfa gyson bresennol yn cael ei chynnal.

Ni fydd yr OS yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nac ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

O'r herwydd, rwyf wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Cyfleoedd Brexit ac Effeithlonrwydd y Llywodraeth wneud yr OS hwn mewn perthynas â Chymru, y mae Llywodraeth y DU wedi gofyn amdano yn unol ag ymrwymiadau anstatudol Llywodraeth y DU i sicrhau nad yw'r pwerau yn Neddf Masnach 2021 yn cael eu defnyddio fel arfer i ddeddfu mewn maes â chymhwysedd datganoledig heb gydsyniad y llywodraethau datganoledig perthnasol, a byth heb ymgynghori â hwy yn gyntaf. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig, sydd i'w weld yn: Eich cyf (senedd.wales)

Mae'r OS yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, ac fe'i gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 25 Ebrill 2022.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi @senedd.cymru
senedd.cymru/ SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/ SeneddEconomy
0300 200 6565

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

3 Mai 2022

Annwyl Weinidog,

Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia - yr effaith ar Gymru

Mae'r Pwyllgor wedi cynnal ymchwiliad byr i effaith debygol y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia ar Gymru, ar ôl iddo gael ei lofnodi ym mis Rhagfyr 2021.

Gan mai dyma'r cytundeb masnach cyntaf y mae'r DU wedi'i negodi a'i gwblhau 'o'r cychwyn cyntaf' ers ymadael â'r UE, roedd y Pwyllgor yn awyddus i graffu ar y cytundeb a cheisio barn rhanddeiliaid ar ei heffeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol tebygol. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau tebygol ar sector bwyd-amaeth Cymru, a'r cymorth y bydd ei angen ar fusnesau neu sefydliadau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i baratoi ar gyfer gweithredu'r cytundeb.

Cawsom saith ymateb i'n hymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 21 Ionawr a 28 Chwefror. Yna cawsom dystiolaeth gan banel o arbenigwyr ar fasnach yn y DU (yr Athro Michael Gasiorek, Sam Lowe ac Emily Rees) ar 3 Mawrth, a chan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU Cymru), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), a Hybu Cig Cymru, ar 17 Mawrth, yn ogystal â thrafod y Cytundeb Masnach Rydd â chi a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru mewn sesiwn graffu gyffredinol yn yr un cyfarfod. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ymchwiliad y Pwyllgor.

Isod mae prif ganfyddiadau ac argymhellion y Pwyllgor. Edrychwn ymlaen at eich ymateb wrth inni edrych ymlaen at graffu ar y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU a Seland Newydd yn nhymor yr haf, yn dilyn y cyhoeddiad ar 28 Chwefror bod y trafodaethau ar y cytundeb hwnnw wedi dod i ben.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Mae negodi a llofnodi cytundebau masnach â gwledydd eraill yn fater a gedwir yn ôl. Felly, mae'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Gadeirydd Pwyllgor Masnach Ryngwladol Tŷ'r Cyffredin, Cadeirydd Pwyllgor Cytundebau Rhyngwladol Tŷ'r Arglwyddi a Chadeirydd Pwyllgor Dethol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Hyderwn y bydd ein canfyddiadau yn llywio eu gwaith craffu ar y Cytundeb yn ystod y broses gadarnhau yn Senedd y DU.

Rydw i hefyd wedi anfon copïau at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, gan fod rhai materion a godwyd gan gynrychiolwyr y sector, er enghraifft, effaith y cytundeb mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth Cymru sydd ar y gweill, yn dod o fewn ei phortffolio.

## Asesiad o'r Effaith

Aeth y Pwyllgor ati'n ofalus i ystyried y wybodaeth a ddarparwyd yn yr asesiad Llywodraeth y DU o effaith y Cytundeb Masnach Rydd. Mae'r Athro Michael Gasiorek yn nodi bod lefel y manylder ynghylch effaith bosibl y Cytundeb ar economi Cymru yn fach iawn ac y gellid gwneud mwy i asesu ei effeithiau rhanbarthol. Dywedodd Emily Rees mai'r hyn nad yw'r asesiad effaith yn ei wneud yn dda iawn yw amlinellu'r effeithiau is-sectoraidd posibl, gan gynnwys ar lefel ranbarthol. Cyfeiriodd hefyd at fodelu a ddefnyddir gan yr Undeb Ewropeaidd yn ei asesiadau effaith o gytundebau masnach fel enghraifft o sut y gellir gwneud hyn.

Mae asesiad Llywodraeth y DU o'r effaith yn amcangyfrif y bydd y Cytundeb yn arwain at ostyngiad mewn allbwn gros o tua 3 y cant ar gyfer cig eidion a 5 y cant ar gyfer cig defaid. Mae FUW yn nodi y byddai hyn yn cyfateb i ostyngiad yn allbwn gros sectorau gwartheg a defaid Cymru o £29 miliwn (£13 miliwn i'r diwydiant gwartheg ac £16 miliwn i'r diwydiant defaid).

Mae FUW hefyd yn pwysleisio'r canlynol: *"…such adverse impacts may well be concentrated and inflated in Welsh communities, given the particular reliance of Wales on the beef and sheep industry and the upland nature of much of Wales, which makes alternative forms of agriculture impossible."*

Mae NFU hefyd yn cyfeirio at ffigurau Llywodraeth y DU sy'n dangos bod disgwyl i'r sectorau amaethyddiaeth sylfaenol a bwydydd wedi'u lled-brosesu weld gostyngiad o tua 0.7 y cant (£94 miliwn) a 2.65 y cant (£225 miliwn) yn eu Gwerth Ychwanegol Gros yn y drefn honno, o'i gymharu â thwf llinell sylfaen yn y sectorau.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn rhannu'r 'pryderon difrifol' yr undebau ffermio bod y cytundebau sydd wedi'u llofnodi hyd yma yn tanseilio ffermio a diogelwch bwyd yn y DU yn gyfnewid am fawr ddim buddion i'r economi.

Mae NFU a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi galw am wneud asesiad o'r effaith benodol ar Gymru, ond nodwn fod Llywodraeth y DU wedi gwrthod hyn o'r blaen. Nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn cynnal ei dadansoddiad ei hun o'r cytundeb ac yn bwriadu cyhoeddi asesiad sy'n canolbwyntio ar Gymru, er nad yw'r asesiad hwnnw wedi'i gyhoeddi eto ar adeg anfon y llythyr hwn.

*Sicrhau'r nifer fwyaf o gyfleoedd â phosibl ar gyfer busnesau bach a chanolig a gweithgynhyrchu yng Nghymru*

Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn gyffredinol yn croesawu'r 'manteision aruthrol' y mae'r cytundeb yn eu rhoi i gwmnïau llai sydd eisoes yn masnachu gydag Awstralia neu sy'n ystyried gwneud hynny. Mae'n nodi bod 31 y cant o aelodau'r Ffederasiwn sy'n ymwneud â masnach ryngwladol wedi nodi y bydd Awstralia yn bwysig ar gyfer eu huchelgeisiau allforio dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'n nodi bod llwyddiant yn dibynnu yn y pen draw ar sut y caiff y cytundeb ei weithredu a'i orfodi. Dywedodd y Ffederasiwn Busnesau Bach hefyd y byddai wedi hoffi gweld darpariaethau ar gyfer sefydlu pwyllgor busnesau bach a chanolig yn y Cytundeb Masnach Rydd i gynrychioli ei fuddiannau ac i ymdrin â materion sy'n codi ar gyfer sectorau neu ardaloedd daearyddol penodol.

Nododd y Ffederasiwn Busnesau Bach: *"Given Wales's reliance on exports on large companies, and the untapped potential of exports for SME growth in Wales, an SME chapter and focus on all trade deals has potentially more relative benefits to Wales than elsewhere."*

Mae tystiolaeth Make UK yn cyfeirio at y manteision tymor hwy i'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru o ran llai o rwystrau i fasnachu, ond nodir y gellid gwneud mwy i helpu'r diwydiant i ddeall manteision cytundebau masnach diweddar a'r rhai sydd ar y gweill.

*Rhannu Data Masnach*

Nodwn siom y Gweinidog Materion Gwledig nad yw data masnach manwl a gedwir gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth y DU wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru. Dywedwyd wrthym y byddai'r data hyn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r effeithiau posibl ar y sector amaethyddiaeth yng Nghymru.

Mae hyn yn siomedig o gofio bod bwyd ac amaethyddiaeth yn feysydd datganoledig o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac y bydd Llywodraeth Cymru felly yn gyfrifol am liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar feysydd datganoledig. Mae'n hanfodol felly bod gan Lywodraeth Cymru fynediad llawn i'r data er mwyn deall lle mae angen cymorth ac i ganiatáu ymyriadau polisi mwy penodol a theg. Byddai hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru gynhyrchu dadansoddiad manylach o effaith cytundebau masnach ar sectorau penodol yng Nghymru fel rhan o'i hasesiad sy'n canolbwyntio ar Gymru.

Nid yw'r Pwyllgor yn credu bod asesiad Llywodraeth y DU o'r effaith yn rhoi digon o wybodaeth i gael dealltwriaeth lawn o effeithiau tebygol y Cytundeb Masnach Rydd ar Gymru, ac ar sectorau ac is-sectorau unigol. Credwn y dylai asesiadau o'r effaith a gyhoeddir yn y dyfodol, yn ogystal ag asesiadau cwmpasu cyn negodi, gynnwys gwybodaeth fanylach am effeithiau tebygol cytundeb masnach ar sectorau penodol yng Nghymru.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU drwy'r Fforwm Masnach Gweinidogol, neu unrhyw fforwm arall y mae'n ei ystyried yn briodol, er mwyn:

a) gwneud cais am fynediad llawn i'r data masnach a gedwir gan Lywodraeth y DU, er mwyn rhoi gwybodaeth ychwanegol i Lywodraeth Cymru ynglŷn ag effeithiau posibl y Cytundeb Masnach Rydd rhwng y DU ac Awstralia ar sectorau yng Nghymru; a

b) rhoi asesiad llawn o'r effeithiau tebygol ar sectorau ac is-sectorau o fewn gwledydd a rhanbarthau'r DU mewn asesiadau o effaith cytundebau masnach yn y dyfodol.

Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ar y materion hyn, gan gynnwys unrhyw gynnydd a wnaed neu unrhyw oblygiadau i Lywodraeth Cymru os na all wneud cynnydd ar y materion hyn.

Argymhelliad 2: Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu ystyried asesiadau Llywodraeth Cymru o gytundebau masnach yn y dyfodol sy'n canolbwyntio ar Gymru fel rhan o'i gwaith craffu, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gwblhau a chyhoeddi ei hasesiadau cyn i gytundebau gael eu gosod gerbron Senedd y DU.

Sector bwyd-amaeth

*Cwotâu Cyfradd Tariff a mesurau diogelu*

Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o safbwyntiau ar effaith bosibl y darpariaethau rhyddfrydoli tariffau yn y Cytundeb Masnach Rydd ar y sector amaethyddol. Mynegodd NFU Cymru, FUW a Hybu Cig Cymru bryderon am effaith y cytundeb masnach rydd ar ffermwyr Cymru a'r sector cig coch. Yn benodol, nodwyd pryderon y byddai cig eidion a chig defaid Cymru yn colli cyfran o'r farchnad yn y DU oherwydd cynnydd yn y gystadleuaeth o ganlyniad i ddileu tariffau'r DU ar nwyddau amaethyddol o Awstralia.

Dywedodd Huw Thomas o NFU Cymru hefyd fod y trothwyon a bennwyd ar gyfer y mecanweithiau diogelu – a gynlluniwyd i ddiogelu'r sector - mor uchel y byddai’r diwydiant mewn sefyllfa ddifrifol erbyn i’r mesurau diogelu gael eu sbarduno.

Ni wnaeth arbenigwyr masnach ganfod effaith negyddol uniongyrchol o ganlyniad i’r Cytundeb, o'i ystyried ar wahân. Dywedodd yr Athro Michael Gasiorek fod effaith perthynas fasnachu newydd y DU â'r UE a newidiadau i gynlluniau cymorth amaethyddol yn debygol o gael mwy o effaith ar y sector yng Nghymru na'r Cytundeb Masnach Rydd.

Dywedodd Sam Lowe y byddai’r Cytundeb yn arwain at fwy o gystadleuaeth i gynhyrchwyr o Gymru, ond ei bod yn annhebygol y byddai’n arwain at fewnlifau enfawr o fewnforion cynnyrch amaethyddol o Awstralia. Cydnabu'r Athro Gasiorek a Sam Lowe fod cwota'r Cytundeb yn fwy na'r lefel mewnforio bresennol, ond nodwyd bod y data ar gyfer y blynyddoedd diwethaf yn dangos mai anaml y mae Awstralia wedi cyflawni ei chwota presennol gyda'r DU. Gwnaethoch ddweud wrth y Pwyllgor fod y cynnydd mewn cwotâu cyfradd tariff yn peri risg i'r diwydiant amaeth yng Nghymru yn y dyfodol, barn a rennir gan y ddau undeb ffermio yng Nghymru.

Nododd Hybu Cig Cymru ei siom am y diffyg mesurau diogelu at y dyfodol i ddiogelu'r diwydiant ffermio rhag newidiadau mewn lefelau masnach. Nodwyd hefyd bod cynhyrchiant mewn Awstralia a Seland Newydd wedi bod yn isel oherwydd sychder dros y blynyddoedd diwethaf a bod y rhagolygon o gynnydd mewn cynhyrchu dros y pum mlynedd nesaf yn destun pryder sylweddol iawn gyfer yr economi wledig a chymunedau gwledig yng Nghymru.

Dywedodd yr NFU, er bod y rhan fwyaf o allforion bwyd-amaeth Awstralia yn mynd i Tsieina ar hyn o bryd, y gallai ffactorau fel tensiynau geowleidyddol, dirywiad mewn cysylltiadau diplomataidd a newidiadau yn y farchnad arian arwain at newidiadau i lifoedd masnach yn y dyfodol.

*Cost cynhyrchu*

Mae NFU Cymru wedi nodi bod Llywodraeth y DU, drwy lofnodi'r Cytundeb hwn, yn gofyn i ffermwyr Cymru wynebu ffermwyr sydd â ffocws cryf ar allforio ac sydd ymhlith y mwyaf cystadleuol yn y byd. Aeth ymlaen i ddweud bod cost cynhyrchu ffermwyr cig eidion Awstralia tua 2.5 gwaith yn llai na ffermwyr y DU ac y gall ffermwyr defaid Awstralia gynhyrchu cig defaid am 65 y cant yn llai nag yn y DU.

*Mecanwaith Monitro*

Pwysleisiodd FUW bwysigrwydd mecanweithiau monitro, a'i bod yn hanfodol i'r rheini fod ar waith yn nhestun y Cytundeb er mwyn gallu gweithredu ar newidiadau ym mhrisiau'r farchnad neu allbwn amaethyddol, neu fewnforion ac allforion. Cyfeiriodd Huw Thomas o NFU Cymru at y grŵp monitro'r farchnad a amlinellwyd o dan y Fframwaith Cyffredin ar Gymorth Amaethyddol fel cyfrwng posibl, gyda chymorth gan gyrff ardollau a'r undebau ffermio. Nododd Huw Thomas hefyd fod rhai o'r setiau data y gellid eu defnyddio yn ddangosyddion nad ydynt yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ac y gallai difrod eisoes fod wedi'i wneud i'r diwydiant erbyn i'r data gyrraedd.

Nodwn y pwyntiau a wnaed gan arbenigwyr masnach ei bod yn annhebygol y bydd y darpariaethau rhyddfrydoli tariffau'n arwain at 'fewnlifiadau enfawr' o fewnforion o gynnyrch amaethyddol o Awstralia, o leiaf yn y tymor byr.

Fodd bynnag, rydym hefyd yn rhannu'r pryderon a leisiwyd gan y sector bwyd-amaeth ynghylch effaith bosibl digwyddiadau geowleidyddol ar lifoedd masnach, fel y mae'r rhyfel yn Wcráin wedi'i ddangos.

Mae monitro effaith y cytundeb hwn ar lifoedd masnach rhwng y DU ac Awstralia yn hanfodol er mwyn cefnogi amaethyddiaeth a sectorau eraill economi Cymru. Er mwyn monitro effeithiau parhaus cytundebau masnach ar ôl eu gweithredu, hoffai'r Pwyllgor weld mecanweithiau monitro'r farchnad yn cael eu cryfhau ac yn cael mwy o sylw mewn gwaith sy'n ymwneud â chytundebau masnach yn y dyfodol.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i weithio gyda llywodraethau eraill ledled y DU, a chyda'r sector bwyd-amaeth yng Nghymru, i sicrhau bod dulliau effeithiol ar waith i fonitro'r farchnad. Dylid mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer sectorau eraill o'r economi hefyd.

### Effaith gronnol cytundebau masnach

Un pryder mawr a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru a'r sector bwyd-amaeth yw'r effaith gronnol ar sector amaethyddol Cymru o ganlyniad i nifer o gytundebau masnach rydd a gaiff eu llofnodi gan y DU, a'r cynsail a osodir gan y darpariaethau mynediad i'r farchnad

yn y Cytundeb Masnach Rydd hwn ar gyfer cytundebau yn y dyfodol. Gwnaethoch ddisgrifio'r her o ddatblygu'r cytundeb rhwng y DU ac Awstralia fel llinell sylfaen ar gyfer cytundebau masnach eraill, yn hytrach na therfyn uchaf.

Dywedodd FUW wrth y Pwyllgor ei fod yn amcangyfrif gostyngiad o £29 miliwn yn yr allbwn gros i sectorau cig eidion a defaid Cymru ar gyfer y Cytundeb Masnach Rydd hwn. Fodd bynnag, mae'n disgwyl i effeithiau cronnol cytundebau masnach â Seland Newydd ac eraill o fewn y Bartneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel fod yn llawer mwy yn y tymor hwy.

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi'r effeithiau hyn. Nodwn hefyd nad oedd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru yn ymwybodol o unrhyw fwriad gan Lywodraeth y DU i gynnal ei dadansoddiad ei hun.

O ystyried y nifer fawr o gytundebau masnach y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cwblhau dros y blynyddoedd nesaf, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig cynnal asesiadau'n rheolaidd ar effeithiau economaidd cronnol cytundebau masnach rydd y DU.

Argymhelliad 4. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanweithiau ar gyfer adolygu'n barhaus effeithiau cronnol cytundebau masnach rydd ar economi Cymru. Dylai ymgynghori â gwahanol sectorau ar sut y dylid datblygu'r gwaith hwn a chyhoeddi canfyddiadau'r asesiadau hyn o bryd i'w gilydd.

Argymhelliad 5. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru hefyd gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau y caiff dadansoddiadau rheolaidd eu cynnal o effaith gronnol cytundebau masnach er mwyn llywio negodiadau masnach y presennol a'r dyfodol.

## Lles anifeiliaid

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r darpariaethau yn y Cytundeb sy'n ymwneud â lles anifeiliaid. Dywedodd Greg Hands AS, Cyn Weinidog Gwladol yr Adran Masnach Ryngwladol, yn flaenorol bod Llywodraeth y DU wedi cytuno ar gymal dim atchweliad arloesol ynghylch lles anifeiliaid, a fyddai'n golygu na allai'r naill wlad na'r llall ostwng eu safonau lles anifeiliaid i danseilio'r llall.

Fodd bynnag, yn seiliedig ar y dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chael, mae amheuaeth ynghylch a yw'r darpariaethau dim atchweliad yn mynd yn ddigon pell. Dywedodd Emily Rees nad yw'r darpariaethau, wrth ystyried y testun cyfreithiol, yn gyfystyr â darpariaethau dim atchweliad. Bydd gofyn i'r DU ac Awstralia 'ymdrechu' i sicrhau nad ydynt yn anwybyddu neu fel arall yn rhanddirymu cyfreithiau a rheoliadau mewn ffordd a fyddai'n lleihau lefel y mesurau diogelu i anifeiliaid.

*Amodoldeb ynghylch safonau lles anifeiliaid*

Mae tystiolaeth gan RSPCA Cymru a Four Paws yn tynnu sylw at y ffaith nad oes unrhyw sicrwydd ynghylch cywerthedd safonau ar gyfer cynhyrchion sy'n cael eu mewnforio i Gymru a gweddill y DU o Awstralia. Maent yn dyfynnu enghreifftiau o safonau lles anifeiliaid Awstralia sydd wedi'u gwahardd yng Nghymru, gan gynnwys cludo anifeiliaid yn bell a brandio poeth. Awgrymwyd i'r Pwyllgor y gallai Llywodraeth y DU fod wedi mynnu gwneud rhyddfrydoli tariffau'n amodol ar fodloni rheolau penodol ar les anifeiliaid. Er enghraifft, ni fyddai unrhyw ddefaid sydd wedi bod yn destun arferion fel *mulesing*, neu 'frandio poeth' ar wartheg yn gymwys i gael eu cynnwys mewn masnach ddi-dariff o dan y Cytundeb. Dywedodd Sam Lowe wrth y Pwyllgor y gallai cynnwys gofynion amodoldeb fod wedi bod yn safbwynt negodi gan Lywodraeth y DU oherwydd safon cynnig y DU, ond y byddai wedi gwneud y broses o negodi'r Cytundeb yn hirach.

Dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru wrthym fod hyn yn rhywbeth yr oedd Llywodraeth Cymru yn pwyso amdano mewn mandadau negodi yn y dyfodol. Gwnaethoch ddweud wrthym hefyd eich bod yn siomedig nad oedd y gwahaniaeth mewn safonau yn cael ei ystyried yn 'risg wirioneddol' gan Lywodraeth y DU yng ngoleuni'r defnydd presennol o'r cwota tariffau.

Mae'r Pwyllgor yn nodi safbwynt Gweinidogion Cymru ar gynnwys amodoldeb ynghylch safonau lles anifeiliaid mewn trafodaethau masnach yn y dyfodol.

*Safonau labelu*

Mynegodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru bryderon ynghylch labelu cig a bwyd môr. Yn benodol, dywedodd y gallai cig Awstralia gael ei gynnwys mewn prydau parod lle nad yw'r un gofynion labelu yn berthnasol. Nododd yr NFU fod hyn yn risg fawr i sector amaethyddol Cymru, gan y bydd llawer o gig Awstralia yn mynd i'r sector gwasanaethau bwyd ar gyfer lletygarwch a defnydd y tu allan i'r cartref.

Nododd Hybu Cig Cymru fod angen gwell rheoleiddio ar gyfer labelu yn y DU er mwyn rhoi dewis i ddefnyddwyr. Mae RSPCA Cymru hefyd yn annog Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gyflwyno labeli clir ar yr holl gynnyrch sy'n cael ei fewnforio er mwyn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr o ble y daeth eu bwyd yn wreiddiol.

Mae'r Pwyllgor yn nodi rôl y Fframwaith Cyffredin dros dro ar Safonau Cyfansoddiadol Bwyd a Labelu, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, a fydd yn sefydlu mecanwaith i'r DU a'r llywodraethau datganoledig gydweithio a rheoli ymwahanu o ran labelu bwyd.

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi trafodaethau pellach rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar labelu cynhyrchion bwyd a diod sy'n cael eu mewnforio a'u gwerthu yn y DU, gan gynnwys yn y sector gwasanaethau bwyd.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw drafodaethau sy'n digwydd ynghylch labelu bwyd a diodydd a gaiff eu mewnforio, gan gynnwys ym maes gwasanaethau bwyd.

Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi datgan yr ymgynghorwyd â'r llywodraethau datganoledig yn rheolaidd ar ôl pob cylch negodi ac y cofrestrwyd eu blaenoriaethau drwy gydol y broses. Nodwn hefyd y rhannwyd testun y Cytuniad a'r asesiad o'r effaith cyn eu llofnodi, yn ogystal â chopi dan embargo o destun terfynol y Cytuniad.

Rydym yn croesawu'r 'ymgysylltu cadarnhaol ac adeiladol iawn' y sonioch amdano rhwng yr Adran Masnach Ryngwladol a Llywodraeth Cymru mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, nodwn eich pryderon y byddai ymgysylltu a chyfraniadau cynharach mewn trafodaethau masnach yn y dyfodol yn caniatáu i faterion sy'n effeithio ar gyfrifoldebau datganoledig gael eu nodi a'u trin yn adeiladol yn gynharach yn y broses.

Mae'r Pwyllgor yn rhannu barn Llywodraeth Cymru y dylid cael mwy o ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn gynharach mewn trafodaethau masnach. Dylai hyn hefyd gynnwys ymgysylltu gweithredol wrth lunio amcanion negodi ar gyfer cytundebau masnach yn y dyfodol.

Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Cytundeb Masnach Rydd yn sefydlu nifer o bwyllgorau a gweithgorau ar y cyd i gefnogi'r broses o'i weithredu. Clywsom gan arbenigwyr masnach a oedd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn rhan o drefniadau llywodraethu'r Cytundeb Masnach Rydd lle maent yn ymwneud â meysydd o gymhwysedd datganoledig.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi diddordeb Llywodraeth Cymru mewn cymryd rhan yn nhrefniadau llywodraethu'r Cytundeb. Gwnaethoch ddweud wrthym fod Llywodraeth Cymru yn dal i geisio eglurder ynghylch trefniadau gweithredu.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau ei bod yn cymryd rhan yn nhrefniadau llywodraethu'r


Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cytundeb Masnach Rydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddi am benderfyniadau sy'n ymwneud â hyn, gan gynnwys unrhyw ymgysylltu neu bresenoldeb ar y gwahanol bwyllgorau a gweithgorau a sefydlir gan y Cytundeb Masnach Rydd.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb i’r materion a godwyd yn ein hymchwiliad.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Paul.Davies@senedd.wales

25 Ebrill 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich cais am bapur cyn y sesiwn a gynhelir ar 11 Mai, mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor i Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

Rwy'n amgáu papur briffio, a hyderaf y bydd o gymorth i aelodau'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at fynychu'r sesiwn ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gan yr aelodau.

Cofion,

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## Cyflwyniad

1. Mae llygredd amaethyddol yn parhau i effeithio ar yr amgylchedd ledled Cymru, sy'n niweidiol i iechyd y cyhoedd a bioamrywiaeth. Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 (Rheoliadau CoAP)[1] , a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021, yn seiliedig ar argymhellion arfer da hirsefydlog a gynlluniwyd i atal llygredd amaethyddol. Mae'r Rheoliadau CoAP yn cynnwys y mesurau canlynol:

   - Cynllunio Rheoli Maetholion;
   - Defnyddio gwrtaith cynaliadwy sy'n gysylltiedig â gofynion y cnwd;
   - Diogelu dŵr rhag llygredd sy'n gysylltiedig â phryd, ble a sut y caiff gwrteithiau eu gwasgaru;
   - Safonau storio tail;
   - Cymal adolygu sy'n galluogi gwneud cynigion amgen; a
   - Cyfnodau trosiannol ar gyfer y rhan fwyaf o elfennau er mwyn rhoi amser i ffermwyr addasu a sicrhau cydymffurfiaeth.

## Diben y Rheoliadau

2. Mae'r Rheoliadau CoAP wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag achosion llygredd amaethyddol yng Nghymru, er mwyn cyfrannu at gyflawni ystod eang o'n rhwymedigaethau rhyngwladol a domestig. Maent yn cefnogi ymrwymiad parhaus Cymru i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd[2] , y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol[3] , Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig[4] a Phrotocol Gothenburg[5]. Byddant yn cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[6] ac amcanion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.[7]

3. Mae'r Rheoliadau CoAP yn cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang drwy hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a diogelu ein hiechyd a'n hamgylchedd naturiol drwy ecosystemau iach a gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd ecolegol. Byddant yn helpu ffermydd i leihau allyriadau niweidiol a gwella'r ffordd y rheolir ein hadnoddau naturiol. Byddant yn cefnogi ffermydd i fynd i'r afael â'r difrod i'n

---

[1] The Water Resources (Control of Agricultural Pollution) (Wales) Regulations 2021 (legislation.gov.uk)
[2] What is the United Nations Framework Convention on Climate Change? | UNFCCC
[3] Home | Convention on Biological Diversity (cbd.int)
[4] THE 17 GOALS | Sustainable Development (un.org)
[5] Gothenburg Protocol | UNECE
[6] wfg-essentials-guide-cy.pdf (futuregenerations.wales)
[7] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016: trosolwg | LLYW.CYMRU

hadnoddau naturiol a nodwyd yn Adroddiad Cyflwr Ein Hadnoddau Naturiol (SoNaRR) ar gyfer Cymru 2020[8] a'u gwrthdroi a lleihau effeithiau negyddol amaethyddiaeth ar fioamrywiaeth.

4. Er mai prif nod y Rheoliadau CoAP yw lleihau llygredd dŵr, mae'r mesurau wedi'u cynllunio i osgoi cyfnewid llygredd ac i atal neu leihau colledion cynyddol maetholion i'r amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys nitradau, ffosfforws, nwyon tŷ gwydr ac amonia. Drwy fabwysiadu'r dull hwn, mae Rheoliadau CoAP yn cyflawni yn erbyn ystod eang o gyfrifoldebau Cymru ac yn darparu ymateb cyfannol i heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu amaethyddol.

5. Ystyriwyd y risgiau sy'n gysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd wrth ddylunio'r Rheoliadau CoAP. Nod y dull hwn yw mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag achosion tor-cyfraith ôl-weithredol a gofynion tegwch Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU[9]. Cynlluniwyd y Rheoliadau CoAP i sicrhau mynediad i farchnadoedd Ewropeaidd a byd-eang drwy alluogi sector amaethyddol Cymru i ddangos bod bwyd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu i safonau sylfaenol cydnabyddedig.

6. Mae Rheoliadau CoAP yn debyg i'r rhai yng ngweddill y DU a'r rhan fwyaf o Ewrop. Mae'r Rheoliadau'n gymesur â pheryglon llygredd o arferion amaethyddol. Maent yn seiliedig ar argymhellion arfer da, felly bydd rhai ffermwyr yn gweld cyn lleied o effaith â phosibl, yn enwedig y rhai sydd eisoes yn dilyn arfer da, tra bydd angen amser a chefnogaeth ar eraill i wella. Mae llawer o'r gofynion yn dyblygu, neu'n cyd-fynd yn agos â safonau sydd wedi'u cynnwys o fewn trawsgydymffurfio[10], Tractor Coch[11], FAWL[12] a Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010[13].

**Llygredd Amaethyddol yng Nghymru**

7. Mae dau brif gategori o lygredd dŵr. Mae tarddle penodol o lygredd yn cyfeirio at lygredd sy'n dod o bibell neu ffos neu fecanwaith arwahanol arall. I'r gwrthwyneb, nid oes gan lygredd gwasgaredig darddle penodol, a gall ddigwydd, er enghraifft, lle mae maetholion hydawdd yn cael eu cario drwy bridd i ddŵr daear ac arwyneb drwy law.
8. Llygredd gwasgaredig amaethyddol yw un o'r prif resymau pam mae cyrff dŵr yng Nghymru yn methu â chael statws da yn unol â rhwymedigaethau sy'n deillio o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD). Yn ystod teithiau cerdded afonydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) mewn dalgylchoedd WfD sy'n methu (a

[8] Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 (naturalresources.wales)
[9] The EU-UK Trade and Cooperation Agreement | European Commission (europa.eu)
[10] Trawsgydymffurfio 2022 | LLYW.CYMRU
[11] Red Tractor Assurance | Assured Food Standards
[12] FAWL
[13] The Water Resources (Control of Pollution) (Silage, Slurry and Agriculture Fuel Oil) (Wales) Regulations 2010 (legislation.gov.uk)

gynhaliwyd rhwng 2010-2015), canfuwyd bod arferion rheoli tir amaethyddol gwael a seilwaith yn cyfrannu 37% o'r problemau llygredd gwasgaredig a nodwyd.

9. Nododd ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau 2019 CNC[14] lygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth fel y rheswm dros 113 o gyrff dŵr fethu â bodloni statws da (gweler Ffigur 1 yn Atodiad 1). Mae CNC wrthi'n adolygu statws cyrff dŵr yng Nghymru. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn cadarnhau bod 140 o gyrff dŵr yng Nghymru yn methu â chael statws da oherwydd amaethyddiaeth, gyda 232 arall yn ymwneud ag amaethyddiaeth yn ôl pob tebyg a 118 yr amheuir eu bod yn methu oherwydd amaethyddiaeth, gan nodi mai amaethyddiaeth yw prif achos methiant (gweler Ffigur 11 yn Atodiad 1, am ragor o fanylion).

10. Mae'r dalgylchoedd sy'n methu safonau mewn perthynas â'r Gyfarwyddeb Nitradau yn cwmpasu tua 8% o Gymru (gweler Ffigur 2, Atodiad 1). Mae cyflenwadau yfed dŵr daear preifat yn arbennig o agored i lygredd, gydag 8.7% o brofion yn methu â chyrraedd y safonau yn 2014 oherwydd paramedrau microbiolegol a chemegol.

11. Nid yw llygredd nitradau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth wedi'i gyfyngu i'r ardaloedd a argymhellir gan CNC i'w dynodi'n Barthau Perygl Nitradau. Yn 2016, argymhellodd CNC y dylid dynodi o leiaf 8% o Gymru yn Barthau Perygl Nitradau, er mwyn bodloni rhwymedigaethau statudol, yn unol â methodoleg gyfyngedig iawn a sefydlwyd drwy weithredu'r Gyfarwyddeb Nitradau yng Nghymru. Nid oedd y broses hon, ac argymhelliad Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ystyried effeithiau ehangach llygredd amaethyddol.

12. Er bod y Rheoliadau CoAP yn cyflawni rhwymedigaethau sy'n deillio o'r Gyfarwyddeb Nitradau, maent yn symud oddi wrth ddull y Gyfarwyddeb Nitradau ac yn ystyried rhwymedigaethau ac amcanion ehangach. Nid ydynt yn reoliadau Parthau Perygl Nitradau (PPN). Nid yw dull gweithredu ar wahân ar gyfer y Gyfarwyddeb Nitradau yn diogelu cyrff dŵr ledled Cymru rhag methu â chyrraedd safonau diogelwch ac ecolegol eraill, lleihau llygredd atmosfferig na mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i liniaru.

13. Gall newid ecolegol ddigwydd o dan y trothwyon a sefydlwyd gan y Gyfarwyddeb Nitradau, yn enwedig ar y cyd â llygryddion amaethyddol eraill, gan gynnwys ffosfforws. Mae llygredd ffosfforws yn ein hafonydd yn cael effaith andwyol ar ddatblygiadau tai ac economaidd, gan gynnwys datblygiadau amaethyddol, mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonydd[15].

14. Mae naw ACA afonydd yng Nghymru – Cleddau, Eden, Gwyrfai, Teifi, Tywi, Glaslyn, Dyfrdwy, Brynbuga a Gwy. Mae'r afonydd hyn yn cynnal rhai o fywyd

[14] Cyfoeth Naturiol Cymru / Ymgynghoriad Heriau a Dewisiadau 2019 (naturalresources.wales)
[15] Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforw (naturalresourceswales.gov.uk)

gwyllt mwyaf arbennig Cymru, gan gynnwys eogiaid yr Iwerydd, misglod perlog yr afon, cimychiaid crafanc wen a llyriad-y-dŵr arnofiol. Mae asesiad CNC o'r afonydd hyn wedi nodi bod achosion o dorri amodau ffosfforws yn gyffredin o fewn afonydd ACA Cymru, gyda dros 60% o'r cyrff dŵr hyn yn uwch na throthwyon ffosfforws[16].

15. Mae asesiadau o ACA Afon Gwy a gynhaliwyd gan Dŵr Cymru mewn cydweithrediad â CNC yn dangos bod amaethyddiaeth yn cyfrannu tua 66% o'r llygredd ffosfforaidd. Nid yw'r data a ddefnyddir yn ystyried cynnydd diweddar sylweddol yn nifer y dofednod yn y dalgylch. Mae Ffigurau 8 a 9 yn Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth. Mae Ffigurau 2-4 yn Atodiad 1 ac Asesiad Cydymffurfiaeth CNC o ACA Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws[17] yn darparu mapiau o gyrff dŵr yng Nghymru y mae llygredd amaethyddol yn effeithio arnynt.

16. Yn ogystal â darparu safonau sylfaenol i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol sy'n effeithio ar gyrff dŵr, cydnabyddir y bydd rheoliadau sy'n gymwys ledled Cymru yn helpu i gyflawni amcanion allweddol eraill ar fioamrywiaeth, ansawdd aer, sy'n gysylltiedig ag amonia a deunydd gronynnol, a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.

17. Mae dros 90% o allyriadau amonia yng Nghymru yn cael eu hachosi gan amaethyddiaeth, sy'n achosi dros 87% o gynefinoedd sensitif Cymru sy'n mynd dros drothwyon statudol ar gyfer asideiddio ac ewtroffigedd[18]. Mae deunydd gronynnol mân (PM2.5, gronynnau â diamedr aerodynamig canolrifol torfol o lai na 2.5 micromedr) yn yr atmosffer yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol difrifol ar iechyd pobl. Amonia yw un o'r prif ragflaenwyr PM2.5 ac achos tua 60% o PM2.5 atmosfferig y DU[19].

18. Mae lleihau allyriadau amonia yn hanfodol os ydym am ddiogelu iechyd y cyhoedd a'n nodweddion amgylcheddol pwysicaf, a chyflawni ymrwymiadau statudol i leihau allyriadau a sefydlwyd gan Reoliadau Uchafswm Allyriadau Cenedlaethol 2018[20], yn unol â Phrotocol Gothenburg. Yn ogystal ag effeithio'n andwyol ar iechyd a lles dinasyddion Cymru ac amgylchedd Cymru, mae amonia a PM2.5 yn lygryddion trawsffiniol. Mae cymryd camau i atal llygryddion trawsffiniol yn allweddol i'r ffordd y mae Cymru'n cyflawni ei rhwymedigaethau fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

19. Bydd y Rheoliadau'n cyfrannu at leihau allyriadau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd, yn unol ag argymhellion Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd[21] a nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Un o brif fanteision y Rheoliadau

---

[16] compliance-assessment-of-welsh-sacs-against-phosphorus-targets-final-v10.pdf (cyfoethnaturiol.cymru)
[17] compliance-assessment-of-welsh-sacs-against-phosphorus-targets-final-v10.pdf (cyfoethnaturiol.cymru)

[18] 2006181057_Trends_Report_2020.pdf (defra.gov.uk)
[19] https://www.science.org/doi/10.1126/science.abf8623
[20] The National Emission Ceilings Regulations 2018 (legislation.gov.uk)
[21] Land use: Policies for a Net Zero UK - Climate Change Committee (theccc.org.uk)

CoAP fydd lleihau allyriadau ocsid nitraidd, nwy tŷ gwydr tua 300 gwaith yn fwy grymus na charbon deuocsid [22].

20. Bydd Rheoliadau CoAP hefyd yn helpu i leihau llygredd dŵr o gemegion organig ac ymwrthedd gwrthficrobaidd a geir mewn deunyddiau sy'n ymledu i dir; bacteria a phathogenau ysgarthol (mae'r holl ffermio da byw a rhai gwastraff oddi ar y fferm yn ffynonellau); a microblastigau (sy'n bresennol mewn slwtsh carthion, compost a thail organig eraill).

Digwyddiadau llygredd amaethyddol

21. Gall effaith achosion o lygredd amaethyddol yn y tarddle fod yn ddinistriol ac maent yn gronnol. Gall gymryd blynyddoedd lawer i'r ecosystem wella'n llawn, os gallant wneud hynny. Os yw'r deunydd organig sydd wedi'i gynnwys mewn tail, slyri, elifiant silwair, llaeth gwastraff neu olchion llysiau yn mynd i gwrs dŵr, caiff ei dorri I lawr gan ficro-organebau. Mae'r broses hon yn cael gwared ar ocsigen o'r dŵr ac mewn achosion o halogi difrifol, gellir lladd bywyd dyfrol drwy newyn ocsigen yn hytrach na gwenwyn uniongyrchol. Tuedda gwastraff o amaethyddiaeth fod â Galw am Ocsigen Biolegol (BOD) uchel o'i gymharu â charthffosiaeth ddomestig:

| **Llygrydd** | **BOD (mg O2/litr o lygrydd)** |
|---|---:|
| Carthion domestig amrwd | 300 |
| Slyri gwartheg | 20,000 |
| Slyri moch | 30,000 |
| Elifion silwair | 80,000 |
| Llaeth | 140,000 |

Ffynhonnell: Cod Ymarfer Amaethyddol Da i Gymru[23]

22. Mae CNC yn cofnodi nifer y digwyddiadau llygredd amaethyddol a brofwyd sy'n digwydd yng Nghymru. Cafodd 154 o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol eu cadarnhau gan CNC yn 2021. Nifer cyfartalog yr achosion o lygredd blynyddol a ddigwyddodd dros y 10 mlynedd diwethaf yw 155.

23. Rhwng 2012 a 2016, cyfanswm nifer yr achosion o lygredd amaethyddol a brofwyd oedd 734. Ym mis Ionawr 2017, sefydlodd Fforwm Rheoli Tir Cymru is-grŵp i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â llygredd amaethyddol. Cyfanswm nifer yr achosion o lygredd a brofwyd yn y 5 mlynedd canlynol, rhwng 2017 a 2021, oedd 816, sy'n gynnydd o 11%. Nid yw hyn yn adlewyrchiad o waith y grŵp, sydd wedi gwneud cryn ymdrech i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, mae'n dangos nad yw dulliau gwirfoddol yn unig yn ddigonol. Er bod rhywfaint o amrywiad yn nifer y digwyddiadau, dim ond 1 allan o'r 21 mlynedd diwethaf sydd wedi gweld llai na 100 o ddigwyddiadau (mae Ffigur 6 yn Atodiad 1 yn rhoi rhagor

[22] EM template for sub leg (senedd.wales)
[23] Côd ymarfer amaethyddol da | LLYW.CYMRU

o fanylion).

**Ffynonellau llygredd dŵr eraill**

24. Nid amaethyddiaeth yw'r unig ffynhonnell o lygredd dŵr, mae ffigur 1 o Atodiad 1 yn amlinellu nifer o ffynonellau. Mae'r Rheoliadau CoAP wedi'u cynllunio i fod yn rhan o gyfres o fesurau i leihau effaith gyffredinol llygredd i afonydd Cymru.

25. Mae cwmnïau dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio'n helaeth gydag amodau trwyddedu llym ar gyfer eu hasedau. Mae cwmnïau dŵr yn gyfrifol am hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd i CNC. Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau'n cael eu hadrodd gan y diwydiant dŵr gan gynnwys unrhyw achosion posibl o lygredd nad ydynt yn cael effaith. Cofnodir y rhain ar gronfa ddata CNC.

26. O'i gymharu, nid oes gan y sector amaethyddiaeth ofynion ar gyfer hunan-adrodd am ddigwyddiadau llygredd i ddŵr ac mae CNC yn adrodd bod amlder hunanadrodd yn sylweddol is i'r sector. Rhoddodd system cofnodi digwyddiadau llygredd CNC faes gorfodol ar y gronfa ddata i gasglu achosion hunan-adrodd, ond mae'r data cyn Awst 2018 yn gyfyngedig. Mae cyfanswm nifer yr achosion o lygredd a achosir gan amaethyddiaeth yn debygol o fod yn fwy na'r hyn a gofnodwyd.

27. Yn 2019, deilliodd 26 o achosion o lygredd o Orlifiannau Stormydd Cyfunol (CSOs) ledled Cymru, a chafodd pob un ohonynt eu categoreiddio'n Isel. Caniateir i Swyddogion Cymorth Cymunedol o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR) gael eu rhyddhau yn ystod stormydd er mwyn atal llifogydd mewn eiddo â charthffosiaeth. Yn 2019, o'r 166 o ddigwyddiadau llygredd a brofwyd a briodolwyd i'r diwydiant dŵr, cafodd 8 eu categoreiddio'n Uchel, ac roedd y gweddill yn Isel. O'i gymharu, yn yr un flwyddyn, roedd 27 o'r 163 o ddigwyddiadau llygredd amaethyddol a brofwyd wedi'u categoreiddio'n Uchel.

28. Cafwyd buddsoddiadau gan DCWW (2020 – 2025) yn cynnwys dros £100 miliwn i wella Gorlifiannau Stormydd Cyfunol yn unig, gyda chyfanswm buddsoddiad o £836 miliwn yn ei seilwaith gwastraff. Mae DCWW hefyd wedi monitro 99% o'u Gorlifiannau Stormydd Cyfunol ac mae'r data'n cael ei adrodd yn agored ar wefan y cwmni.

**Ymagwedd Cymru gyfan**

29. Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ni fyddai dull wedi'i dargedu'n ddaearyddol yn effeithiol o ran mynd i'r afael â'r ystod o achosion o lygredd amaethyddol a achosir gan arferion amaethyddol gwael yng Nghymru. Ni fyddai cyrff dŵr sy'n methu â chyflawni statws da'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r rhai sy'n mynd dros derfynau ffosfforws yn cael eu diogelu gan PPNau ar wahân. Ni fyddai

dynodi PPNau ar wahân yn gwneud fawr ddim i fynd i'r afael ag allyriadau amonia ac ocsid nitraidd neu PM2.5 a achosir gan amaethyddiaeth a chyrff dŵr ac ni fyddai bioamrywiaeth yn cael eu diogelu rhag effeithiau digwyddiadau llygredd.

30. Gall gymryd degawdau i welliannau mewn rhai cyrff dŵr gael eu harsylwi oherwydd cymhlethdodau gweithredu'r dalgylch. Er enghraifft, nododd un astudiaeth y bydd crynodiadau nitradau mewn mannau monitro sy'n gysylltiedig â chalchfaen carbonifferaidd yng Ngogledd Cymru (yn ardaloedd PPNau Ynys Môn a Sir y Fflint) yn parhau i gynyddu tan 2051 oherwydd bod llwythi maetholion yn digwydd dros nifer o flynyddoedd[24]. Cyfeirir at yr effaith hon yn aml fel y Bom Amser Nitradau[25].

31. Mae oedi rhwng defnyddio tail ar dir a gweld y llygrydd mewn cyrff dŵr hefyd yn digwydd mewn perthynas â ffosfforws. Mae prosiect RePhoKUs[26] (Rôl Ffosfforws yng Nghadernid a Chynaliadwyedd System Fwyd y DU) wedi nodi gwarged ffosfforaidd sylweddol sy'n cronni mewn priddoedd amaethyddol yn nalgylch Afon Gwy (Cymru a Lloegr). Mae'r astudiaeth yn nodi y bydd dod â'r dalgylch i gydbwysedd ffosfforaidd sero-net yn gofyn am newid sylweddol mewn arferion defnyddio ffosfforws, sy'n cyfateb yn fras i beidio â defnyddio unrhyw wrtaith ffosfforws, 80% o'r tail dofednod, a 50% o dail gwartheg[27] .

32. Nododd tîm RePhoKUs, a gyflwynodd i is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mawrth 2022, y gallai ffermydd llaeth dwys yn nalgylch Afon Gwy ffermio gyda mewnbynnau dim ffosfforws (a fyddai'n cynnwys tail da byw) am 8 mlynedd ar gyfartaledd cyn y byddai lefel y ffosfforws yn y pridd yn mynd yn ddiffygiol at ddibenion agronomegol. Mae'r etifeddiaeth ffosfforaidd hon yn y pridd yn peri risg sylweddol, hirdymor o lygredd.

33. Nid yw aros i lygredd gael ei ganfod mewn safleoedd monitro yn ddull effeithiol o atal llygredd amaethyddol. Gall gymryd degawdau cyn i broblem gael ei nodi ac yna degawdau i unioni'r mater. Ni fyddai'r dull hwn yn gydnaws â diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

34. Ni fyddai targedu rheoliadau'n ddaearyddol yn atal llygredd rhag digwydd mewn ardaloedd lle nad yw rheoliadau'n gymwys, gan gynnwys drwy ddwysáu anghynaliadwy, ac ni fyddai'n gwneud fawr ddim i fynd i'r afael ag allyriadau atmosfferig. Mae ardaloedd sydd â safonau amgylcheddol is mewn mwy o berygl o arferion anghynaliadwy. Mae'r meysydd hyn hefyd yn fwy tebygol o gael eu hystyried yn feysydd i'w datblygu, oherwydd gofynion rheoliadol is. Ni fyddai dull wedi'i dargedu'n ddaearyddol yn diogelu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Dyna

[24] Côd ymarfer amaethyddol da | LLYW.CYMRU
[25] (PDF) The changing trend in nitrate concentrations in major aquifers due to historical nitrate loading from agricultural land across England and Wales from 1925 to 2150 (researchgate.net)
[26] Nitrate time bomb - British Geological Survey (bgs.ac.uk)
[27] Resilience Phosphorus UK – Re-focusing phosphorus use in the UK food system (lancs.ac.uk)

pam y cymerwyd dull sy'n atal llygredd rhag digwydd, yn hytrach nag ymateb ar ôl i ddifrod sylweddol gael ei achosi.


35. Nid yw llygredd wedi'i gyfyngu i unrhyw un sector, math o fferm na maint. Mae Ffigur 6 yn Atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau llygredd a achosir gan wahanol fathau o ffermydd. Mae adroddiad is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru[28] yn cyfeirio at reoli slyri'n wael a diffyg digon o le storio slyri fel achos o wasgaru slyri'n amhriodol i dir yn ystod tywydd anffafriol ac amodau pridd, sy'n arwain at lygredd. Mae digon o le i storio slyri yn y sector llaeth yn broblem sy'n effeithio ar faint pob fferm (Gweler ffigurau 5 a 9 yn Atodiad 1). Gall effaith gronnol llygredd o lawer o ffermydd bach fod mor sylweddol â'r llygredd a achosir gan fferm fawr.

36. Mae'r dull a ddefnyddir yn golygu y bydd y llinell sylfaen reoleiddio yr un fath i bob ffermwr yng Nghymru, gan roi chwarae teg, mwy o sicrwydd i ffermwyr y mae rheoliadau'n berthnasol iddynt a gwneud y rheolau'n haws i'w deall, cydymffurfio â hwy a'u gorfodi. Fodd bynnag, gan fod y rheoliadau'n targedu achosion llygredd, bydd ffermydd unigol yn cael eu heffeithio'n gymesur, yn ôl y math o weithgareddau sy'n cael eu cynnal a'r risgiau y maent yn eu cyflwyno i iechyd pobl a'r amgylchedd.

Llywodraeth Cymru Ebrill 2022


[28] Water Quality in Rivers (parliament.uk)

## Atodiad 1[29]





**Ffigur 1: Nifer y cyrff dŵr yng Nghymru sy'n methu â chyrraedd statws da i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ôl sector**

[29] Noder: lle nad oes fersiwn Gymraeg o ffigur yn yr atodiad hwn, mae cyfieithiad o'r testun perthnasol wedi'i ddarparu islaw'r ffigur.





**Ffigur 2: Map o'r ardaloedd a argymhellwyd gan CNC i'w dynodi'n Barthau Perygl Nitradau yn 2016 (tua 8% o Gymru).**





Water Watch Wales Map – Map Water Watch Cymru
River waterbody catchments interim - Dalgylchoedd dŵr afon dros dro
Bad – Gwael iawn
Good – Da
Moderate – Canolig
Poor - Gwael

**Ffigur 3: Statws dalgylch dŵr afon WFD. Mae unrhyw ddalgylch nad yw'n wyrdd yn methu â chyrraedd y safon WFD gofynnol.**




Agricultural incidents to water in wales (from 1st Jan 2010 to 23rd Jan 2020) – Digwyddiadau amaethyddol i ddŵr yng Nghymru (rhwng 1 Ionawr 2010 a 23 Ionawr 2020)
Count of Agricultural Incidents by WFD Catchment - Cyfrif Digwyddiadau Amaethyddol yn ôl Dalgylch WFD

**Ffigur 4: Dalgylchoedd y mae digwyddiadau llygredd amaethyddol wedi effeithio arnynt.**





Number of Farms – Nifer y Ffermydd
Days of slurry storage – Dyddiau storio slyri

**Ffigur 5: Capasiti storio ar 721 o ffermydd.**

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a adroddwyd gan CNC o'r Prosiect Llaeth ar gapasiti storio slyri ffermydd llaeth o 31 Hydref 2021. Roedd CNC wedi ymweld ag 824 o ffermydd llaeth, gyda 700 o ffermydd eraill yn weddill.

Mae Ffigur 1 yn darparu capasiti storio 721 o ffermydd. Isafswm gofyniad capasiti storio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010 yw 4 mis (120 diwrnod). Mae'r data'n dangos nad oedd 56% (402) o'r ffermydd a aseswyd yn bodloni gofynion capasiti storio Rheoliadau presennol 2010.


Mae'r gofynion a'r eithriadau storio slyri sy'n berthnasol i ofynion adeiladu systemau storio slyri Rheoliadau 2010 yn union yr un fath â gofynion rheoliadau blaenorol Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) 1991. Roedd yr eithriadau'n sicrhau y gellir parhau i ddefnyddio storfeydd a adeiladwyd neu sydd yn y broses o gael eu hadeiladu ar yr adeg y cyflwynwyd Rheoliadau 1991. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i ddarparu o leiaf 4 mis o storio slyri, sydd wedi'i gynnwys yn Rheoliadau 1991 ac a ddygwyd ymlaen i Reoliadau 2010, yn gymwys i'r person sy'n cadw neu'n rheoli slyri ac nad yw'n dod o dan yr eithriadau.




Number of farms – Nifer y ffermydd
Farms with only pre-1991 slurry stores – Ffermydd gyda storfeydd slyri cyn-1991 yn unig
Farms with pre- and post- 1991 slurry stores – Ffermydd gyda storfeydd cyn-1991 ac ôl-1991
Farms with only post-1991 slurry stores – Ffermydd gyda storfeydd ôl-1991 yn unig
Below 120 days storage – Llai na 120 diwrnod o storioAbove 120 days storae – Dros 120 diwrnod o storio

**Ffigur 6: Gwybodaeth am gapasiti storio ac oedran y storfa ar gyfer 686 o ffermydd o Brosiect Llaeth CNC.**

Mae'r data'n dangos nad yw 60% (409) o'r ffermydd a aseswyd yn bodloni gofynion capasiti storio Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010.




| | 2001 | 2002 | 2003 | 2004 | 2005 | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Horticulture | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Pig | 1 | 3 | 2 | 1 | 2 | 1 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 | 4 | 3 | 0 | 1 | 1 |
| Fish Farming | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 | 0 | 2 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Poultry | 0 | 6 | 2 | 0 | 3 | 0 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 3 | 2 | 0 | 1 | 1 | 3 | 0 | 1 | 8 | 1 |
| Equine | 2 | 4 | 6 | 4 | 1 | 1 | 0 | 3 | 5 | 2 | 4 | 2 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | 4 | 2 | 5 | 6 | 2 |
| Non agri source | 4 | 5 | 4 | 4 | 3 | 4 | 3 | 1 | 1 | 4 | 1 | 5 | 1 | 1 | 1 | 1 | 5 | 8 | 4 | 5 | 0 | 0 |
| Arable | 5 | 6 | 3 | 3 | 2 | 3 | 2 | 1 | 1 | 2 | 1 | 4 | 1 | 4 | 1 | 3 | 7 | 5 | 14 | 10 | 13 | 0 |
| Forestry | 1 | 1 | 1 | 3 | 6 | 1 | 1 | 0 | 2 | 0 | 2 | 7 | 4 | 2 | 2 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sheep | 10 | 6 | 13 | 28 | 25 | 10 | 6 | 4 | 4 | 8 | 5 | 4 | 4 | 4 | 6 | 11 | 6 | 9 | 15 | 11 | 8 | 3 |
| Other Agricultural Source | 7 | 11 | 13 | 14 | 8 | 9 | 6 | 9 | 5 | 10 | 7 | 8 | 9 | 7 | 7 | 9 | 13 | 19 | 24 | 30 | 20 | 2 |
| Beef | 9 | 33 | 25 | 25 | 21 | 20 | 23 | 11 | 8 | 27 | 23 | 16 | 24 | 31 | 17 | 18 | 22 | 27 | 26 | 14 | 30 | 0 |
| Unknown Source | 31 | 32 | 41 | 38 | 53 | 31 | 18 | 17 | 22 | 23 | 17 | 36 | 13 | 26 | 30 | 19 | 7 | 7 | 6 | 4 | 4 | 0 |
| Dairy | 61 | 86 | 63 | 57 | 57 | 46 | 40 | 53 | 46 | 75 | 69 | 86 | 61 | 91 | 73 | 63 | 69 | 109 | 81 | 75 | 64 | 11 |
| Total | 133 | 194 | 174 | 177 | 183 | 128 | 101 | 105 | 96 | 156 | 131 | 172 | 122 | 171 | 140 | 129 | 135 | 197 | 175 | 155 | 154 | 20 |


Substantiated Agricultural Pollution Incidents with impact to water (Cat 1/2/3/High/Low) 2001 to 15 March 2022 - Digwyddiadau Llygredd Amaethyddol wedi'u Cadarnhau gydag effaith i ddŵr (Cat 1/2/3/Uchel/Isel) 2001 i 15 Mawrth 2022

Horticulture – Garddwriaeth
Pig – Moch
Fish Farming - Ffermio Pysgod
Poultry – Dofednod
Equine – Ceffylau
Non agri source - Ffynhonnell nad yw'n amaeth
Arable – Âr
Forestry – Coedwigaeth
Sheep – Defaid
Other agricultural source - Ffynhonnell amaethyddol arall
Beef - Cig eidion
Unknown source - Ffynhonnell anhysbys
Dairy – Llaeth
Total - Cyfanswm


**Ffigur 7: Digwyddiadau Llygredd Amaethyddol wedi'u Cadarnhau a gofnodwyd gan CNC.**

# STW only vs no STW

Dŵr Cymru
Welsh Water




Compliance within the upper Wye for STW inputs only.





Compliance within the upper Wye for non-STW inputs only.

**Key message - compliance with the JNCC WQ targets cannot be met by improvements to DCWW assets only.**

STW only vs no STW (*STW = Sewage Treatment Works*) - Gwaith Trin Carthion yn unig neu dim Gwaith Trin Carthion)
Compliance within the upper Wye for STW inputs only - Cydymffurfio o fewn Gwy uchaf ar gyfer mewnbynnau Gwaith Trin Carthion yn unig
Compliance within the upper Wye for non-STW inputs only - Cydymffurfio o fewn Gwy uchaf ar gyfer mewnbynnau nad ydynt yn Waith Trin Carthion yn unig
Key message – compliance with the JNCC WQ targets cannot be met by improvements to DCWW assets only. - Neges allweddol – ni ellir cydymffurfio â thargedau JNCC WQ drwy welliannau i asedau DCWW yn unig.

**Ffigur 8: Diweddariad Modelu Afonydd ACA Afon Gwy gan DCWW a CNC**





STW – Gwaith Trin Carthion
Agriculture – Amaethyddiaeth
Other – Arall

**Ffigur 9: Cyfraniad sectoraidd i ffosfforws yn nalgylch Afon Gwy gan DCWW a CNC.**

# Storage capacity and herd size

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

414




Storage capacity and herd size – Gallu storio a maint y fuches
Days Storage – Dyddiau Storio
Herd Size (LSU) (*LSU = Livestock Units*)- Maint y Fuches (Unedau Da Byw)

**Ffigur 10: Gallu storio ffermydd llaeth o Brosiect Llaeth CNC.**

| Sector (Catergori Busnes) | Cadarnhawyd | Naturiol | Ddim yn berthnasol | Tebygol | Amheuaeth | (blank) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amaethyddiaeth a rholi tir gwledig | 140 | | 4 | 232 | 118 | 3 | 497 |
| Pysgota | | | | | 1 | | 1 |
| Pysgota a Chadwraeth | 1 | | | | | | 1 |
| Llywodraeth Ganolog | | | | 12 | 1 | | 13 |
| Domestig/Y Cyhoedd | 2 | | | 14 | 43 | | 59 |
| Coedwigaeth | 1 | | | 2 | 1 | | 4 |
| Ynni Dŵr | 9 | | | 1 | | | 10 |
| Diwydiant, Gweithgynhyrchu a Busnesau eraill | 17 | | | 28 | 14 | 1 | 60 |
| Llywodraeth Leol | | | | 1 | 3 | | 4 |
| Mwyngloddio a Chwarela | 105 | | | 164 | 14 | | 283 |
| Mordwyaeth | 8 | | | 2 | 1 | | 11 |
| Cyrff Anllywodraethol | 1 | | | | | | 1 |
| Mwyngloddio Di-lo | 3 | | | 2 | 3 | | 8 |
| Ddim yn berthnasol | 44 | | 108 | 8 | 6 | 6 | 172 |
| CNC | 2 | | 1 | 3 | 2 | | 8 |
| Arall (dim ar y rhestr) | 6 | | 6 | 19 | 6 | | 37 |
| Ddim yn hysbys (aros am archwiliad) | 15 | 9 | 438 | 53 | 5 | 1 | 521 |
| Trefol a Thrafnidiaeth | 100 | | | 148 | 41 | | 289 |
| Diwydiant Dŵr | 85 | | | 141 | 136 | 3 | 365 |
| **Cyfanswm** | **539** | **9** | **557** | **830** | **395** | **14** | **2344** |

**Ffigur 11: Y data diweddaraf sydd ar gael, o 2021, ar gyrff dŵr sydd heb statws da yng Nghymru a'r achos.** Cadarnhawyd nad yw pedwar corff dŵr yn cyrraedd statws da oherwydd Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol, gyda 27 yn debygol a 4 yn cael eu hamau. Priodolir gollyngiadau Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol i'r Diwydiant Dŵr. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, gall gollyngiadau o'r Gorlif Carthffosiaeth Cyfunol gael eu hachosi gan lifoedd dros y tir sy'n gysylltiedig ag arferion rheoli tir a gallant gynnwys llygryddion amaethyddol.